


Gwasanaeth Tân ac Achub
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Mid and West Wales
Fire and Rescue Service

# ADRODDIAD YMGYSYLLTU CRMP

www.tancgc.gov.uk

This document is also available in English

# Fersiynau Amgen

**Arabeg**

هذه الوثيقة متوفرة ايضا بطرق تسهل قراءتها، لو تريد هذه المعلومه بلغة أخرى أو بشكل اخر، اضافة بطريقة مسموعة، المرجوا التواصل معنا عبر03706060699 او عبر البريد الالكتروني : mail@mawwfire.gov.uk

**Tsieineaidd**

该文档也备有无障碍格式版。如果您需要信息通过不同语言或格式提供，包括语音版本，请拨打 0370 60 60 699 或电邮到 mail@mawwfire.gov.uk 跟我们联系。

**Saesneg**

This document is also available in accessible formats. If you would like this information in an alternative language or format, including audio, please contact us on: 0370 6060699 or email: mail@mawwfire.gov.uk.

**Nepaleg**

*यो दस्तावेज अन्य सजिला फर्मेटहरूमा पनि उपलब्ध छ। यदि तपाईं यो जानकारी अडियोसमेत अन्य वैकल्पिक भाषा वा फर्मेटमा चाहनुहुन्छ भने कृपया हामीलाई फोन नं.: 0370 6060699 वा ईमेल:* mail@mawwfire.gov.uk *मा सम्पर्क गर्नुहोस्।*

**Pwylaidd**

*Istnieje również możliwość uzyskania niniejszego dokumentu w dostępnych formatach. Jeśli chce Pan/Pani otrzymać niniejsze informacje w innym języku lub formacie, w tym w wersji dźwiękowej, prosimy o skontaktowanie się z nami telefonicznie: 0370 6060699 lub drogą mailową:* mail@mawwfire.gov.uk.

**Pwnjabeg**

"ਇਹ ਦਸਤਾਵੇਜ਼ ਪਹੁੰਚਯੋਗ ਫਾਰਮੈਟਾਂ ਵਿਚ ਵੀ ਉਪਲਬਧ ਹੈ. ਜੇ ਤੁਸੀਂ ਇਹ ਜਾਣਕਾਰੀ ਕਿਸੇ ਵਿਕਲਪਿਕ ਭਾਸ਼ਾ ਜਾਂ ਫਾਰਮੈਟ ਵਿਚ ਚਾਹੁੰਦੇ ਹੋ, ਜਿਸ ਵਿਚ ਆਡੀਓ ਵੀ ਸ਼ਾਮਲ ਹੈ, ਕਿਰਪਾ ਕਰਕੇ ਸਾਡੇ ਨਾਲ ਸੰਪਰਕ ਕਰੋ: 0370 6060699 ਜਾਂ ਈਮੇਲ: ਮੇਲ@mawwfire.gov.uk."

**Wrdw**

یہ دستاویز قابل رسائی شکلوں میں بھی دستیاب ہے۔ اگر آپ یہ معلومات آڈیو سمیت کسی متبادل زبان یا شکل میں چاہتے ہیں تو ، براہ کرم ہم سے رابطہ کریں: 0370 6060699 یا ای میل : mail@mawwfire.gov.ukمیل پر۔"

**Cymraeg**

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch. Os hoffech gael yr wybodaeth hon mewn fformat neu iaith amgen, gan gynnwys ar ffurf sain, cysylltwch â ni ar: 0370 6060699 neu drwy e-bost: mail@mawwfire.gov.uk.

## Cynnwys


Crynodeb Gweithredol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cyn-ymgysylltu........ **Error! Bookmark not defined.**

Arolwg ymgysylltu ........ **Error! Bookmark not defined.**

Canfyddiadau'r Arolwg Ymgysylltu ........ 17

Cwestiwn 2: Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r Gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru?........ 18

Cwestiwn 3: Pa mor ymwybodol ydych chi o sut mae Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu hariannu?........ 30

Cwestiwn 4: Yn eich barn chi, beth yw prif gyfrifoldebau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru? Gofynnwyd i'r ymatebwyr eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth.. ........ 43

Cwestiwn 5: Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw hi i Wasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ganolbwyntio ar y canlynol? Gofynnwyd i'r ymatebwyr eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth ........ **Error! Bookmark not defined.**

Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau sy'n wynebu Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a sut ydych chi'n meddwl y dylem ni ymateb iddynt? Gofynnwyd i'r ymatebwyr eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth. ........ 74

Cwestiwn 7: A ydych chi'n teimlo bod unrhyw risgiau newydd eraill sy'n dod i'r amlwg y dylem fod yn eu hystyried? Eglurwch ymhellach. ........ 88

Cwestiwn 8: A ydych chi'n teimlo bod unrhyw feysydd eraill y dylid eu hystyried er mwyn cefnogi gwendidau cymunedol? Eglurwch ymhellach.. ........ 99

Cwestiwn 9: ‘A hoffech chi wneud unrhyw sylwadau ychwanegol neu rannu gwybodaeth bellach gyda ni yr ydych chi’n credu y bydd yn helpu i wella Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru? ........ **Error! Bookmark not defined.**

Dweud Eich Dweud ........ **Error! Bookmark not defined.**

Gohebiaeth ysgrifenedig ........ **Error! Bookmark not defined.**

Casgliad ........ **Error! Bookmark not defined.**

A wnaethon ni gyrraedd y gynulleidfa darged gywir........ **Error! Bookmark not defined.**

Beth ddysgon ni? ........ **Error! Bookmark not defined.**

Gwersi a Ddysgwyd ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Syniadau ar gyfer ymrwymiadau yn y dyfodol ........ **Error! Bookmark not defined.**

Monitro Cydraddoldeb ........ **Error! Bookmark not defined.**

Dysgwch fwy. ........ **Error! Bookmark not defined.**

# Crynodeb Gweithredol

Ein Gweledigaeth yw darparu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru.  I'n cynorthwyo i gyflawni ein Gweledigaeth, rydym wedi edrych ar y risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n gysylltiedig â'n cymunedau ac wedi llunio Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) tymor hwy a fydd yn mynd â ni drwodd i 2040. Rydym yn hyderus y bydd hyn yn ein galluogi i ddeall, rheoli a lleihau'r risgiau hyn, gan gadw cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru mor ddiogel â phosibl.

Gan gydnabod anghenion newidiol ein cymunedau, bydd ein cynllun hirdymor yn parhau i fod yn hyblyg, gan ganiatáu inni barhau i addasu i newidiadau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd, gan ddiogelu'r gwasanaethau a ddarparwn at y dyfodol, trwy gael y bobl iawn yn y lle iawn, ar yr adeg gywir, gyda'r sgiliau a'r offer cywir i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

Yn ystod cam datblygu CRhRC 2040, rhoddwyd cyfle i Dîm Arwain Gweithredol (ELT) y Gwasanaeth a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth (SLT) adolygu Gweledigaeth, Cenhadaeth a Gwerthoedd y Gwasanaeth trwy gyfres o weithdai. Arweiniodd hyn at greu Gweledigaeth newydd, sef un a oedd yn cydredeg yn fwy ag uchelgeisiau tymor hwy'r Gwasanaeth ac yn adlewyrchu'r blaenoriaethau allweddol a amlinellwyd yn CRhRC 2040 yn well.

Mabwysiadwyd cyfres o Ymddygiadau hefyd, a oedd yn cydredeg â Chyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân, y Cod Moeseg Craidd ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub, y Fframwaith Arweinyddiaeth a Saith Egwyddor Bywyd Cyhoeddus, a elwir yn anffurfiol yn Egwyddorion Nolan. Datblygwyd y rhain i gefnogi ymagwedd gyson at foeseg, gan gynnwys ymddygiadau gan wasanaethau tân ac achub.

Rydym yn hyderus y bydd cyflwyno'r Ymddygiadau hyn yn helpu gyda'n huchelgais, sef esblygu ein diwylliant sefydliadol i sicrhau ein bod yn gweithredu o fewn y safonau a ddisgwylir gan Wasanaeth Tân ac Achub modern, a sicrhau bod y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn cael eu cefnogi yn y ffordd orau bosibl.

Cydnabuwyd bod cyflawni'r blaenoriaethau a'r amcanion a amlinellwyd yn CRhRC 2040 yn dibynnu ar ystod o swyddogaethau galluogi, sef, ein pobl, ein harweinyddiaeth a'n rheolaeth: Llywodraethu, gwneud penderfyniadau a gwelliant parhaus, gwytnwch ariannol, cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol, technoleg cyfathrebu digidol a gwybodaeth a phartneriaethau a chydweithio, sy'n chwarae rhan hanfodol yng ngweithrediad y sefydliad o ddydd i ddydd. Canlyniad hyn oedd cyflwyno set o alluogwyr, a fydd yn cynorthwyo i gyflawni'r amcanion ond hefyd yn sicrhau bod gennym y darpariaethau ar waith i gefnogi gwelliant parhaus ac ystyrlon.

Mae CRhRC 2040 yr Awdurdod yn amlygu sut mae'r Gwasanaeth yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a sut rydym yn bwriadu eu cyflawni a'u lleihau. Byddwn yn sicrhau bod ein hasedau a'n hadnoddau yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus, gan ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu. Rydym yn hyderus y bydd yr amcanion a nodwyd gennym yn ein CRhRC yn ein galluogi i barhau i ddatblygu a

darparu gwasanaeth effeithiol, effeithlon ac o'r radd flaenaf, gan eich cadw chi a'ch teuluoedd yn ddiogel.

## Cyn Ymgysylltu

Mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu wrth wraidd popeth a wnawn, ac wrth gydnabod bod angen cynllunio ar gyfer y tymor hwy penderfynon ni adolygu ein trefniadau cynllunio. Canlyniad hyn oedd cyflwyno Cynllun Rheoli Risg Cymunedol (CRhRC) 2040. Mae ein CRhRC yn amlygu sut rydym yn bwriadu mynd i'r afael â'r risgiau, y bygythiadau a'r heriau sy'n wynebu ein cymunedau a sut yr ydym yn bwriadu eu hwynebu a'u lleihau, gan sicrhau ar yr un pryd bod ein hasedau a'n hadnoddau yn cael eu defnyddio'n llwyddiannus, a darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu.

Roedd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn canolbwyntio ar y materion a'r heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth a beth yw'r rhain ym marn y cyhoedd. Fe wnaethom hefyd ofyn i'r cyhoedd ddweud wrthym beth ddylai ein blaenoriaethau a'n meysydd ffocws fod, yn eu barn hwy. Darparodd cyfanswm o 697 o unigolion o wahanol rannau o'n cymunedau eu hadborth drwy'r arolwg, sef cyfanswm o 690 o ymatebion Saesneg a 7 o ymatebion Cymraeg.

Cynlluniwyd y CRhRC i gyflawni ein Gweledigaeth, sef darparu'r gwasanaeth gorau posibl ar gyfer cymunedau canolbarth a gorllewin Cymru. Bydd hyn yn gwella ansawdd ac argaeledd y gwasanaethau a ddarparwn gan sicrhau datblygu cynaliadwy a chynyddu effeithlonrwydd ac arddangos arloesedd, tra hefyd yn cyfrannu at y 7 Nod Llesiant sydd wedi'u hymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhwng dydd Llun, 28 Ionawr 2025 a dydd Iau, 13 Mawrth 2025, cynhaliwyd ymarfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar raddfa eang trwy gyfres o **34 o sesiynau galw heibio**, a'r nod oedd casglu barn y cyhoedd, rhanddeiliaid allweddol, a staff, ar y materion a'r heriau yr ydym yn eu hwynebu fel Gwasanaeth Tân ac Achub. Fe wnaethom gynnal nifer o ddigwyddiadau trwy leoliadau mewnol ac allanol i sicrhau ein bod yn crisialu pob ardal o'r cymunedau rydyn ni'n eu gwasanaethu ar draws canolbarth a gorllewin Cymru.

**Sesiynau Galw Heibio Abertawe**

| Dyddiad | Lleoliad |
|---|---|
| 28/01/2025 | Gorsaf Dân Pontardulais |
| 29/01/2025 | Canolfan Gymunedol Waunarlwydd |
| 29/01/2025 | Canolfan Gymunedol Treforys |
| 30/01/2025 | Llyfrgell Gorseinon |
| 30/01/2025 | Tŷ Fulton, Campws y Brifysgol, Singleton |
| 30/01/2025 | Gorsaf Dân Reynoldston |

**Sesiynau Galw Heibio Castell-nedd a Phort Talbot**

| | |
|---|---|
| 04/02/2025 | Canolfan Gymunedol Tai Bach |
| 04/02/2025 | Gorsaf Dân Port Talbot |
| 05/02/2025 | Neuadd y Dref Castell-nedd |
| 06/05/2025 | Gorsaf Dân y Cymer |
| 11/02/2025 | Canolfan Gymunedol Cimla |

**Sesiynau Galw Heibio Ceredigion**

| | |
|---|---|
| 11/02/2025 | Yr Hen Neuadd, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant (PCYDDS), |

| | |
|---|---|
| | Campws Llanbedr Pont Steffan |
| 12/02/2025 | Canolfan Hamdden Aberteifi |
| 12/02/2025 | Gorsaf Dân Llanbedr Pont Steffan |
| 13/02/2025 | Gorsaf Dân Aberaeron |
| 13/02/2025 | Gorsaf Dân Aberystwyth |

**Sesiynau Galw Heibio Powys**

| | |
|---|---|
| 18/02/2025 | Y Plas, Machynlleth |
| 19/02/2025 | Coleg Aberhonddu |
| 19/02/2025 | Gorsaf Dân Crucywel |
| 20/02/2025 | Neuadd Whitton, Tref-y-clawdd |
| 20/02/2025 | Gorsaf Dân Llanfair-ym-Muallt |
| 10/03/2025 | Gorsaf Dân y Trallwng |
| 10/03/2025 | Gorsaf Dân y Drenewydd |

**Sesiynau Galw Heibio Sir Gaerfyrddin**

| | |
|---|---|
| 24/02/2025 | Llyfrgell Rhydaman |
| 25/02/2025 | Gorsaf Dân Llanelli |
| 25/02/2025 | Neuadd Pontyberem |
| 26/02/2025 | Canolfan Hywel Dda, Hendy-gwyn ar Daf |
| 27/02/2025 | Llyfrgell Caerfyrddin |

| | |
|---|---|
| 27/02/2025 | Gorsaf Dân Llanymddyfri |

**Sesiynau Galw Heibio Sir Benfro**

| | |
|---|---|
| 11/03/2025 | Canolfan Hamdden Abergwaun |
| 11/03/2025 | Gorsaf Dân Aberdaugleddau |
| 12/03/2025 | Canolfan Hamdden Penfro |
| 12/03/2025 | Gorsaf Dân Hwlffordd |
| 13/03/2025 | Stiwdio 1, Neuadd y Frenhines, Arberth |

Datblygwyd llyfryn naratif ymgysylltu i roi trosolwg o'r gwasanaethau a ddarperir, yn ogystal â thynnu sylw at y materion a'r heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth, drwy ddefnyddio meysydd ystadegau digwyddiadau gan gynnwys Ymateb Meddygol, Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, Tanau Glaswellt, Llifogydd ac Achub o Ddŵr a Thanau Tai. Roedd y llyfryn hefyd yn canolbwyntio ar y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn cael ei gyllido.

Mae'r llyfryn ar gael drwy'r ddolen hon jr1892-crmp-pre-consultation-booklet-english-web.pdf

**Gohebiaeth e-bost a llythyrau.**

Rhannwyd gwybodaeth am yr ymgynghoriad hefyd gyda'r rhanddeiliaid allweddol canlynol, gan ddefnyddio system bostio electronig, gan ddefnyddio gwybodaeth gyswllt o gronfa ddata rhanddeiliaid y Gwasanaeth a oedd yn cynnwys dros 2,350 o:

- Aelodau'r Awdurdod Tân, Cynghorwyr Tref a Chymuned ac Aelodau o'r Senedd ac Aelodau Seneddol.
- Gwasanaethau Tân ac Achub cyfagos.
- Awdurdodau Lleol.
- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Fforymau Gwydnwch Lleol.
- Bwrdd Strategol Lleihau Tanau Bwriadol.
- Sefydliadau'r Sector Cyhoeddus.
- Gwirfoddolwyr gwasanaeth.
- Heddlu Dyfed Powys a Heddlu De Cymru.
- Cyrff Cynrychioliadol.

Cafodd yr ymgynghoriad ei hyrwyddo a'i drafod mewn nifer o gyfarfodydd mewnol ac allanol, gan gynnwys.

- Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.
- Cyfarfodydd Cyngor Tref a Chymuned.
- Y Pwyllgor Perfformiad, Archwilio a Chraffu.
- Y Pwyllgor Rheoli Adnoddau.


**Ymgyrch Cyfryngau Cymdeithasol**

Defnyddiodd y Gwasanaeth ei sianeli cyfryngau cymdeithasol (Facebook, Instagram, ac X (Twitter gynt)) i ehangu cyrhaeddiad negeseuon sy'n hyrwyddo'r sesiynau galw heibio. Ar hyn o bryd mae gan dudalen Facebook y Gwasanaeth 12,000 o bobl sy'n ei dilyn, tra bod 14,700 o bobl yn dilyn sianel Twitter y Gwasanaeth (X gynt), a 2,714 o bobl yn dilyn tudalen Instagram y Gwasanaeth.

Mae'r Gwasanaeth wedi defnyddio ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol Facebook, X (Twitter gynt), ac Instagram i hybu ymwybyddiaeth am yr ymgynghoriad. Trefnwyd bod postiadau'n ymddangos yn rheolaidd ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth rhwng dydd Mawrth, 28 Ionawr a dydd Iau, 13 Mawrth. Cafodd y postiadau eu 'hybu' hefyd trwy wasanaeth hysbysebu Facebook i gynyddu'r cyrhaeddiad.

Roedd pob postiad yn ddwyieithog gyda dolen i wefan y Gwasanaeth. Cafodd y postiadau eu cylchredeg ar dudalennau Facebook, Instagram, ac X (Twitter gynt) y Gwasanaeth, bob yn ail ddiwrnod, gan annog aelodau o'r cyhoedd i fynychu'r sesiynau galw heibio.

Llwyddodd y rhan fwyaf o'r postiadau cyfryngau cymdeithasol ynglŷn â'r ymgynghoriad i gyrraedd cynulleidfa darged eang, a nifer ohonynt yn cyrraedd dros 52,000 o randdeiliaid. Dangosodd ymchwil fod y negeseuon hyrwyddo ar dudalennau cyfryngau cymdeithasol y Gwasanaeth wedi arwain at bobl yn rhoi sylwadau, yn hoffi, yn aildrydar, yn rhannu ac, yn bwysicach fyth, yn clicio ar y dolenni i wefan y Gwasanaeth i weld yr wybodaeth.




**Hysbysebu digidol**

Yn ystod y broses ymgysylltu 6 wythnos, cyrchwyd gwasanaethau hysbysebu digidol o Wales Online, Local IQ, Route Media, Global Media and Entertainment. Helpodd y sefydliadau hyn i hyrwyddo'r broses ymgysylltu a sesiynau galw heibio cymunedol i annog cyrhaeddiad mor eang â phosibl gyda chymunedau lleol.

**Wales Online**

- Hysbysebwyd erthygl ar-lein yn hyrwyddo 'ail-lunio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.... gyda'n gilydd' ar eu gwefan ddydd Llun, 24 Ionawr 2025 a chafodd **2,680k o edrychiadau tudalen** a **2,510 o ddefnyddwyr erthygl.**
- Cafodd yr erthygl ar eu tudalen Facebook **16,148** argraffiadau a **1,245** o gliciau.
- Dangosodd Wales Online hysbysebion Taboola (hysbysebion arddangos digidol sydd wedi'u targedu at gynulleidfa benodol, sy'n ymddangos fel fersiynau bach o erthygl ac y gellir clicio arnynt i fynd drwodd i'r brif erthygl). Cafodd yr hysbysebion hyn gyfanswm o **298,641** o argraffiadau (Mae argraff yn fetrig a ddefnyddir i feintioli nifer yr edrychiadau digidol neu gysylltiadau ar gynnwys) a **1,722** o gliciau.
-

Partner Stories

## Reshaping Mid and West Wales Fire and Rescue Service together

Residents are being encouraged to attend drop in sessions to strengthen local services

ADVERTISING FEATURE FROM Mid & West Wales Fire & Rescue Service
By **Ginette Davies** Senior Commercial Writer 09:00, 24 JAN 2025

Bookmark



**There will be drop in sessions for the public to have their say** (Image: Mid & West Wales Fire & Rescue Service)

## Local IQ

- Hysbysebwyd hanner tudalen o erthygl brintiedig yn hyrwyddo ‘ail-lunio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru.... gyda'n gilydd' yn y South Wales Guardian ar 21 a 28 Ionawr, y Tivyside Advertiser ar 28 Ionawr a 4 Chwefror, y Powys County Times ar 4 ac 11 Chwefror, y South Wales Guardian ar 11 a 18 Chwefror a'r Western Telegraph ar 26 Chwefror a 4 Mawrth.
- Cyhoeddwyd erthygl ar-lein hefyd ac fe gafodd **109,785 o argraffiadau, 1,228 o gliciau wedi'u cyflwyno, 1.12% o Gyfradd Clicio Drwodd a 153 o Gyfanswm Amser Gweld** (Nifer yr oriau yr oedd yr hysbyseb ar y sgrin)

Western TELEGRAPH

News Sport Letters What's On Ar

News County News Local News Business

**Mid and West Wales Fire and Rescue Service (MAWWFRS) is excited to announce the launch of a series of community drop-in sessions aimed at gathering valuable input from residents and stakeholders, to assist in identifying any issues or challenges the Service may face in the delivery of the Community Risk Management Plan 2040 (CRMP 2040).**

The Community Risk Management Plan 2040 outlines our commitment to addressing the risks, threats, and challenges faced by our communities. As part of our ongoing efforts to ensure the safety and well-being of all residents, we are seeking the active participation of our community members in shaping this crucial plan.

### Engagement drop-in sessions 2025

| Date | Venue |
|---|---|
| Tuesday, 11 March 2025 | Fishguard Leisure Centre 10:00am – 13:00pm<br><br>Milford Haven Fire Station 14:00pm – 18:00pm |
| Wednesday, 12 March 2025 | Pembroke Leisure Centre 11:30am – 15:30pm<br><br>Haverfordwest Fire Station<br>17:00pm – 20:00pm |
| Thursday, 13 March 2025 | Studio 1, Queens Hall, Narberth 13:00pm – 17:00pm |

Drop-in session dates and locations are listed on our **website**.

These interactive sessions will provide a platform for open dialogue, allowing community members to share their insights, concerns, and suggestions. By working together, we aim to shape a modern-day Fire and Rescue Service that reflects the needs and priorities of our communities.

**Route Media** – Mae Route Media yn arbenigo mewn Arwyddion Digidol, gan helpu cleientiaid i ddefnyddio Arwyddion Digidol, LED ac AV i gyflawni a gwella strategaethau cyfathrebu, gwerthu a marchnata.

- Amcangyfrifir bod hysbyseb ddigidol yng Ngorsaf Fysiau Abertawe wedi cael effaith wythnosol o **1,019,153** a chafodd ei hyrwyddo am 4 wythnos.
- Amcangyfrifir bod hysbyseb ddigidol ddwyochrog yng nghanolfan siopa St Elli yn Llanelli wedi cael effaith wythnosol o **209,952**.
- Amcangyfrifwyd bod hysbyseb ddigidol ar ddalen D48 ar y brif lwybr i Lanelli o Borth Tywyn a Phwll wedi cael effaith o **84,882 o unigolion yr wythnos**.
- Roedd hysbyseb ddigidol yng Ngorsaf Drenau Abertawe, un o'r canolfannau trafnidiaeth prysuraf yn Ne Cymru, ac amcangyfrifwyd iddi gyrraedd **8,653 o unigolion** yr wythnos.




**Global Media and Entertainment (hysbysebu awyr agored wedi'i dargedu)**

- Cafodd hysbyseb ddigidol 'Ail-lunio Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru...gyda'n gilydd' ei hyrwyddo gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau hysbysebu ar draws ardal y Gwasanaeth, gan gynnwys, Hybiau Stryd, Paneli Mewnol ar Fysiau, 6 dalen yn syth y tu allan i siopau cyfleustra a leinars stryd.

**Sylw yn y Wasg a'r Cyfryngau.**

- Cylchredwyd llythyrau rhanddeiliaid i 329 o gysylltiadau.
- Cyflwynwyd datganiad i'r wasg i 574 o dderbynwyr ac fe'i hagorwyd gan 160 o dderbynwyr (26.67%)

**Raffl Fawr.**

Er mwyn annog rhanddeiliaid i gwblhau'r arolwg a chymryd rhan yn y broses ymgysylltu, cynhaliwyd cystadleuaeth raffl fawr, gan gynnig cyfle i randdeiliaid ennill £100.00 o docyn rhodd Amazon trwy gwblhau'r arolwg.

Roedd hwn yn ddull llwyddiannus o gynorthwyo'r Awdurdod i ymgysylltu ag aelodau o'r cyhoedd.

## Dulliau eraill o ymgysylltu

- Cafodd taflenni a phosteri yn cyhoeddi'r sesiynau galw heibio ymgysylltu â'r gymuned eu cylchredeg i siopau a busnesau lleol ar draws ardal canolbarth a gorllewin Cymru.
- Anfonwyd taflenni a phosteri i bob lleoliad cyn y digwyddiad i'w rhoi ar hysbysfyrddau, gan godi ymwybyddiaeth o'r digwyddiad i ddod.
- Anfonwyd taflenni a phosteri i Orsafoedd o fewn ardaloedd y digwyddiadau i'w rhoi ar hysbysfyrddau ac i sicrhau bod taflenni ar gael yn yr Orsaf.
- Cafodd 3 fideo CRhRC eu creu a'u cyhoeddi ar Wefan ein Gwasanaeth yn manylu ar y rheswm dros y broses. Maent i'w gweld yma Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040
- Cynhaliwyd dwy weminar gyda'r Dirprwy Brif Swyddog Tân (DBST) a roes gyflwyniad ar gynllun CRMP 2040 a'r broses ymgysylltu.
- Cynhaliwyd cyfarfodydd â'r Aelod Seneddol (AS), David Chadwick a'r Aelod o'r Senedd (AoS), James Evans.
- Cynhaliwyd cyfarfod ar-lein i Gynghorwyr Sir Powys gyda'r DBST.
- Cynhaliwyd cyfarfod personol â Chynghorwyr Tref a Chymuned Powys yng Nghrucywel.






# Arolwg Ymgysylltu

1. **Amdanoch chi – Sut fyddech chi'n disgrifio eich hun orau?**

- Aelod o staff gweithredol GTACGC – Amser Cyflawn
- Aelod o staff gweithredol GTACGC - Ar Alwad
- Aelod o staff gweithredol GTACGC - Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd
- Aelod o staff cymorth GTACGC
- Aelod o deulu aelod o staff GTACGC
- Aelod o'r cyhoedd
- Awdurdod Lleol
- Sefydliad Sector Cyhoeddus
- Aelod Etholedig
- Undeb Llafur / Corff Cynrychioliadol
- Busnes / Sector Masnachol
- Sefydliad Trydydd Sector / Gwirfoddol
- Grŵp cymunedol
- Arall (rhowch fanylion)

2. **Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwasanaethau a ddarperir gan GTACGC?**

- Cyfarwydd iawn
- Eithaf cyfarwydd
- Ddim yn gyfarwydd o gwbl

Defnyddiwch y blwch testun isod i esbonio ymhellach, os oes angen.

3. **Pa mor ymwybodol ydych chi o sut mae GTACGC yn cael ei ariannu?**

- Ymwybodol iawn
- Eithaf ymwybodol
- Ddim yn ymwybodol iawn
- Ddim yn ymwybodol o gwbl

Ydych chi'n gweld unrhyw heriau o ran y ffordd mae'r Gwasanaeth yn cael ei ariannu ar hyn o bryd?

**4. Beth yw prif gyfrifoldebau GTACGC, yn eich barn chi? (Gosodwch nhw yn nhrefn blaenoriaeth)**

- Atal tanau a hyrwyddo mentrau diogelwch y cyhoedd fel diogelwch yn y cartref, diogelwch ffyrdd a diogelwch dŵr.
- Ymateb i danau
- Ymateb i wrthdrawiadau ar y ffyrdd
- Ymateb i lifogydd
- Ymateb i achub anifeiliaid
- Cefnogi Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST) a mynd i ddigwyddiadau meddygol
- Sicrhau bod y rhai sy'n gyfrifol am adeiladau cyhoeddus a masnachol yn cydymffurfio â rheoliadau diogelwch tân (e.e. gwirio drysau tân, llwybrau dianc, systemau larwm tân ac asesiadau risg)
- Ymateb i Larymau Tân domestig (tai)

Esboniwch y rhesymau dros eich dewis. Oes unrhyw beth ar goll, yn eich barn chi?

---

**5. Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw hi i GTACGC ganolbwyntio ar y meysydd canlynol? (Gosodwch nhw yn nhrefn blaenoriaeth)**

- Mentrau atal (diogelwch cymunedol)
- Amseroedd ymateb
- Cefnogaeth i unigolion sy’n agored i niwed (e.e. pobl hŷn, anabl)
- Parodrwydd ar gyfer argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd (e.e. llifogydd, tanau gwyllt)
- Arolygiadau a gorfodi rheoliadau diogelwch tân. (Diogelwch busnesau)
- Mynd i'r afael â risgiau sy'n gysylltiedig â datblygiadau tai newydd a'r twf mewn datblygu trefol
- Cryfhau partneriaethau gydag asiantaethau allweddol
- Defnyddio technoleg newydd i wella tactegau diffodd tân a gweithrediadau achub

Esboniwch y rhesymau dros eich dewis. Oes unrhyw beth ar goll, yn eich barn chi?

---

**6. Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau sy'n wynebu GTACGC a sut ydych chi'n meddwl y dylem ymateb iddynt? (Gosodwch nhw yn nhrefn blaenoriaeth)**

- Amseroedd ymateb (yr amser y mae'n ei gymryd i gyrraedd digwyddiad)
- Recriwtio a chadw Diffoddwyr Tân Amser Cyflawn
- Recriwtio a chadw Diffoddwyr Tân Ar Alwad
- Adeiladau sy'n heneiddio (Gorsafoedd Tân)
- Diwylliant Sefydliadol
- Heriau ariannol – Cyllid a thoriadau cyllideb

- Risgiau amgylcheddol – Newid yn yr hinsawdd a'i risgiau cysylltiedig, fel llifogydd, tanau gwyllt a thywydd eithafol
- Risgiau yn sgil ehangu trefol a thai, gan gynnwys twf poblogaeth a datblygiadau tai newydd
- Lles ac iechyd meddwl staff
- Poblogaeth sy'n heneiddio, mwy o sefyllfaoedd lle maent yn agored i niwed
- Newidiadau technolegol

Esboniwch y rhesymau dros eich dewis. Oes unrhyw beth ar goll, yn eich barn chi?

______________________________________________

7. **Ydych chi'n teimlo bod unrhyw risgiau eraill sy'n datblygu y dylem fod yn eu hystyried?  Esboniwch ymhellach.**

______________________________________________

8. **Ydych chi'n teimlo bod unrhyw feysydd eraill y dylid eu hystyried er mwyn cynorthwyo â sefyllfaoedd lle mae cymunedau'n agored i niwed? Esboniwch ymhellach.**

______________________________________________

9. **Fyddech chi'n hoffi gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol neu rannu rhagor o wybodaeth gyda ni a fydd yn ein helpu i wella Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru?**

# Canfyddiadau'r Arolwg Ymgysylltu


Mae'r adroddiad hwn yn ceisio crynhoi'r ymatebion a'r cryfder teimlad yn gywir ac yn deg ar gyfer pob cwestiwn a ofynnwyd yn yr arolwg, i adlewyrchu'r ymateb i'r broses ymgysylltu'n llawn.

Ymatebodd **714** o randdeiliaid i gyd trwy gydol y broses ymgysylltu. Cafwyd 707 o ymatebion Saesneg a 7 o ymatebion Cymraeg. Fodd bynnag, nid oedd pob ymatebydd wedi ateb pob cwestiwn. Darperir dadansoddiad o'r ymatebion a gafwyd ar gyfer pob cwestiwn a ofynnwyd, ynghyd ag unrhyw adborth, yn adran nesaf yr adroddiad hwn.

Gellir gweld amlinelliad o'r ymatebion a gafwyd yn y tablau a'r graffiau isod.

| **C1: Amdanoch chi Sut fyddech chi'n disgrifio eich hun orau?** | **Nifer** |
|---|---:|
| Aelod o'r cyhoedd | 500 |
| Aelod o staff gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Ar Alwad | 32 |
| Aelod o staff gweithredol Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru – Amser Cyflawn | 28 |
| Aelod o deulu aelod o staff Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | 28 |
| Aelod Etholedig | 15 |
| Busnes / Sector Masnachol | 14 |
| Aelod o staff cymorth Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru | 12 |
| Grŵp cymunedol | 9 |
| Aelod o staff gweithredol GTACGC – Ar Alwad | 9 |
| Sefydliad Sector Cyhoeddus | 8 |
| Awdurdod Lleol | 8 |
| Aelod o staff gweithredol GTACGC – Amser Cyflawn | 5 |
| Aelod o staff cymorth GTACGC | 4 |
| Sefydliad Trydydd Sector / Gwirfoddol | 4 |
| Myfyriwr | 2 |
| Myfyriwr | 2 |
| Aelod o deulu aelod o staff GTACGC | 2 |
| Contract deuol | 2 |
| Aelod arall o'r GTA | 1 |
| Aelod Gweithredol wedi Ymddeol o CGC | 1 |
| Graddedig | 1 |
| Cynghorydd Sir Ceredigion Aberaeron ac Aberarth | 1 |
| Cadeirydd Cyngor Cymuned Llangatwg | 1 |
| Aelod o Staff Gweithredol GTACGC - Ystafell Rheoli Tân ar y Cyd | 1 |
| Swyddog yr Heddlu | 1 |

| | |
|---|---|
| Cyngor tref | 1 |
| Wedi ymddeol | 1 |
| Aelod o gymuned yr Eglwys Gadeiriol | 1 |
| Pennaeth Gwylfa Safle wedi ymddeol | 1 |
| Contract deuol | 1 |
| Preswylydd lleol | 1 |
| Opsiwn 9 | 1 |
| Aelod o Gyngor Cymuned | 1 |
| Cynghorydd tref | 1 |
| Gweithiwr cartref gofal | 1 |
| Ddim yn helpu gyda hyn ar hyn o bryd | 1 |
| **Cyfanswm** | **702** |



# C2: Pa mor gyfarwydd ydych chi â'r gwasanaethau a ddarperir gan Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru?




| Defnyddiwch y blwch testun isod i esbonio ymhellach eich ateb ar gyfer cwestiwn 2, os oes angen. *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr* |
|---|
| A minnau wedi cael fy nghyflogi yn y gwasanaeth ers blynyddoedd lawer ac wedi gweithio mewn gwahanol rannau o'r gwasanaeth, rwy'n gyfarwydd â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu. |
| Dim ond ers gweithio i GTACGC yr wyf yn ymwybodol o'r nifer helaeth o wasanaethau rydyn ni'n eu cynnig. Cyn dechrau yma, doeddwn i ddim yn ymwybodol iawn o'r nifer rydyn ni'n eu cynnig. |
| Fel aelod gweithredol o'r gwasanaeth rwy'n gwbl ymwybodol o'r gwasanaethau a ddarperir. |
| Gweithio mewn gwasanaeth tân arall |
| Y prif ymateb fyddai tanau a damweiniau car, ddim yn ymwybodol o achub anifeiliaid nac ymateb dŵr. |
| Rwy'n ymwybodol o rai o'r gwasanaethau |
| Diddordeb mewn digwyddiadau, yn enwedig argaeledd injans tân mewn cymunedau bach |
| Diffoddwr tân amser cyflawn wedi ymddeol |
| Mae fy nai yn ddiffoddwr tân rhan-amser ac roedd fy ngŵr yn un am 15 mlynedd |
| Daeth GTACGC allan i dân yn ein tŷ ni |
| Aelod o staff |
| Gŵr, dau fab a merch yn y gwasanaeth |
| Staff |

| |
|---|
| Rwy'n ymwybodol o'r drefn gyffredinol o ran sut mae'r gwasanaeth tân yn gweithredu gyda gorsafoedd amser llawn ac yn gwirfoddoli ar alwad mewn gorsafoedd mewn ardaloedd mwy gwledig/llai o faint. |
| Gallaf wneud tybiaethau rhesymol yn seiliedig ar yr enw |
| Mae'r gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu yn hanfodol i ardal mor wledig, llifogydd, damweiniau ffordd, tân ac achub. |
| Mae'n debyg nad wyf ond yn gyfarwydd â’r gwasanaethau craidd - ymateb i ddigwyddiadau, nid yr ystod lawn o wasanaethau. |
| Nid wyf wedi clywed am hyn o'r blaen |
| Rwy'n dod o'r Unol Daleithiau |
| Myfyriwr prifysgol heb fod o'r ardal |
| Rwy'n cymryd eu bod yn achub pobl mewn tanau |
| Darparu gwasanaeth tân ac achub ar gyfer gorllewin a chanolbarth Cymru |
| Myfyriwr dim syniad am y gwasanaeth |
| Maen nhw'n ymateb yn gyflym iawn, fe wnes i eu galw pan ganodd larwm tân yn yr ysgol. Cymerodd llai na 10 munud iddyn nhw. Asesu'r sefyllfa a'i datrys. |
| Ffrindiau yn y gwasanaeth |
| Heb archwilio’r peth |
| Ddim yn siŵr |
| Gorsaf dân leol ger lle rwy'n byw. |
| Gweddol gyfarwydd â'r gwasanaeth |
| Cyfarwyddwr Cyswllt seilwaith ym Mhrifysgol Abertawe |
| Rwy'n gwybod ers hynny am griwiau Tref-y-clawdd a Llanandras ac wedi gweld yn uniongyrchol sut maen nhw wedi delio â safleoedd (tân, damweiniau ffordd ac ati) gyda'i gilydd ac ar wahân ond hefyd gyda chriwiau o siroedd cyfagos. |
| Yn eu gweld nhw allan yn rheolaidd, yn adnabod llawer o aelodau o staff, chwibanu ochr yn ochr â nhw |
| Wedi eu gweld nhw ar waith ddwywaith. |
| A minnau’n ddiffoddwr tân ar alwad rwy'n ymwneud â darparu gwasanaethau o ddydd i ddydd |
| Rwy'n deall mai'r gwasanaeth tân yw ein prif wasanaeth brys rheng flaen mewn trefi bach gwledig. Darparu cymorth ym mhob sector yn ôl y gofyn. |
| Byw gyda chyflyrau iechyd sy'n gallu dirywio'n gyflym |
| Roedd fy nhad yn is-swyddog yng ngorsaf dân Tref-y-clawdd felly tyfais i fyny yn gwybod am y gwasanaeth, sut mae'r staff yn ymateb ac ati. Hefyd yn 2012 cefais dân yn y tŷ ac roedd angen y tîm arnaf. |
| Rydym mewn ardal sy'n dueddol o gael tanau mynydd |
| Rwy'n gwybod yr ystod eang o wasanaethau y mae GTACGC yn eu darparu a pha mor werthfawr yw'r holl wasanaethau hyn i ardal wledig. |

| |
|---|
| Rwy'n gwybod pa mor bwysig yw ein gorsaf yn Rhaeadr Gwy |
| Rwy’n ddiffoddwr tân |
| Rwy'n ymwybodol o'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu oherwydd diddordeb mewn ymuno â'r gwasanaeth gwirfoddol unwaith o'r blaen |
| Mae’r dyletswyddau'n cynnwys ymateb i argyfyngau fel tanau, gwrthdrawiadau ar y ffordd, a gweithrediadau achub, yn ogystal ag atal digwyddiadau trwy addysg gymunedol a mentrau diogelwch tân. Maent hefyd yn cynnal arolygiadau diogelwch tân, yn gorfodi rheoliadau, ac yn darparu gwasanaethau arbenigol fel achub o ddŵr, ymateb i ddeunyddiau peryglus, a chwilio ac achub trefol. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ystod o gerbydau diffodd tân, timau arbenigol, ac yn cynnig cymorth mewn argyfyngau pob dydd a digwyddiadau ar raddfa fawr. |
| Cawn wasanaeth da gan orsaf dân Rhaeadr Gwy |
| Rwy'n gyn-wirfoddolwr i wasanaeth brys ar wahân ar gyfer gwasanaeth brys gwahanol. Rwyf wedi gweithio ochr yn ochr ag aelodau o wasanaeth tân Canolbarth a Gorllewin Cymru a bu angen eu cymorth arnaf ar lefel bersonol. |
| Yn gyfarwydd â pha mor bwysig ydyn nhw, yn helpu gyda thanau mynydd, damweiniau car, anifeiliaid sownd, tanau mewn tai ac ati |
| Rhan Amser |
| Rwy'n wraig i ddiffoddwr tân rhan-amser sydd ar alwad 24/7. Byth yn colli noson hyfforddi. Wedi colli digwyddiadau teuluol oherwydd gofalu am yr orsaf. Fodd bynnag, mae'n rhan o wasanaeth sy'n cael ei barchu a'i gefnogi'n dda yn ein cymuned. |
| Mynd allan i argyfyngau yn yr ardal leol, fel tanau, damweiniau ar y ffordd, teithiau achub, achub o ddŵr a darparu gwasanaeth 24/7 i'r cyhoedd. |
| Rwyf wedi bod i sgwrs yn neuadd y pentref. Rwyf wedi cael ymweliad gan y frigâd dân i edrych ar larymau a diogelwch yn fy nghartref. Maen nhw wedi gwneud asesiad risg tân yn fy neuadd bentref yn Walton. Maen nhw wedi helpu gyda llifogydd yn fy heol i. |
| Mae fy ngŵr yn ddiffoddwr tân ar alwad |
| Mae aelod o'r teulu yn y gwasanaeth tân |
| Wedi eu defnyddio |
| Maent yn darparu cymorth lleol hanfodol ar gyfer y damweiniau car, tanau, llifogydd a digwyddiadau difrifol eraill niferus. |
| Mae'r gwasanaethau maen nhw'n eu darparu yn hanfodol yn ein cymuned gan ein bod mor wledig. O danau i gleifion cardiaidd i wrthdrawiadau ar y ffordd i Larymau Tân Cartref i achub anifeiliaid, mae eu gwasanaeth yn amhrisiadwy. |
| Fel cynghorydd cymuned, rwy'n ymwybodol bod GTACGC yn cael ei ariannu drwy braesept i'r dreth gyngor a gesglir gan Gyngor Sir Powys.  Rwyf hefyd yn ymwybodol o'r gwasanaethau a ddarperir gan yr orsaf yn ôl galw yng Nghrucywel a gorsafoedd amser cyflawn yng Nglyn Ebwy, y Fenni ac Aberhonddu, yn enwedig mewn perthynas â thân, gan gynnwys tanau rhostir, llifogydd a gwrthdrawiadau ar y ffordd |

| |
|---|
| Tanau, achub, gwrthdrawiadau ar y ffordd, llifogydd, argyfyngau meddygol/cyd-ymateb, gwaith cymunedol/ymweliadau ag ysgolion, archwiliadau diogelwch tân yn y cartref ac ati |
| Byw yn agos iawn ac wedi elwa ar eu gwasanaethau. |
| Rwy'n oedolyn sydd wedi byw yn Llanandras 70 mlynedd ac rwy'n ymwybodol o'r gwaith a wneir gan Orsaf Dân Llanandras. |
| Rwy'n gweithio'n rheolaidd gyda rhannau o'ch sefydliad. |
| Rydym yn byw mewn cymuned glos ac yn gwerthfawrogi'r gwasanaeth tân, ymatebwyr cyntaf a phopeth arall maen nhw'n ei ddarparu i'r dref. |
| Yn gweithio i Heddlu Dyfed-Powys |
| Ddim yn siŵr fy mod i'n gwybod llawer am wasanaeth tân gorllewin Cymru |
| Mae'r diffoddwyr tân yn gwneud teithiau rheolaidd i'n stryd gan ein bod yn agos at yr afon ac mewn perygl o lifogydd |
| Atal tân ac ymateb i argyfyngau |
| Rwyf wedi eu defnyddio |
| Rwyf yn ymwybodol o'r gwaith ardderchog a wnaed gan gangen Rhaeadr Gwy sydd wedi'i hanfon allan i lawer iawn o ddigwyddiadau yn yr ardal. Rwy'n gwybod am achlysuron di-ri pan mae eu gwasanaeth wedi achub bywydau unigolion ac yn hanfodol i'r gymuned hefyd. |
| Yn gyfarwydd iawn â chael teulu o fewn y gwasanaeth a bu angen y gwasanaeth arnaf yn y gorffennol. |
| Byw yn agos i'r orsaf dân a gweithio i'r gwasanaeth ambiwlans |
| Ffrindiau gyda diffoddwyr tân ar alwad lleol |
| Mwy ymwybodol o'r gwirfoddolwyr sy'n helpu pan fyddant yn cael eu galw allan. |
| Rwy'n ymwybodol o'r hyn y mae brigadau tân yn ei wneud ac yn cymryd bod gwasanaeth y Canolbarth a'r Gorllewin yn cyflawni'r un dyletswyddau. |
| Rwy'n tybio pe bai gen i dân neu bryder y gallwn ffonio a byddai rhywun yn dod cyn gynted â phosibl. Rwy'n credu bod y gwasanaeth yn wirfoddol. |
| Maen nhw wedi cyflenwi larymau mwg a'u gosod i mi. |
| Mae aelodau ein gorsaf wirfoddol leol yn aelodau gwerthfawr o'r gymuned, ac rydym yn ymwybodol y byddem i gyd yn llai diogel hebddyn nhw |
| Rwy'n ddiffoddwr tân i Swydd Amwythig. |
| Rwy'n deall eu rôl a'u pwrpas i'n cymunedau lleol |
| Mae gan Dref-y-clawdd wasanaeth ymateb dŵr |
| Mae fy mab yn ddiffoddwr tân rhan-amser |
| Rwyf wedi bod ar alwad ar orsaf 08 ers 30 mlynedd. Wedi bod allan i bob math o ddigwyddiadau. Pe bai'r orsaf yma ar ffurf wahanol fel yr ydych yn ei gynnig byddai wedi bod canlyniad gwahanol iawn i ddigwyddiadau. Gallwn gynnwys bywydau yn hyn. Nid yw amser teithio i ddigwyddiadau fel y mae'n ymddangos ar fap, mae'n llawer hirach oherwydd topograffeg. Rydym wedi cael llawer o swyddogion sydd |

| |
|---|
| wedi teithio i ddigwyddiad o unedau meistroli eraill o fewn y frigâd sydd wedi gwneud sylwadau ar hyn. |
| Mae llawer o fy Ffrindiau yn y gwasanaeth tân |
| Mae Tref-y-clawdd yn dref fach, rydym i gyd yn adnabod o leiaf un diffoddwr tân rhan-amser |
| Swyddog ar Ddyletswydd ym Mrigâd Dân Llundain wedi ymddeol wedi 35 mlynedd o wasanaeth |
| Diffodd tanau. Rhoi cyngor ar ddiogelwch |
| Rwy'n ymwybodol eu bod yn delio â thanau, gwrthdrawiad ar y ffordd, cefnogi gwasanaethau brys eraill, ymateb i larymau |
| Rwy’n ddiffoddwr tân rhan-amser |
| Maen nhw'n cynnig mwy o wasanaethau, nid dim ond tân |
| Yn ymwybodol o'u rôl wrth ddiffodd tanau, mynd allan i ddamweiniau ffordd, achub o lifddyfroedd |
| Rwyf wedi cael achos i alw'r frigâd dân allan unwaith, roedden nhw'n brydlon, yn effeithlon ac yn gwrtais |
| Rydym wedi cael dau dân ar ein fferm yn y gorffennol ac wedi defnyddio'r gwasanaeth synhwyrydd a'r gwasanaeth cynghori ar gyfer ein cartrefi a'n busnes. Daeth y gwasanaeth tân allan i ddamwain ffordd yr oeddwn yn rhan ohoni. Helpodd y Gwasanaeth Tân ni gyda mater lles anifeiliaid. Hefyd, bu angen cymorth y gwasanaeth tân ar fy modryb oedrannus nifer o weithiau yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. |
| Os oes tân, maen nhw'n dod allan. Os oes damwain ffordd, maen nhw'n dod allan. Os oes argyfwng meddygol, maen nhw'n dod allan y dyddiau hyn hefyd |
| Rwy'n wraig i ddiffoddwr tân sydd wedi ymddeol a wasanaethodd yng ngwasanaeth tân Llanandras am 20 mlynedd. |
| Rwy'n gwybod bod ganddyn nhw nifer o ddyletswyddau a chyfrifoldebau i'r gymuned |
| Maent yn gwbl allweddol ar gyfer pob argyfwng, tanau, gwrthdrawiadau ar y ffordd, llifogydd, ymatebwyr cyntaf, pob sefyllfa beryglus ... WERTH Y BYD A HANFODOL |
| Rwy'n gwybod am y pethau amlwg - diffodd tanau, achub o lifogydd a phwmpio, ac achub o gerbydau, a hefyd archwiliadau diogelwch tân, ond mae'n debyg bod pethau eraill nad wyf yn gwybod amdanynt. |
| Wedi ymddeol o’r gwasanaeth tân |
| Adnabod llawer o'r diffoddwyr tân, ac maen nhw wedi helpu'r teulu yn bersonol. |
| Rwy'n deall pa alwadau y gwnaethom ymateb iddynt fel gwasanaeth yn fy ardal leol a'r ardal gyfagos yn ogystal â'r math o ddigwyddiadau y gallwn hefyd ddod ar eu traws yn sefyllfaol |
| Rhywfaint o wybodaeth |
| Cyn-ddiffoddwr tân rhan-amser wedi ymddeol |

| |
|---|
| Diffoddwr tân amser llawn wedi ymddeol o Dde Cymru a wnaeth ymddeol i fyw yn Rhaeadr Gwy |
| Ddim yn glir ar agwedd y gwasanaethau achub, bob amser yn meddwl amdano fel y frigâd dân |
| Rwy'n ferch i reolwr gwylfa ac wedi bod trwy gydol fy mywyd |
| Diffoddwr tân amser llawn wedi ymddeol |
| Rwyf wedi gwasanaethu bron i 10 mlynedd yn gweithio mewn nifer o orsafoedd ac yn DTC |
| Gweithio o fewn y gwasanaeth |
| Wedi gorfod defnyddio'r gwasanaeth pan gefais dân yn fy llofft |
| Mae gen i ddealltwriaeth o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud a'i nodau ar gyfer y dyfodol. Mae bod ar alwad ac amser cyflawn wedi rhoi persbectif ehangach i mi ar yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ceisio ei gyflawni, ar ôl gweithio mewn adrannau eraill ar draws y gwasanaeth rwy'n deall bod nifer o adrannau i gyd yn gwneud pethau gwahanol wrth geisio cyflawni'r un nod. |
| Nawr bod ambiwlansys yn ciwio y tu allan i ysbytai, mae parafeddygon y Gwasanaeth Tân yn achubwyr bywyd GO IAWN - ar wahân i'w gwaith pob dydd |
| Gweithio o fewn y gwasanaethau |
| Mae gennym siop yng nghanol y dref. |
| Archwiliadau diogel ac iach, addysg, ieuenctid, digwyddiadau |
| Rwyf newydd ddechrau |
| Rwy'n adnabod staff y gorffennol a'r presennol |
| Rydw i wedi gweithio yma ers 16 mlynedd |
| Gwybod y rhan fwyaf o bethau y mae ein gwasanaeth tân yn eu darparu |
| Diffoddwr tân amser cyflawn |
| Atal, amddiffyn, ymateb |
| Mae gen i ffrindiau sy'n ymwneud â gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. |
| Efallai y byddai ein tŷ wedi llosgi’n ulw pe bai ein gwasanaeth tân lleol wedi cael ei gau a bu'n rhaid i ni aros am y gwasanaeth o Landrindod neu hyd yn oed ymhellach i ffwrdd |
| Rwy’n gweithio fel diffoddwr tân |
| Rwy'n barafeddyg sy'n gweithio yng Ngorsaf Tref-y-clawdd ac mae'r gwasanaeth tân yn Nhref-y-clawdd yn gaffaeliad i'r cyhoedd |
| Mae pawb yn adnabod y gwasanaeth tân |
| Fel diffoddwr tân wedi ymddeol, rwy'n tybio bod yr egwyddorion a'r nodau yr un fath ar gyfer pob gwasanaeth tân ac achub yng Nghymru |
| Ddim yn gwybod mewn gwirionedd |
| Mae nifer o ddiffoddwyr tân rhan-amser yn fy ngweithle |

| |
|---|
| Mae gennym ymatebwr cyntaf gwerthfawr iawn yng ngorsaf dân Llanwrtyd. |
| Cymuned fach iawn lle mae’r gwasanaeth yn weladwy iawn ac yn rhagweithiol. |
| Profiad personol o'r gwasanaethau a ddarperir gan orsaf dân Llanwrtyd, gan gynnwys darpariaeth ymatebwyr cyntaf. |
| Roeddwn i'n arfer bod yn ddiffoddwr tân ar alwad yn Llanwrtyd |
| Partner i rywun yn y gwasanaeth |
| Mae ffrindiau a theulu naill ai'n gwasanaethu neu'n gyn-ddiffoddwyr tân |
| Tân, llifogydd a chymorth meddygol |
| Rwyf wedi eu ffonio ac wedi eu gweld yn cael eu galw allan i lawer o bethau dros y blynyddoedd. |
| Wedi fy ngeni a'm magu yng nghanolbarth Cymru |
| Yn ymwybodol o'r gwaith gwych maen nhw'n ei wneud i gadw ein cymuned yn ddiogel. |
| Maent yn rhan annatod o'r gymuned leol, felly rydyn ni'n eu gweld o gwmpas yn rheolaidd mewn llawer o ddigwyddiadau a galwadau allan. |
| Rwy'n ymwybodol o'r gwasanaeth tân yn ymateb i danau a damweiniau am fy mod yn eu gweld a'u clywed, ond rwy'n awr yn ymwybodol o sut mae'r gwasanaeth yn yr ardal yn gweithredu. |
| Profiad blaenorol |
| Rwy'n deall yr amrywiaeth o alwadau allan a geir gan ein gorsaf leol, bod ei hamser ymateb yn benigamp, a bod parch mawr iddynt i gyd yn ein cymuned leol |
| Achubodd gwasanaeth tân Llanwrtyd ein tŷ rhag llosgi ar ôl tân mewn simnai. Maen nhw'n cael eu galw'n rheolaidd i ddiffodd tanau ym Mynyddoedd Cambria yn ein hardal ni |
| Mae ganddyn nhw orsaf yn fy nhref; rwy’n eu gweld wrth eu gwaith yn rheolaidd. Maen nhw'n helpu gyda llifogydd a diffodd tanau coedwigoedd yn rheolaidd. Heb sôn am argyfyngau eraill sy'n digwydd yn ein hardal leol. |
| Diffoddwyr tân, ymatebwyr cyntaf, |
| Rwy'n gweithio i'r gwasanaeth |
| Rwy'n warden ac yn aelod o Grŵp Llifogydd Tref-y-clawdd, felly rwy'n gyfarwydd â'r gwasanaethau sy'n ymwneud â'r ardal hon. Yn ddiweddar, bu’r Grŵp Llifogydd yn cefnogi Gorsaf Tref-y-clawdd i gyrraedd Statws Rhydio. |
| Cefais gymorth gan orsaf Llanwrtyd pan oedd fy maban newydd-anedig yn sâl. |
| Rwy'n deall y gwasanaethau a ddarperir a'r heriau sy’n eu hwynebu |
| Rwy'n Rheolwr Criw yn fy ngorsaf ar alwad leol ac yn ymwybodol o Weledigaeth GTACGC |
| Ni fu angen y gwasanaethau arna i’n bersonol, hyd yn hyn. |
| Dim ond wedi defnyddio'r gwasanaeth tân ar gyfer archwilio diogelwch yn y gorffennol. Rwy'n disgwyl archwiliad arall |
| Bechgyn lleol i gyd sy'n rhan o'r gymuned |

| |
|---|
| Ymateb i amrywiaeth helaeth o argyfyngau gan gynnwys cefnogi'r gwasanaeth ambiwlans sy'n cael trafferth. Bod gorsafoedd yn lle diogel i bobl agored i niwed ddod o hyd i help, bod gorsafoedd yn ganolfan ar gyfer gweithgareddau cymunedol a chodi arian ac yn gyffredinol yn cefnogi eu cymuned. Mae'r gorsafoedd lleol yn llawer mwy na gwasanaeth tân yn unig. |
| Mae'r gwasanaeth y mae'r diffoddwyr tân hyn yn ei ddarparu yn eu cymunedau a'r ardaloedd cyfagos yn amhrisiadwy |
| Ar waelod Stryd y Bont, pan fydd yr afon yn gorlifo, mae'r gwasanaeth tân yn pwmpio dŵr o'r draeniau a'r cwlfert i'r afon. |
| Maent wedi helpu fy nheulu sawl gwaith. |
| Wedi cael cyflwyniad yn un o'ch cyfarfodydd ymgysylltu yn ein canolfan gymunedol. |
| Gwybodaeth am wasanaethau tân traddodiadol e.e. diffodd tanau, llai ymwybodol o waith cymunedol ac ati |
| Rwy'n gwybod fy rôl a'r hyn rwy'n ei wneud o fewn y sefydliad |
| Dim angen esboniad |
| Roedd fy ngŵr yn ddiffoddwr tân am 10 mlynedd |
| Cefais fy magu gyda gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, roedd fy nhad yn ddiffoddwr tân am dros 25 mlynedd a nawr mae fy mab yn ddiffoddwr tân, ac wedi bod ers 10 mlynedd. |
| Maent yn mynd allan i wrthdrawiadau ar y ffordd, tanau, damweiniau a digwyddiadau |
| Rwy'n adnabod nifer o'r diffoddwyr tân rhan-amser yn fy ardal yn dda |
| Ar hyn o bryd, rwy'n gwybod bod cymorth ar gael yn Llangatwg o Orsaf Crucywel. Pe bai'r cyfleuster yn cael ei leihau'n sylweddol, mae'n debyg y bydd cymorth o'r cymoedd neu'r Fenni yn cyrraedd yn rhy hwyr i wneud unrhyw wahaniaeth i'r canlyniad |
| Rwyf ychydig yn gyfarwydd. Ddim yn siŵr beth rydych chi am i mi ei esbonio yma |
| Rwy'n deall eu bod yn ymateb i danau lleol, damweiniau ffordd a'u bod yn gweithredu fel ymatebwyr cyntaf gyda digwyddiadau meddygol sy'n hanfodol gan fod ambiwlansys yn cymryd oriau+++ i gyrraedd ein hardaloedd |
| Gwnes i ystyried ymuno o ddifrif |
| Nid yn unig Tân ond parafeddygon, safleoedd damweiniau, rheoli risg cymunedol o gartrefi i fusnesau |
| Ddim yn siŵr pa wasanaethau eraill maen nhw'n eu darparu heblaw tân ac achub |
| Rwy'n gwybod beth rydych chi'n ei wneud, pam rydych chi'n ei wneud ac o ble rydych chi'n ei wneud. Dydw i ddim yn berson tân hyfforddedig, felly dydw i ddim yn gwybod yn benodol sut rydych chi'n ei wneud. |
| Rwy'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud yn gyffredinol |
| Rwy'n deall ac yn hoffi eu gwaith |

| |
|---|
| Rwy'n ymwybodol o'u gwaith caled yn ystod llifogydd diweddar ac nid mor ddiweddar. |
| Rwy'n eu gweld yn mynd allan ar alwadau |
| Yn ymwybodol o'r holl waith caled y mae'r orsaf diffoddwyr tân yn ei wneud i'r gymuned ar adegau o angen |
| Wedi defnyddio gwasanaethau atal GTACGC |
| Ddim yn gyfarwydd ag unrhyw wasanaethau ac eithrio diffodd tân. |
| Maen nhw'n cael eu galw allan ar gyfer llifogydd rheolaidd ac argyfyngau eraill |
| Rwy'n adnabod rhai pobl sy'n gweithio i'r gwasanaethau tân |
| Maen nhw'n ddiffoddwyr tân rhan-amser sy'n gwasanaethu ein cymuned leol yn ddiflino |
| heb gael fy nysgu amdanynt |
| Wedi gweithio i'r gwasanaeth am nifer o flynyddoedd |
| Yn gyfarwydd ag achub o dân a damweiniau car |
| Rwy'n ofni’r gwasanaethau y mae Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn eu darparu i'r gymuned |
| Mae'r gwasanaeth tân yn gosod larymau mwg newydd, blancedi trydan, yn rhoi cyngor ac ati. |
| Rwy'n gefnogol iawn i'm gorsaf leol |
| Mae Gwasanaeth Tân CGC yn gwasanaethu aelodau o'r cyhoedd trwy ymateb i argyfyngau gan gynnwys tanau a gwrthdrawiadau ar y ffordd. Mae yna hefyd fentrau ataliol fel ymgysylltu ag ieuenctid a’r gymuned. |
| Rwy'n byw yng Nghrymych nid nepell o'r orsaf dân leol. Yn ddiweddar fe ddaethon nhw allan i ddamwain a helpu i achub bywyd fy nai |
| Maen nhw'n helpu i ddiffodd tanau, achub, hefyd ymatebwyr cyntaf |
| Wedi gweld y gwaith maen nhw'n ei wneud pan fyddant ar alwad |
| Gwasanaeth gwych gyda ni yma yng Nghrymych a'r ardal leol yn achub llawer o fywydau, o'r injan dân a'r uned ymateb cyntaf yng Nghrymych |
| Rydym yn cydweithio'n rheolaidd â'r criwiau lleol ar gyfer ymarferion ymgyfarwyddo a hyfforddi yn ein hadeilad unigryw a chymhleth |
| Mae ein gwasanaeth tân ac achub lleol yn weithgar iawn yn ein hardal leol |
| Dw i ddim ond yn gwybod eu bod nhw'n diffodd tanau, neu’n achub anifeiliaid sy'n sownd |
| Rwy'n ymwybodol o'r gwaith gwych ac anodd maen nhw'n ei wneud ac yn gobeithio y byddant yn parhau am flynyddoedd lawer. |
| Adnabod pobl a gwasanaethau y mae'r gwasanaeth yn eu cynnig |
| Rwy'n cael cysylltiad rheolaidd â'r gwasanaeth tân yn Aberaeron |
| Cyn-filwr felly mae gennyf wybodaeth sylfaenol ond nid am y gwasanaethau yn yr ardal hon |

| |
|---|
| Y gwasanaeth tân ac achub a'r gwasanaeth ymatebwyr cyntaf |
| Busnes lleol hirsefydlog, aelodau o'r teulu a staff blaenorol wedi gwasanaethu yn y frigâd yn lleol |
| Gwybodaeth wedi'i darparu ar y wefan ac mewn cyflwyniadau |
| Rwy'n gwybod bod fy ngorsaf dân leol sef Crucywel yn darparu gwasanaeth lleol anhygoel i'm hardal ac rwy'n ddiolchgar iawn i gael y gwasanaeth presennol hwn ar gael i mi a fy nheulu. |
| Wel, rwy'n gwybod eu bod yn ymateb i argyfyngau a hefyd yn gwneud cryn dipyn o addysg yn ogystal â dod allan i gartrefi pobl i wneud asesiadau risg tân a dosbarthu larymau mwg a larymau co2 |
| Mae ffrind yn aelod o'r gwasanaeth tân |
| Mae ffrind agos yn aelod o'r gwasanaeth tân |
| Diffoddwyr Tân, Ymatebwyr Cyntaf, mynd allan i Ddamweiniau Ffordd |
| Maen nhw'n rhan o'r gymuned lle rydyn ni'n byw. Fe ddaethon nhw a gosod larymau mwg, ac rydym wedi bod draw i olchi'r ceir yn ystod eu digwyddiadau codi arian. |
| Fel gweithiwr amser cyflawn, rwy'n treulio amser i edrych ar yr hyn rydyn ni fel gwasanaeth yn ei ddarparu |
| Rwy'n byw gerllaw ac yn gweld y galwadau allan a'r holl hyfforddiant maen nhw'n ei wneud. |
| Maent wedi mynd allan i danau lleol, gwrthdrawiad ar y ffordd ac fel argyfwng ymateb cyntaf |
| Rwy'n ymwybodol o'r rôl hanfodol y mae Gorsaf Dân Llanandras yn ei chwarae yn ein cymuned. Dim diffodd tân yn unig, ond mynd allan i ddamweiniau ffordd, darparu cymorth mewn llifogydd a gweithredu fel ymatebwyr cyntaf hanfodol. Mewn cymuned wledig, maen nhw'n hanfodol, ac maen nhw wedi achub llawer o fywydau. Maent hefyd yn darparu cyngor ac arweiniad atal tân i aelwydydd. |
| Yn hynny o beth, rwy'n gwybod y gwasanaeth gwych maen nhw'n ei ddarparu yn lleol, sef Tân a Meddygol. |
| Yn berchen ar fusnes yng Nghrucywel ac yn adnabod nifer o'r diffoddwyr tân sy'n rhoi eu hamser gwerthfawr i amddiffyn y dref a'r ardal gyfagos |
| Rwy'n ymwybodol bod y tîm yn barod i ymgymryd ag unrhyw her sy'n ei wynebu. Yn barod i ymgymryd ag unrhyw hyfforddiant sy'n ofynnol ganddynt a bob amser yn mynd y tu hwnt i'r hyn a ofynnir ohonynt. Tîm cryf. |
| Rwy'n byw ger gorsaf dân ac yn ymwybodol o rai o'r problemau |
| Rwy'n byw yn yr ardal hon ers 45 mlynedd, ac mae'r Gwasanaeth Tân yng Nghrymych wedi helpu cymaint o bobl dros y blynyddoedd. Rydym yn ardal ynysig, ac mae angen y gwasanaeth hwn arnom yn agos at ein cartrefi. |
| Mae'r orsaf ddwy filltir i ffwrdd ac rwy'n adnabod cryn dipyn o bobl sy'n gweithio yno |

| |
|---|
| Aelod o'r cyhoedd sy'n rhagweld ac yn gwerthfawrogi gwasanaeth prydlon yn achos argyfwng (prin gobeithio). |
| Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn hanfodol ar gyfer diffodd tanau, mynd allan i ddamweiniau ac ymateb i argyfyngau meddygol yn enwedig nawr gan fod y GIG yn y fath drafferthion |
| Rwy'n gwybod bod yna ganolfan yn Llanandras, ac mae ganddi broffil uchel mewn digwyddiadau cymunedol. |
| Rwy'n adnabod y diffoddwyr tân lleol |
| Mae'r gwasanaeth tân yng Nghrucywel yn bresenoldeb gweladwy yn y dref ac yn amhrisiadwy mewn cyfnod o lifogydd ac argyfyngau eraill yn ogystal â digwyddiadau cymunedol a hybu ymwybyddiaeth |
| Wedi gweld ymdrechion y gwasanaeth tân adeg llifogydd |
| Mynd allan i danau a’u diffodd, damweiniau ffordd, llifogydd ac ati. |
| Heb orfod defnyddio ei wasanaethau erioed |
| Rwy'n byw mewn ardal wledig ac yn cydnabod pwysigrwydd cael gorsaf dân yng Nghrucywel |
| Gorsaf gerllaw |
| Adnodd rhyngrwyd |
| Maen nhw'n gwneud llawer mwy nag ydw i'n ei wybod |
| Fe ddaethon nhw ac achub fy mrawd ar ôl damwain ddifrifol. Hebddyn nhw efallai y byddai wedi colli defnydd o’i goes. Maen nhw'n darparu ein hymatebwyr cyntaf sy'n hanfodol gan ein bod yn byw gryn dipyn i ffwrdd o’r ysbyty ac mae'r ambiwlans yn aml yn hir iawn cyn cyrraedd |
| Rwy'n helpu i gydlynu'r wardeiniaid llifogydd gwirfoddol lleol, felly mae gen i rywfaint o wybodaeth. |
| Ymwneud llawer â materion lleol. |
| Rydym yn byw mewn Lôn anghysbell ac fe gawsom dân simnai gwael. Heb yr injans tân a ddaeth o Grucywel does gen i ddim amheuaeth y byddai'r tŷ wedi llosgi’n ulw |
| Wedi gorfod defnyddio eu gwasanaethau ar gyfer tanau mynydd a thanau tai |
| Maent yn ddiffoddwyr tân, ymatebwyr cyntaf, addysgwyr yn y gymuned leol yn ogystal â chefnogi llawer o sefydliadau lleol yn ein cymuned. |
| Deall atal tân a'r hyn y mae ein gorsaf leol yn ei wneud. |
| Dyma fy ngorsaf dân leol |
| Rydym wedi cael y gwasanaeth tân yn dod allan am danau mynydd, ond yn gwybod eu bod yn helpu gyda llawer o faterion eraill ond ni allwn ddweud fy mod i'n ymwybodol ohonynt i gyd |
| Rwy'n gwybod pa mor bwysig yw'r gwasanaethau ar gyfer tân, llifogydd a damweiniau |
| Wedi gweithio o fewn mapio a datblygu systemau yn ystod fy ngyrfa |

| |
|---|
| Yn gyfarwydd iawn â rhai gwasanaethau ond heb lawer o wybodaeth fanwl |
| Wedi cael cymorth ganddynt yn y gorffennol |
| Yn eu dilyn ar y cyfryngau cymdeithasol |
| Diffoddwr tân amser cyflawn |
| Rwy'n ymweld â'r gorsafoedd tua phob 12mis ar gyfer hyfforddiant |
| Diffodd tanau |
| Cefndir yn y GIG |
| Gwasanaeth tân yn fy ardal i |
| Rwy'n gwybod eu bod yn helpu llawer o bobl |
| Aelod o'r gwasanaeth am 20 mlynedd |
| Galwadau tân, Archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref, Addysg Ysgol |
| Rwy'n ddiffoddwr tân ar alwad ar gyfer GTACGC |
| Yn fy rôl fel rheolwr gorsaf, mae'n rhaid i mi fod â lefel dda o wybodaeth am weithrediad y gwasanaeth. |
| Defnyddiol iawn trwy brofiad blaenorol |
| Gwybod am y gwasanaeth tân a'r gwaith gwych - yn lleol mae ein gwasanaeth yn wirfoddol |
| Dyna pam rydw i yma i ddarganfod mwy |
| Rwyf wedi cael larymau mwg wedi'u gosod gennych chi |
| Ni fu angen erioed imi gysylltu â'r GTA |
| Cyn-aelod o Gyngor Tref Crucywel |
| Roeddwn i'n ddiffoddwr tân yn Llanandras o 1982 i 1992 |
| Roedd fy ngŵr yn ddiffoddwr tân rhwng 1982 a 1992 felly rwy'n gyfarwydd â'r gwasanaethau ar y pryd. |
| Fe ddaethon nhw ac achub ein tŷ rhag llosgi. |
| Daethant i'n tŷ a'i achub rhag llosgi. |
| Yn gyfarwydd iawn â gorsaf dân Crucywel a'r rôl y mae'n ei chwarae yn lleol |
| Mae'r gwasanaeth tân yn darparu ystod o wasanaethau i'w gymuned leol gan gynnwys tân, llifogydd a damweiniau ffordd ac achub anifeiliaid. Maent hefyd yn ymweld ag ysgolion, a grwpiau cymunedol i ddarparu addysg ar atal tân. Maent yn rhan annatod o'n cymuned ac yn ein cadw'n ddiogel. |
| Heb gael rheswm i'w ddefnyddio |
| Rwy'n un o'r cyflogeion |
| Cyflogai |

Yn seiliedig ar y **267 o ymatebion** a gafwyd, nodwyd chwe thema gyffredin ynglŷn ag ymwybyddiaeth a chanfyddiadau cyffredinol am GTACGC:

1. **Ymwybyddiaeth gyffredinol o'r Gwasanaeth a ddarperir:** Roedd gan lawer o ymatebwyr ymwybyddiaeth a gwybodaeth gyffredinol o'r gwasanaethau craidd a ddarperir gan GTACGC, sef yn bennaf diffodd tanau ac ymateb i Wrthdrawiadau ar y Ffordd. Fodd bynnag, cafwyd thema dro ar ôl tro o brinder ymwybyddiaeth mewn perthynas â'r ystod lawn o wasanaethau a gynigir, megis achub anifeiliaid, achub o ddŵr ac addysg diogelwch cymunedol.
2. **Cysylltiad ac Ymddiriedaeth yn y Gymuned:** Roedd teimlad cryf o gysylltiad cymunedol â'r Gwasanaeth Tân, gyda llawer o'r ymatebwyr yn nodi bod ganddynt gysylltiadau personol â diffoddwyr tân (aelodau o'r teulu neu ffrindiau). Ystyrir bod y Gwasanaeth yn hanfodol i gymunedau lleol, gan grybwyll yn aml ei fod yn achub bywydau mewn sefyllfaoedd critigol.
3. **Diogelwch Gwledig ac Ymateb i Argyfyngau:** Mae'r sylwadau'n amlygu rôl hanfodol GTACGC mewn ardaloedd gwledig lle gall mynediad fod yn heriol. Mae'r ymateb cyflym i argyfyngau, gan gynnwys llifogydd a thanau glaswellt, yn cael ei nodi'n aml, gan bwysleisio pwysigrwydd gwasanaeth tân lleol wrth wella diogelwch cymunedol.
4. **Ymgysylltu ac Addysg yn y Gymuned:** Mae llawer o'r ymatebwyr yn cydnabod ymdrechion y Gwasanaeth mewn ymgysylltu â'r gymuned, megis Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref, rhaglenni addysgol, a chyfranogiad mewn digwyddiadau lleol. Mae'n debyg bod yr agwedd hon ar eu gwaith yn cael ei gwerthfawrogi ond heb ei deall yn llwyr, gyda llawer yn cydnabod nad oeddent yn ymwybodol o lwyr ehangder y gwasanaethau hyn.
5. **Rôl Esblygol yn y Gwasanaethau Brys:** Gyda'r pwysau cynyddol ar y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) a Gwasanaeth Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru (WAST), mae'r ymatebwyr yn cydnabod rôl esblygol y Gwasanaeth Tân fel ymatebwyr cyntaf hanfodol i argyfyngau meddygol. Mae rôl y Gwasanaeth wedi ehangu y tu hwnt i ddiffodd tân traddodiadol i gynnwys cymorth hanfodol mewn digwyddiadau meddygol.
6. **Canfyddiadau o Ansawdd y Gwasanaeth:** Ar y cyfan, mae canfyddiad cadarnhaol o effeithlonrwydd a phroffesiynoldeb GTACGC, gyda llawer o unigolion yn crybwyll profiadau personol o amseroedd ymateb prydlon a rheoli argyfwng effeithiol. Fodd bynnag, mae rhai ymatebwyr yn mynegi pryder am ostyngiadau posibl yn narpariaeth y gwasanaethau a goblygiadau posibl yn sgil hyn ar gyfer diogelwch y gymuned.

Roedd y themâu hyn yn amlygu cymysgedd o ymwybyddiaeth gyffredinol ochr yn ochr â bylchau sylweddol wrth ddeall yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan GTACGC, ynghyd â gwerthfawrogiad cryf o'r gwasanaethau a ddarperir i'r gymuned.

# Cwestiwn 3: Pa mor ymwybodol ydych chi o sut mae Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru yn cael eu hariannu?




| **Ydych chi'n gweld unrhyw heriau o ran y ffordd mae'r Gwasanaeth yn cael ei ariannu ar hyn o bryd? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
|---|
| Ydw, rydyn ni fel cenedl yn gweld cyllidebau'n cael eu torri i bob adran llywodraeth leol ac rwy'n credu y bydd hwn yn gyfnod anodd i'n PST a'r Awdurdod Tân jyglo cyllid. |
| Llai o gymorth ariannol gan y Llywodraeth, costau gweithredu cynyddol, costau cynyddol i wasanaethau ac offer, demograffeg sy'n newid, oedran y seilwaith presennol, ehangu'r rôl, newid demograffig |
| Heblaw'r ffaith nad ydym yn cael cyllid ar gyfer cleifion bariatrig, ond eto rydym yn mynd allan i'r digwyddiadau hynny, nid wyf yn ymwybodol o unrhyw heriau gyda'r ffordd y caiff y Gwasanaeth ei ariannu. Ond nid wyf ymhlith y mwyaf addysgedig yn hynny o beth. |
| Nac ydw |
| codi arian o'r dreth gyngor i gynnal a thyfu'r Gwasanaeth Tân. |
| Nac ydw |
| Bydd yr argyfwng costau byw yn effeithio ar gyllidebau eraill y cyngor |
| Ffordd dda, bydd y PST yn gwybod beth sydd ei angen arno i gynnal gwasanaeth ac yn ariannu yn unol â hynny. |
| Nac ydw |
| Mae llai o gyllid dros y blynyddoedd yn peri risg i ddarparu gwasanaethau |
| Efallai |
| Toriadau o'r llywodraeth bresennol, sef llywodraeth leol a chynulliad Cymru llafur |
| Nac ydw |

| |
|---|
| Mae angen mwy o gyllid i ymdopi â'r materion cyfredol sy'n wynebu'r gwasanaeth, megis argaeledd offer a her amser ymateb |
| Toriadau trwyddi draw ar gyfer pob gwasanaeth |
| Dim syniad |
| Ydw. Toriadau gan y Llywodraeth, rydych chi'n darparu gwasanaeth gwych a byddai cwtogi ar staff yn lleihau eich effeithlonrwydd a'ch gwasanaeth i'r cyhoedd. |
| Mae San Steffan yn tanariannu Llywodraeth Cymru a bydd hynny'n cael effaith ddilynol ar y ffordd y caiff y GTA ei ariannu. |
| Os oes rhaid i chi ddibynnu ar y Cynghorau sir, yna rydych chi mewn perygl difrifol o gael llai o gyllid. |
| Toriadau cyllid |
| Toriadau cyllid drwy'r Llywodraeth/Awdurdodau Lleol. Cynnydd mewn costau cyffredinol |
| nac ydw |
| Gallai sicrhau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf arwain at doriadau ymatebol os nad oes digon o arian wedi'i ddyrannu |
| Dim digon o arian yn unman. |
| Ddim yn gwybod |
| Mae yna heriau bob amser! |
| Diffyg cymorth gan y gwasanaeth gyda recriwtio staff rhan-amser |
| Wrth gwrs, mae gan yr holl sector cyhoeddus heriau ariannu, ond mae'n rhaid i'r rheolwyr sicrhau'r cyllid angenrheidiol ar gyfer y dasg. |
| Ddim yn siŵr sut mae'n cael ei ariannu |
| Ansicr |
| Mae yna bob amser broblemau gyda llif arian waeth sut mae unrhyw beth yn cael ei ariannu |
| Mae'n rhaid iddyn nhw godi arian trwy olchi ceir.  Cerddded pellteroedd mawr mewn gwisg dân lawn |
| Ydw. Nid ydych yn cael digon o gyllid nac adnoddau ar gyfer yr ystod o wasanaethau y disgwylir i chi eu darparu. |
| Nid wyf yn gwybod sut mae'n cael ei ariannu |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Ydw, oherwydd mae angen mynd trwy system ardoll gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na chyllid uniongyrchol o'r swyddfa gartref |
| Ddim yn gwybod |
| Dim syniad am gyllid |
| Cyllideb wedi'i gwario ar wasanaethau eraill gan gynnwys llifogydd |
| Gwneud mwy am lai |

| |
|---|
| Ddim yn siŵr |
| Dydw i ddim yn gwybod sut mae'r gwasanaeth tân ac achub yn cael ei ariannu |
| Mae’n ymddangos bod rhai meysydd heb eu hariannu digon ac a allai elwa ar fwy o incwm |
| Ydw, mae cyllidebau dan straen cynyddol. |
| Ddim yn gwybod rhyw lawer am y pwnc |
| Nac ydw |
| Blaenoriaethau gwasanaeth cyhoeddus sy'n gwrthdaro |
| Dydw i ddim yn gweld yr heriau ond rwy’n siŵr eu bod yno |
| Nac ydw |
| Pwysau cyllidebol ar draws pob ardal awdurdod lleol |
| Nac ydw |
| nid oes digon o arian i ddarparu'r gwasanaeth yn y ffordd fwyaf effeithiol |
| Ydw, yr un fath ag unrhyw sefydliad arall. |
| Ni allwn fforddio toriadau yn y staff yn ein canolfan yn Llanandras am unrhyw resymau |
| Blaenoriaethu gwael ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus hanfodol gan y Llywodraeth |
| Ni fyddwn yn synnu pe bai'r gwasanaeth tân yn cael ei fygwth gan doriadau cyllid. |
| Nac ydw |
| Dylai ein diffoddwyr tân rhan-amser allu bwrw ymlaen fel y maent wedi gwneud ers blynyddoedd. |
| Rwy'n credu ei fod yn cael ei danariannu mewn rhai agweddau |
| Ydw |
| Ydw. Toriadau cyson i wasanaethau o bob math oherwydd pwysau gwleidyddol |
| Nac ydw |
| Dim ond bod angen gweld yn glir faint o dreth gyngor sydd ar gyfer gwasanaethau brys a pheidio â rhwymo'r cyfan gyda'i gilydd gan y bydd pobl yn deall pa mor bwysig ydyw |
| Nac ydw |
| Yn gyffredinol, mae'r sector cyhoeddus yn dynn ar gyllid ond y flaenoriaeth yw mynd allan i’r argyfyngau |
| Heb ei wneud trwy'r dreth gyngor |
| Toriadau Cyllideb y Llywodraeth: Dros y blynyddoedd, mae toriadau cyllid sector cyhoeddus gan lywodraeth y DU ac, i raddau llai, Llywodraeth Cymru, wedi arwain at bwysau ariannol ar wasanaethau tân. Gall hyn olygu llai o adnoddau ar gyfer staffio, hyfforddiant, offer a seilwaith. Galw Cynyddol: Wrth i dwf poblogaeth, newid yn yr hinsawdd, a risgiau newydd (fel tanau gwyllt) gynyddu, mae'r galw am wasanaethau tân ac achub yn tyfu. Mae hyn yn golygu mwy o ddigwyddiadau i ymateb iddynt a chostau gweithredol uwch o bosibl, nad ydynt efallai bob amser |

| |
|---|
| yn cydredeg â'r cyllid sydd ar gael. Cydbwysedd Gwledig a Threfol: Mae'r gwasanaeth yn cwmpasu ardaloedd gwledig a threfol, ac anghenion gwahanol yn y ddwy. Efallai y bydd angen ar ardaloedd gwledig gyfarpar mwy arbenigol neu amseroedd ymateb hirach, tra gall fod angen ar ardaloedd trefol wasanaethau amlach. Gall cydbwyso'r anghenion hyn o fewn y gyllideb sydd ar gael fod yn heriol. Costau Ymddeol a Staffio: Mae gwasanaethau tân ac achub yn wynebu costau cynyddol sy'n gysylltiedig â phensiynau, setliadau cyflog, a chadw staff profiadol. A llawer o ddiffoddwyr tân yn agosáu at oedran ymddeol, mae denu a hyfforddi recriwtiaid newydd wrth sicrhau bod lefelau staffio yn cael eu cynnal yn gallu rhoi straen ar adnoddau. Chwyddiant a Chostau Cynyddol: Mae cost offer, tanwydd a chyflenwadau wedi cynyddu, a hynny'n aml yn gyflymach na thwf cyllid. Mae hyn yn effeithio ar y gallu i gynnal neu adnewyddu cerbydau, technoleg, ac adnoddau hanfodol eraill. Disgwyliadau'r Cyhoedd: Mae disgwyliad y cyhoedd o wasanaethau ymateb brys yn parhau i dyfu, yn enwedig gyda datblygiadau mewn technoleg a phortreadu ymateb ar unwaith yn y cyfryngau. Gall fod yn anodd rheoli'r disgwyliadau hyn ac aros o fewn terfynau'r gyllideb |
| Dim sylw oherwydd dydw i ddim yn gwybod sut mae hwn yn cael ei ariannu |
| Diffyg dealltwriaeth o ardal wledig gan y rheolwyr |
| Toriadau cyllideb, toriadau sirol, dim digon o arian i dalu staff |
| Rwy'n credu bod cyllid ym mhobman yn brin ac mae'r gwasanaethau sydd eu hangen arnom mewn ardaloedd mwy gwledig yn cael eu cywasgu i ardaloedd mwy o faint ac felly'n cynyddu amseroedd aros am gymorth pan fydd ei angen. Rwy'n credu bod hyn yn cael ei arwain gan gyllid i raddau helaeth gan fod adrannau llai yn cael trafferth cadw i fynd ac mae angen cefnogaeth eu hardal leol arnynt fwyfwy i gadw'r gwasanaeth yno. |
| Nac ydw, ond alla i ddim dweud fy mod i'n gwybod yn dda iawn sut mae'n cael ei ariannu |
| Nac ydw |
| Dim ond os bydd cyllid yn cael ei dorri, gorsafoedd yn cael eu cau a'r gwasanaeth yn gwanhau, yna bydd pobl a chymunedau mewn ardaloedd gwledig mewn perygl difrifol. |
| Dydw i ddim yn ymwybodol o'r heriau maen nhw'n eu hwynebu ar hyn o bryd |
| Rwy'n poeni y bydd cyllid yn cael ei dorri. |
| Gallai arian gael ei wario'n well o fewn y gwasanaeth tân, nid sut mae'n cael ei ariannu |
| Mae'r ffaith eich bod yn gwneud yr arolwg hwn yn golygu eich bod yn ceisio lleihau cyllid .. sy'n warthus. |
| Fyddwn i ddim yn gwybod |
| Mae gwasanaethau gwledig yn costio mwy i'w gweithredu yn gynhenid oherwydd heriau daearyddol |
| Ydw |
| Risgiau cyffredin meddwl tymor byr gwleidyddol. |

| |
|---|
| Mae'r pwysau ar lywodraeth leol yn golygu bod pwysau am i lawr ar yr holl wasanaethau a ariennir trwy'r Dreth Gyngor. |
| Toriadau yn y gyllideb, yr argyfwng costau byw, codiadau cyflog |
| Mae angen mwy o gyllid i gadw'r lefel ragorol o wasanaeth sydd gennym. |
| Nac ydw |
| Mae rhywfaint o wariant treth yn nwylo gwleidyddion lleol heddiw ac maent yn ffafrio canoli ym Mhowys |
| Toriadau cyllid yn ôl pob tebyg |
| Ydw - mae cyllidebau cyhoeddus bob amser dan bwysau ac yn destun craffu |
| Mae lleihau staff a gorsafoedd yn peryglu'r cyhoedd yn sgil pellter y gorsafoedd sy’n darparu gwasanaeth |
| Mae’r ffaith nad yw pobl yn gwybod ei fod yn cael ei ariannu, fel fi, ei rwystro. |
| Nac ydw |
| Diffyg arian |
| Byddwn yn dychmygu bod pob gwasanaeth yn cystadlu am yr un arian, bod cynghorau wedi’u tanariannu, mae angen y gwasanaethau brys arnon ni’r trethdalwyr. Dim llawer o arian yn yr ardal wledig sydd wedi'i thanariannu i'r gogledd o Aberhonddu |
| Does dim byth digon o gyllid ar gyfer gwasanaethau gwledig a dim digon o werth yn cael ei roi i'r gwasanaeth hanfodol maen nhw'n ei ddarparu. |
| Mae'r wlad heb ddimai. |
| Arian cyhoeddus = dim arian |
| Dim ond os ydych yn gofyn hyn oherwydd eich bod chi'n meddwl eich bod am wneud toriadau. Mae gwir angen ein gwasanaeth ac mae’n cael ei wir werthfawrogi |
| Ydw, mae gennym boblogaeth isel y mae'r ffioedd yn cael eu codi ohoni. Prin yw’r pencadlysoedd busnes / corfforaethau mawr ac mae cyflogau yn isel. Mae'r ardal a gwmpesir gan yr Awdurdod Tân yn helaeth, ond ei phoblogaeth yn denau. Mae'r ffyrdd yn cael eu defnyddio gan bobl leol ond hefyd yn sylweddol gan bobl nad ydynt yn dod o'n hardal ni sy'n gyrru draw i'r arfordir ac ati. Mae llawer o'r bywydau hyn yn cael eu hachub a gellir dadlau nad ydyn nhw’n cyfrannu. Fel y cyfryw, mae rhywfaint o gyfraniad trethiant cyffredinol/Llywodraeth Cymru neu Lywodraeth y DU yn hanfodol. |
| Sut alla i ateb os nad ydw i'n ymwybodol iawn |
| Yn ansicr o'r ffyrdd presennol o ariannu. |
| Gan nad wyf yn siŵr sut mae’n cael ei ariannu heblaw gan y llywodraeth, rwy'n meddwl efallai ei fod yn debygol o fod wedi’i danariannu yn enwedig ar gyfer y risg dan sylw a’r hyfforddiant sy'n ofynnol |
| Ydw |
| Cael ei gyfyngu gan bobl sy'n rhoi / ymwybyddiaeth o angen. |

| |
|---|
| Dim ond cost sy'n cael sylw bob amser ac nid y darlun ehangach |
| Rwy'n disgwyl y bydd cyngor Powys yn ceisio torri ei gymorth. |
| Mae braidd yn ansicr. |
| Nac ydw... Neu o leiaf ni ddylai fod! Nid oni bai bod llywodraeth anghymwys yn gyfrifol... |
| Mae’r awdurdod lleol yn brin o arian |
| Mae'n dibynnu ar y ffordd mae'r llywodraeth yn dyrannu arian - Yr hyn maen nhw'n ei ystyried yn flaenoriaeth a beth maen nhw'n teimlo sy'n ofynnol ar gyfer y gwahanol ardaloedd |
| Dim un a ddylai effeithio ar lefelau staffio rheng flaen |
| Heb ei ddosbarthu'n gyfartal rhwng timau bach a mwy o faint |
| Nac ydw |
| Pwysau ar gyllidebau |
| Bydd angen mwy o arian ar y frigâd bob amser wrth i'r gost fynd i fyny |
| Prinder cyllid gan y llywodraeth |
| Angen rhagor o wybodaeth |
| Mae'n debygol o fod wedi’i danariannu |
| Ydw, mae'n debyg fel pob gwasanaeth |
| Nid wyf yn ymwybodol o’r ffordd maen nhw'n cael eu hariannu. Felly mae angen mwy o gyfathrebu â'r cyhoedd ar hyn |
| Rwy’n poeni NAD ydyn nhw'n cael eu hariannu'n briodol ac yn llawn, a bod pobl Powys (yn ogystal â’r swyddogion eu hunain) yn cael eu peryglu. |
| Ddim yn siŵr |
| Mae awdurdodau lleol yn gwastraffu gormod o arian ar reolwyr (llawer gormod) ac maent bellach heb yr un geiniog |
| Mae pob ALI dan bwysau gyda thoriadau ac ni fyddai'r cyfraniadau gan y cyhoedd yn talu eu costau. |
| Does gen i ddim syniad ond, yn sicr, nid gadael i bobl farw mo'r ateb |
| Mae'r cyllid yn dibynnu ar farn eraill, nid yw o reidrwydd yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r gwasanaeth felly efallai na fyddant yn gwbl ymwybodol o'r holl weithgareddau a ddarperir gan y gwasanaeth. |
| Gellid gwneud rhai pethau'n well |
| Mae angen mwy o gyllid ar bob gwasanaeth. |
| Nid yw'r cyllid yn ddigonol ac mae'n cael ei dorri flwyddyn ar ôl blwyddyn. |
| Mae fel petai’n cyfyngu ar ddarparu’r offer, hyfforddiant/sgiliau ac amser sydd eu hangen i ddarparu'n ddigonol ac yn ddiogel y gwasanaethau y mae'r cyhoedd yn eu disgwyl gennym |
| Ydw |
| YDY GAN WYBOD SUT MAE CYNGHORAU SIR YN GWEITHIO |

| |
|---|
| Ydw, mae'r holl gyllid gan y llywodraeth a phreseptau lleol dan fygythiad o hyd |
| Dim syniad oherwydd diffyg gwybodaeth |
| nac ydw |
| Nac ydw |
| Y brif her yw ceisio cynnal a gwella'r gwasanaeth, a hynny dan bwysau yn sgil toriadau ariannol. |
| Ddim yn gwybod |
| Mae'n debyg bod pryderon ariannu cyson mewn perthynas â rhai adrannau a staff gweithredol |
| Dim digon o gyllid ar gyfer yr hyn sydd ei angen |
| Mae'r unig her yn y system gyda'r gwasanaeth yn cael trafferth aros ar agor oherwydd prif swyddfa'r gwasanaeth tân |
| Amh. |
| Ddim yn gwybod amdano i'w ateb. |
| Tanariannu |
| Ydw |
| Dylid rhoi mwy o bŵer i'r awdurdodau lleol benderfynu beth i'w wneud gyda'u rhan o'r arian fel nad yw cyllid gwledig yn cael ei ddefnyddio i gymorthdalu ardaloedd dwys eu poblogaeth |
| Ydw |
| Nac ydw |
| Ansicr |
| Cwtogi ar gyllid |
| Pwysau ar gyllideb awdurdodau lleol |
| Llywodraeth ddatganoledig, diffyg cyllid ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau cyllidebol |
| Diffyg cyllid!! |
| Mae angen monitro gwariant yn fwy caeth. |
| Tanariannu |
| Yn amlwg neu fyddech chi ddim yn gofyn y cwestiwn. Mae'r holl wasanaethau cyhoeddus wedi cael eu tanariannu ers blynyddoedd lawer. Ond mae'r gwasanaeth tân lleol yn cael ei staffio i raddau helaeth gan wirfoddolwyr lleol felly mae'n siŵr mai hwn yw un o'r ffyrdd mwyaf cost-effeithiol o achub bywydau |
| Nac ydw |
| Angen mwy o gyllid gan y llywodraeth |
| Nid oes digon o gyllid i ganiatáu i'r gwasanaeth ddarparu'r hyn sydd ei angen pe bai'r parthau arfaethedig yn mynd rhagddynt, mae'n peri gofid mawr |
| Diffyg diffoddwyr tân gweithredol |

| |
|---|
| Ydw, bydd darparu gwasanaeth rheng flaen effeithlon ac effeithiol yn heriol iawn yn yr amgylchedd economaidd heddiw |
| Mae angen mwy o arian gan lywodraeth ganolog a chynulliad Cymru |
| Dydy'r rhan fwyaf o bobl ddim yn gwybod, yn deall nac yn poeni sut mae'n cael ei ariannu |
| Ni all y cyhoedd barhau i amsugno codiadau'r naill flwyddyn ar ôl y llall yn eu helfen o'r hyn maen nhw'n ei dalu tuag ato |
| Ansicr |
| Toriadau bob amser! Mae'r gwasanaeth hwn yn hanfodol |
| Mae yna bob amser heriau i unrhyw sefydliadau a ariennir gan unrhyw beth heblaw eu helw eu hunain. Mae awdurdodau lleol yn cael trafferth cynnal gwasanaethau felly bydd ariannu'r gwasanaeth yn anodd iddyn nhw |
| Dim ond os yw'r awdurdodau'n lleihau eu cyfraniadau |
| Fel popeth arall, mae'r cyllid yn sicr yn cael ei dorri'n ôl gan Lywodraeth Cymru |
| Tynnu adnoddau i ffwrdd o ardaloedd gwledig |
| Ydw! Wedi'i danariannu oherwydd trachwant neuadd y cyngor |
| Ydw, nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n gywir. Bachu arian o hyd oddi wrth y canolbarth i wasanaethu'r gogledd a'r de. |
| Mae'n wasanaeth sylfaenol mewn ardal wledig fel hon ac mae angen ei ariannu i'w gynnal, nid ei dorri! |
| Mae bob amser yn anodd cael cyllid mewn ardaloedd gwledig. Nid yw hyn yn golygu y dylem gael llai o wasanaeth pan fydd ein bywydau yn y fantol. Maent yn wirioneddol hanfodol i ni lle nad oes gennym fawr o wasanaethau eraill. |
| Byddai angen imi wybod sut mae'n cael ei ariannu i allu ateb. |
| Ydw, o ystyried bod ein llywodraeth mewn dyled ddifrifol a'r ffordd y mae'r mathau o ddigwyddiadau y mae angen inni fynd allan iddynt yn tyfu'n gyflym. Mae'r gost i sicrhau bod aelodau'r criw yn aml-fedrus gydag offer priodol yn ymarfer costus. |
| Cyllidebau tynn awdurdodau lleol |
| Rwy'n credu pe bai llai o'r gyllideb yn cael ei defnyddio o fewn rheolaeth a mwy ar lawr gwlad, y gellid cynnal y gwasanaeth presennol |
| Heb os, byddaf yn gwrthwynebu'n groch os byddan nhw'n cael eu dad-ariannu! |
| Ydw. |
| Rwy'n credu bod angen mwy o arian arnyn nhw, yn ôl pob tebyg, gan eu bod bob amser yn codi arian eu hunain |
| Ydw |
| Cynaliadwyedd |
| Fel gyda phob gwasanaeth cyhoeddus nid oes digon o arian i'w cynnal yn ddigonol |
| Nac ydw |

| |
|---|
| Mae'r symud tuag at y 2040 yn gadael cymunedau yn agored i niwed yn y dyfodol yn ogystal â'r gwasanaeth tân yn symud i'r cyfeiriad anghywir i ffwrdd o allu helpu mwy o bobl. |
| Strwythur cyflog a strwythurau casglu |
| Ddim yn gwybod digon i wneud sylwadau |
| Ddim yn gwybod |
| Nac ydw |
| Diffyg cyllid gan y llywodraeth , mae'n ymddangos bod rhai pethau'n bwysicach nag achub bywydau |
| Rydych chi'n ceisio torri costau yn y meysydd anghywir. |
| Pawb yn brin o arian y dyddiau hyn! |
| Rwy'n eithaf siŵr y bydd gofyn i ni'r cyhoedd dalu mwy o dreth gyngor yn 2025-26 ac eto bydd cynghorau yn gwneud mwy o doriadau i wasanaethau lleol |
| Nac ydw |
| Ydw, fel gyda phob sefydliad a ariennir gan y llywodraeth, mae cyllid yn cael ei leihau wrth i'r amgylchedd ac ymyriadau gynyddu yn dda a drwg |
| Heb ei ariannu'n dda, yn ôl pob tebyg. |
| Ydw ... mae hyn a hyn o arian yn y pot i'r gwasanaeth tân gan y llywodraeth, mae cost popeth yn codi felly mae'n rhaid i'r hyn sydd gennym wneud y tro. |
| Ydw! |
| Mae bywydau'n bwysicach na chyllid |
| Ydw |
| Sut wyddwn i? |
| Mae pob gwasanaeth cyhoeddus wedi'i danariannu |
| Mae'r Gwasanaeth Tân yn wasanaeth pwysig iawn ac yn achub bywydau, ni ddylid cwestiynu pam neu sut, dylai gael y cyllid yn awtomatig heb ofyn cwestiynau, dyna'r her fwyaf ynddi'i hun. |
| Nac ydw |
| Mae heriau gyda'r ffordd y caiff popeth ei ariannu ym Mhowys |
| Newidiadau i flaenoriaethau Powys |
| Ddim yn siŵr, roeddwn i'n meddwl ei fod yn cael ei ariannu gan y Senedd (neu dylai fod os nad yw) |
| Ydw - LIC yn brin o arian |
| Nid wyf yn gwybod sut mae'n cael ei ariannu. |
| Nac ydw |
| Mae gosod cyllideb flynyddol yn ei gwneud hi'n anodd iawn gwneud cynlluniau tymor hir |
| Dan bwysau a heb ddigon o gyllid |
| Ydw, nid yw cynghorau mewn sefyllfa i ariannu hyn. |

| |
|---|
| Nac ydw, fel yr heddlu os oes angen mwy yna codwch y praesept, pam y byddai'r cyhoedd yn gwrthwynebu? Rydych chi'n bolisi yswiriant, efallai na fyddwch byth yn hawlio ond ar yr un achlysur y bydd angen help arnoch, rydych chi'n gwybod y bydd yno. |
| Mae costau byw wedi cynyddu o gymharu â'r llynedd |
| Mae angen mwy o gyllid ar y rhai sydd wedi'u tanariannu |
| Angen mwy o arian gan eu bod yn hanfodol |
| Dydw i ddim yn gallu ateb, gan nad ydw i'n rhy gyfarwydd â'r ffynhonnell ariannu |
| Y pwysau cynyddol y mae'n ei roi ar awdurdodau lleol. |
| Ydw |
| Ydw, ond bydd y newidiadau arfaethedig yn peryglu bywydau |
| Ydw, mae'n wasanaeth hanfodol ond rwy'n gwybod bod cynghorau sir yn cael trafferth dod o hyd i arian i ddiwallu anghenion |
| Cyfyngiadau cyllido'r gyfraith |
| Er gwaethaf cynyddu'r dreth gyngor, mae gwasanaethau yn lleihau ac nid yw cyllid bob amser yn gwasgaru'n briodol |
| Mae costau'n codi a chyllidebau'n tynhau |
| YDW, NID YW'R ARDOLL YN GYSON Â CHYLLIDEBAU CYNGOR SIR |
| Prin o arian |
| Nid yw'n cael digon o gyllid |
| Heb ei ariannu digon, gwasanaeth hanfodol i'r gymuned wledig |
| Mae cyllid a chyllidebau yn cael eu torri a'u cyfyngu ym mhob sector |
| maen nhw'n haeddu mwy o arian |
| Cyllidebau cyllid cyhoeddus. |
| Ydw oherwydd pwysau mewn cyllid. |
| Ddim mewn gwirionedd. |
| Gallai'r swm o arian a ddyrannir i'r gwasanaeth achosi rhwystrau i'r gwasanaethau a ddarperir |
| Diffyg arian yn gyffredinol |
| Nid wyf yn gwybod sut maen nhw'n cael eu hariannu. |
| Dylai'r awdurdod lleol roi mwy o arian a dangos i'r cyhoedd sut mae'r arian yn cael ei wario |
| Nid wyf yn gweld problemau gyda chyllid, ond rwy'n credu y gellid arbed costau yn y ffordd y mae'r arian gan Lywodraeth Cymru yn cael ei wario. |
| Ddim yn gwybod |
| Toriadau gan y llywodraeth |
| Mae popeth yn brin o arian ac mae'n debyg bod y rhain mewn sefyllfa debyg. |
| Mae'r cyllid yn mynd yn dynnach |

| |
|---|
| Mae angen i'r ardoll eistedd ar wahân ar y bil treth gyngor fel praesept nid ardoll. |
| Mae pob awdurdod lleol dan bwysau ac yn chwilio am gyfleoedd i arbed costau |
| Yn aml, nid yw Ymatebwr Cyntaf yn cael ei anfon ar gyfer argyfyngau sy'n bygwth bywyd sy'n digwydd yn yr ardal wledig |
| Mae'r cynghorau sir yn nwylo'r GTA gydag Ardoll tra'n gorfod torri mewn mannau eraill. Rwyf wedi cael gwybod am wastraff arian helaeth gan y GTA megis prosiect caffi a fethodd, cwmni hyfforddi a fethodd a phryniannau rhodres eraill a ariannwyd yn y pen draw gan y Cyhoedd |
| Nac ydw, mae'n ymddangos bod popeth yn gweithio |
| Ydw - diffyg cyllid awdurdodau lleol |
| Mae yna heriau ariannu bob amser |
| Ddim yn gwybod digon |
| Tanariannu |
| Mae heriau ariannol yn wynebu pawb yn y sector cyhoeddus |
| Roeddwn i'n tybio eu bod yn cael eu hariannu gan y llywodraeth |
| CSP - Talwyr y dreth gyngor a'r Senedd |
| Methu ateb, ond byddaf yn dweud eu bod yn rhan hanfodol a phwysig o'r gymuned. |
| Bob amser yn heriol gyda chyllid |
| Ddim yn gwybod digon i ddweud ond dyfalwn ei fod yn cael ei DANariannu |
| Dylai fod yn sicr y dylem gael mynediad i'r gwasanaeth hwn |
| Nid yw'r dreth gyngor sy’n cynyddu o hyd yn cael ei gwario'n ddoeth bob amser |
| Mae heriau sy'n wynebu cyllid yr holl wasanaethau cyhoeddus. |
| Rwy'n tybio bod cyllid dan fygythiad fel popeth arall |
| Nid oes gennyf ddigon o wybodaeth i ateb y cwestiwn hwn |
| Am fod cyllid yn cael ei leihau'n berthynol, bydd ardaloedd fel y Canolbarth yn dioddef yn anghymesur. |
| Mae cyllid Llywodraeth Leol yn cael ei wario yn yr ardaloedd anghywir. Dylai diogelwch y gymuned fod yn hollbwysig. |
| Mae toriadau'r llywodraeth a'r cyngor yn effeithio ar eu gwasanaethau, felly mae y tu hwnt i’w rheolaeth |
| Dydw i ddim yn siŵr o ffynhonnell y cyllid felly ni allaf ateb |
| Mae'r wlad yn fwyfwy prin o arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. |
| Ddim yn gwybod |
| amherthnasol |
| Nac ydw |
| Yn gyffredinol, mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu tanariannu ac yn dioddef o flynyddoedd o esgeulustod |
| Mae pob cyllid yn her y dyddiau hyn!! |

| |
|---|
| Rwyf am gadw'r gwasanaethau pwysig felly mae angen i ni fod yn ariannu gorsafoedd tân llai fel Crucywel fel bod amseroedd ymateb yn bosibl. |
| Ydw |
| ydw |
| Ddim yn gwybod |
| Nid wyf yn gwybod gan nad wyf yn hollol siŵr o'r sefyllfa ariannu lawn |
| Dim digon o arian |
| Mae cyllid blynyddol yn heriol ar gyfer cynllunio tymor hwy |
| Mae cyllid blynyddol yn heriol iawn |
| Ydw, oherwydd nid ydynt yn cael eu hariannu'n briodol gan y cynghorau lleol |
| Diffyg sicrwydd tymor hir dros gyllid |
| Rwy'n amau ei fod wedi'i danariannu, ond nid wyf yn gwybod. |
| Ydw, ond gadewch i ni obeithio bod cyllid cyhoeddus wedi gwella. |
| Nac ydw |
| Agored i benderfyniadau ariannu gan haenau o awdurdodau'r sector cyhoeddus - risg o 'ras i'r gwaelod' |
| Ydw |
| Yn yr un modd â'r holl wasanaethau cyhoeddus ledled Cymru a'r DU |
| Gall cyllid annigonol arwain at leihau gwasanaethau |
| Heb amheuaeth, mae unrhyw gyllideb a ariennir gan y llywodraeth o dan bwysau eithafol |
| Gallaf weld bod y ffordd praesept o ariannu yn her, efallai nad oes angen yr un modd ar bob gorsaf. |
| Dim digon o arian |
| Ydw, rydw i newydd ddarganfod eu bod yn cael eu hariannu gan y cynghorau lleol. Dylent gael eu hariannu trwy'r llywodraeth fel yr heddlu. Dyna beth oeddwn i wedi'i dybio |
| Fel ym mhob man mae arian yn dynn, rwy'n deall |
| Agored i bwysau ariannol Awdurdodau Lleol |
| Mae angen i gyllid fod yn ddiogel a chael ei neilltuo. A yw hyn yn wir ar hyn o bryd? |
| Ydw |
| Dylai'r cyllid, fel y gwelaf fi, gael ei gynyddu oherwydd maint yr hyfforddiant rydyn ni'n ei wneud hefyd, yr offer helaeth iawn sydd ei angen i gyflawni ein dyletswyddau yn llwyddiannus. |
| Mae'n siomedig bod y gwasanaeth yn gorfod gofyn am arian, mae'r cyhoedd yn talu digon yn y dreth gyngor a dylai ariannu'r gwasanaeth tân |
| Fel gwasanaeth cyhoeddus bydd yn gweithio o fewn cyllidebau cyfyngedig ac yn delio â biwrocratiaeth atebolrwydd |

| |
|---|
| Costau cynyddol |
| Gweler yr ateb blaenorol |
| Gallai fod ychydig bach mwy’n cael ei roi i mewn iddo |
| Ydw |
| Toriadau yn y gyllideb |
| Mae llawer o ansicrwydd yng Nghymru a llywodraeth ganolog, ynglŷn â chyllid yn enwedig gyda'r llywodraeth ganolog wedi ymrwymo i gynyddu cyllid ar gyfer amddiffyn. |
| Dylid darparu cyllid yn uniongyrchol gan LlC - fel yr heddlu ac nid trwy'r awdurdod lleol |
| Dylai gael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru |
| Toriadau |
| Rwy'n credu bod angen mwy o help arnyn nhw ac yn bendant gallai Hendy-gwyn ar Daf wneud y tro â diwrnod agored i hyrwyddo eu hunain ac annog aelodau newydd. |
| Ddim yn gwybod |
| Dim syniad |
| Ddim yn gwybod y trefniant presennol |
| Nid yw'n dryloyw i'r cyhoedd yn gyffredinol, ac "ar goll yn y Dreth Gyngor a godir gan CSP” |
| Problem toriadau'r Llywodraeth ac anawsterau cyffredinol ariannu gwasanaethau cyhoeddus |
| Rwy'n credu y bydd cyllid yn anoddach i'w gael os nad ydym yn esblygu ein rôl mewn rhyw ffordd |
| Mae pob cyngor yn lleihau gwariant felly rwy'n disgwyl y bydd Powys yn ceisio lleihau taliadau i sefydliadau angenrheidiol. Rwy'n ystyried mai blaenoriaethau gwariant cyhoeddus yw iechyd a diogelwch pobl. |
| Ydw, yn amlwg mae pwysau ar gyllid sy'n tarddu o'r llywodraeth - ond dyna fydd y ffordd bob amser. |
| Mae adnoddau’n prinhau. Mae angen i'r awdurdodau graffu ar wariant. |
| Dylai cynghorau lleol ddarparu 100% o'r cyllid o'n treth gyngor a'n hardrethi busnes. Mae hynny ynddo'i hun yn her. |
| Mae pob gwasanaeth cyhoeddus yn wynebu mwy o bwysau ariannol a galw am wasanaeth. |
| Her enfawr, galw enfawr am fuddsoddiad yn y Gwasanaeth yn erbyn cefndir o doriadau cyllideb dro ar ôl tro i’r ALl a galw ar GTACGC i ddarparu mwy gyda llai. Ydw, bu cynnydd mewn cyllid ond nid yw hyn wedi mynd i'r afael ag anghenion y Gwasanaeth i gyflawni popeth sydd ei angen arno. |
| Ddim yn berthnasol oherwydd dim gwybodaeth. |
| Argyfwng costau byw |

| |
|---|
| Y Llywodraeth a'i blaenoriaethau. |
| Ydw, yn poeni am gau gorsafoedd, israddio staff ledled GTACGC |
| Ras i waelod y gwasanaethau brys. Dylem gael ein hariannu i ddarparu gwasanaeth tân digonol ac effeithiol. |
| Ydw. Rydyn ni'n dal i fod mewn oes o galedi ac mae'r cyllidebau yn dynn |
| Ydw, dylid ei ariannu'n ganolog nid o gyllidebau cynghorau lleol. |

Yn seiliedig ar y sylwadau a gafwyd ynglŷn â chyllid GTACGC, nodwyd chwe thema a her gyffredin:

1. **Torri Cyllidebau a Phwysau Ariannol:** Nododd llawer o'r ymatebwyr fod y Gwasanaeth yn wynebu pwysau ariannol sylweddol oherwydd toriadau cyllideb parhaus gan lywodraeth leol a chanolog, sydd wedi arwain at lai o gyllid ar gyfer gwasanaethau hanfodol mewn ardaloedd eraill.
2. **Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth y Cyhoedd:** Roedd diffyg dealltwriaeth gyffredinol am y ffordd y mae'r Gwasanaeth yn cael ei ariannu. Dywedodd ymatebwyr y gallai gwell cyfathrebu ynghylch ffynonellau cyllid helpu i ennyn mwy o gefnogaeth.
3. **Effaith yr Argyfwng Costau Byw:** Ystyriwyd bod costau byw cynyddol yn ffactor sy'n cyfrannu at gyllidebau tynnach ar draws llywodraeth leol. Mynegodd llawer bryderon y gallai'r straen economaidd hwn arwain at doriadau pellach ac effeithio'n negyddol ar ddarparu gwasanaethau.
4. **Anghenion Daearyddol:** Amlygodd yr ymatebwyr heriau cydbwyso cyllid rhwng ardaloedd gwledig a threfol, gyda gwasanaethau gwledig yn aml yn wynebu costau gweithredol uwch. Gall y gwahaniaethau hyn arwain at wasanaeth aneffeithiol ac amseroedd ymateb hirach mewn lleoliadau gwledig.
5. **Galw Cynyddol am Wasanaethau:** Wrth i ddemograffeg ac anghenion y gymuned newid (e.e., poblogaethau'n heneiddio, cyfraddau digwyddiadau cynyddol), mae'r galw am y Gwasanaeth yn parhau i godi. Mae'r duedd hon yn cymhlethu materion cyllido ymhellach gan fod angen mwy o adnoddau i ddiwallu'r anghenion cynyddol hyn.
6. **Cynaliadwyedd Ariannol Hirdymor:** Codwyd pryderon am gynaliadwyedd hirdymor y Gwasanaeth o ystyried y dirwedd ariannol bresennol. Roedd ymatebwyr yn ofni y gallai cyllid anghyson effeithio ar gynllunio strategol a'r gallu i gynnal gwasanaethau hanfodol yn y dyfodol.

I grynhoi, roedd ymatebwyr yn teimlo y gallai GTACGC wynebu heriau mewn perthynas â thorri cyllidebau, ymwybyddiaeth y cyhoedd o gyllid ac anghenion, pwysau economaidd, a chymhlethdodau gwasanaethu poblogaethau gwledig a threfol.

# Cwestiwn 4: Beth yw prif gyfrifoldebau Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, yn eich barn chi? (Gofynnwyd i'r ymatebwyr eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth)




O'r **669 o ymatebion** a gafwyd, y prif gyfrifoldebau a amlygwyd gan ymatebwyr oedd ymateb i danau, gwrthdrawiadau ar y ffordd a gwaith atal.

| **Esboniwch y rhesymau dros eich dewis yng nghwestiwn 4. Oes unrhyw beth ar goll, yn eich barn chi? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
|---|
| Mae ymateb i bob digwyddiad sy'n peryglu bywyd yr un mor bwysig, yn anffodus ni ellir adlewyrchu hyn yn y cwestiwn uchod oherwydd y ffordd y mae wedi'i gyflwyno. Rwy'n credu'n gryf fod hyrwyddo mesurau ataliol ac addysgu ein cymunedau yr un mor bwysig. |
| Sut ydych chi'n eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth? Allwch chi ddim ticio mwy nag 1 blwch! |
| Yn gyntaf - ymateb i argyfyngau, yna atal, yna cymorth WAST, yna Diogelwch Tân i Fusnesau |
| Anodd penderfynu pa un ddylai gael blaenoriaeth gan fod pob un o bwysigrwydd sylweddol. |
| Fel y darlunnir gan y swyddfa gartref, eich prif reswm dros fodoli yw achub bywydau a diffodd tanau. Felly, eich ymateb i ddigwyddiadau yw'r prif beth, a'ch addysg a'ch archwiliadau sy'n eilaidd ac nid cynorthwyo'r Gwasanaeth Ambiwlans yw eich rôl. Dylai'r gwasanaeth Ambiwlans gael ei ariannu'n well i gwmpasu'r galwadau hyn. |
| Dim |
| Mae ymateb i ddigwyddiadau yn flaenoriaeth, mae atal yn dod yn ail i helpu i leihau digwyddiadau, cynorthwyo asiantaethau eraill yn drydydd |
| Rwy'n credu y bydd newid hinsawdd yn cael effaith enfawr |

| |
|---|
| Hapus gyda’r drefn |
| Rwy'n teimlo mai'r prif gyfrifoldebau yw ymateb i danau |
| Mae ambiwlansys dan bwysau oherwydd y GIG; peidiwch â gadael i'r gwasanaeth tân syrthio gyda nhw |
| Mae angen blaenoriaethu bywyd dynol.  Gall unrhyw un wirio bod gan y cyngor dystysgrifau tân |
| Mae'n wasanaeth brys hanfodol, a ddylai fod yn mynd allan i argyfyngau lleol lle mae angen cymorth brys ar bobl (nid anifeiliaid). |
| Y prif gyfrifoldeb yw diogelu bywyd |
| Dylai tân ac achub bob amser fod yn brif flaenoriaeth |
| Atal ac ymateb yw blaenoriaethau’r gwasanaeth tân |
| Mae’n union fel y dychmygwn i’r flaenoriaeth fod |
| Ymateb i danau, a damweiniau ffordd, atal tanau yw prif rôl y Gwasanaeth Tân hyd y gwn i |
| gwasanaethau brys, ac yna addysg a hyrwyddo diogelwch |
| Mae Perygl Bywyd yn flaenoriaeth, mae Diogelwch Tân Busnes yn sicrhau risg bywyd ar raddfa fwy (grwpiau o bobl), mae achub anifeiliaid a larymau domestig yn is o ran risg bywyd i'r boblogaeth gyffredinol. |
| Y 6 uchaf rydw i wedi'u nodi yw'r hyn y dylai'r Gwasanaeth Tân ei flaenoriaethu yn bennaf. |
| Mae popeth yr un mor bwysig yn y gwasanaeth tân, a thrwy gael gwared ar unrhyw un o rolau allweddol gorsaf GTACGC, rydych chi'n rhoi'r gymuned leol honno mewn mwy o berygl nag y mae eisoes |
| Gan fynd yn ôl yr hyn sy'n amlwg. Dim digon o ambiwlansys a gormod o gyfrifoldeb ar y gwasanaeth tân. Pe bai'r gwasanaeth ambiwlans wedi'i baratoi'n iawn ar gyfer galwadau gwledig yna byddai hyn yn llyncu cyfran enfawr o'r galwadau allan. |
| Yn y bôn, dylai fod yn wasanaeth achub yn bennaf |
| Rydym yn wasanaeth brys felly mae ymateb i Argyfyngau a bod yn barod ar gyfer yr argyfyngau hynny yn brif flaenoriaeth |
| Maen nhw'n wasanaeth ymateb brys. Eu prif dasg yw bod yn barod ac ar gael i ymateb ar unwaith i sefyllfaoedd argyfwng. Mae unrhyw fesurau atal wrth gwrs yn bwysig ond fel cymuned rydym am i'r gwasanaeth tân ymateb mor gyflym â phosibl pan fydd ei angen, dyna'r peth pwysicaf |
| Mae atal yn rhatach ac yn fwy effeithiol na datrys problem ar ôl iddi ddechrau felly mae'n dod yn gyntaf ac mae gan lawer o gwmnïau eisoes hyfforddiant tân a mesurau diogelwch sy'n angenrheidiol i staff, felly mae llai o angen am y maes hwn efallai |
| Anodd. Mae'r cyfan yn ymddangos fel cyfrifoldeb tebyg |
| Dylai fod yn wasanaeth cyffredinol |

| |
|---|
| Os yw mesurau ataliol yn llwyddiannus, mae llai o angen ymateb gan fod llai o ddigwyddiadau |
| Rwy'n ymwybodol bod llawer o waith ar fesurau ataliol a chodi ymwybyddiaeth o risg a diogelwch er mwyn gobeithio atal nifer y digwyddiadau argyfwng y mae angen i'r gwasanaeth ymateb iddynt. |
| Tanau a gwrthdrawiadau yw'r prif feysydd roeddwn i'n ymwybodol ohonynt |
| Dylai helpu'r cyhoedd fod y flaenoriaeth uchaf |
| Rydych chi eisiau lleihau'r siawns y bydd tân / damwain yn digwydd nag ymateb i dân. Ymwybyddiaeth o beryglon. |
| Diogelwch pobl mewn argyfwng yn gyntaf, atal yn ail, popeth arall wedyn |
| Trefnais fy newis yn ôl fy marn am y perygl mwyaf i'r mwyafrif cyffredinol o bobl |
| Amh. |
| Hyn a fydd yn cael yr ymdrech orau i achub bywyd dynol gobeithio |
| Dylai atal tân fod yn flaenoriaeth |
| Materion domestig |
| Ein prif amcanion yw achub bywydau ac yna mesurau ataliol. |
| Rwy'n credu mai atal yw'r peth pwysicaf a mwyaf effeithiol |
| Mae angen ymdrech gyfunol o ddiogelwch cartrefi, dŵr a thrafnidiaeth |
| Prif ffocws yw diogelu bywyd ac eiddo amlfeddiannaeth |
| Yn realistig mae'n anodd gwahanu'r pum angen uchaf |
| Delio â digwyddiadau lle mai chi yw'r asiantaeth orau ar ei gyfer oherwydd offer a hyfforddiant |
| Helpu pan fydd damwain car/beic modur. Cyrhaeddodd y frigâd dân gyntaf a phibellu a gwneud asesiad o'r claf. |
| rydym yn wasanaeth ymatebol yn bennaf a dylai ein blaenoriaethau adlewyrchu hynny |
| Rwy'n credu bod ymateb i bob math o ddigwyddiadau yn hanfodol gan mai dyna'r brif rôl? Helpu i ddiogelu bywyd ac eiddo? |
| Tân yn amlwg yw'r alwad gyntaf. Yn ail mae'n rhaid cael yr agwedd feddygol gan mai ymatebwyr cyntaf bob amser fydd y cyntaf i gyrraedd mewn achos o argyfwng meddygol fel yr ydym wedi'i brofi |
| Rydym yn ardal fechan gyda phoblogaeth sy'n heneiddio. Mae gallu rhoi gwybod i bobl hŷn os oes angen unrhyw beth wedi'i ddiweddaru yn y cartref i atal tanau yn bwysig. Mae'r tai i gyd ar ystadau felly gallai mynd i dân tŷ yn gyflym wneud gwahaniaeth rhwng difrodi un tŷ neu lawer o dai. Roedd yn rhaid i Bowser ddod o Landrindod ar gyfer y tân yn fy nhŷ ac roedd y tŷ wedi mynd o fewn 30-45 munud. |
| Mae'n debyg bod angen i'r brif rôl fod yn Dân neu Lifogydd ac argyfwng anfeddygol arall |
| Llesiant criwiau |
| Achub pobl. |

| |
|---|
| ymateb i danau i achub bywydau bob amser yw'r brif flaenoriaeth |
| Dim rheswm heblaw na allwch roi mwy nag un yn y safle uchaf |
| Oherwydd ein bod yn byw mewn ardal wledig, mae'n bwysig cael y cwmpas y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu yn fwy nag addysgu ac atal |
| Rwy'n byw ger gorsaf yn ôl galw. Ar ôl siarad â'r criw lleol rwy'n siomedig bod sôn am beidio â hyfforddi diffoddwyr tân i gyd i'r un safon. Pe bai fy ngorsaf leol allan ar alwad a'm tŷ i ar dân, byddai'n rhaid i mi aros cryn dipyn o amser i'r injan dân nesaf efallai ac efallai na fydd wedi'i hyfforddi i fynd i mewn i'm tŷ a diffodd y tân. |
| Mae ymateb i argyfyngau risg bywyd yn flaenoriaeth |
| Sylwch fod pob un o'r uchod yn bwysig ond nid ydych wedi rhoi unrhyw ddewis i ddweud eu bod i gyd mor bwysig â'i gilydd gan ei fod yn dibynnu ar beth yw eich argyfwng |
| Mater o frys |
| Mae'r gwasanaeth tân yn ymatebol. Pan fydd eu hangen arnom maen nhw'n dod. Bydd damweiniau bob amser yn digwydd waeth pa mor wych yw mesurau ataliol. Mae angen i'r injan dân ymateb pan fydd y damweiniau hyn yn digwydd cyn gynted â phosibl. |
| Mae ymateb i alwadau risg bywyd yn flaenoriaeth |
| Sicrhau bod bywyd yn bwysig yn gyntaf a bod y gwasanaeth bob amser ar gael i gynorthwyo galwadau sy'n peryglu bywyd |
| Does dim ar goll - mae atal a diogelwch bob amser yn bwysig ac rwy'n teimlo'n eithaf cryf bod angen addysgu'r bobl sy'n achosi'r problemau neu y mae angen y gwasanaethau arnynt |
| Rydych yn wasanaeth tân ac achub, eich gwaith yw diffodd tanau ac achub pobl, yn amlwg |
| Mae yna lawer o broblemau ar y ffyrdd, damweiniau ffyrdd a llawer o lifogydd |
| Rwy'n credu eu bod i gyd yn wasanaethau angenrheidiol. Rwy'n credu bod y personél wedi'u hyfforddi'n a'u paratoi'n well i fynd i'r afael â thanau ond mae angen ystod eang o sgiliau yn ogystal â hyn. Po fwyaf o sgiliau sydd ganddynt, y gorau yw eu sefyllfa o fewn cymunedau lleol. |
| Dylai'r gwasanaeth tân fod yn ymateb yn bennaf i ddigwyddiadau posibl sy'n peryglu bywyd |
| Rwy'n credu eu bod nhw i gyd mor bwysig â'i gilydd ond doeddwn i ddim yn gallu ateb hynny! |
| Dyna fy ngwerthoedd, i wasanaethu'r gymuned. |
| Ymateb yw'r cliw er fy mod wedi dweud bod ymateb i anifeiliaid yn llai o gyfrifoldeb. Rwy'n teimlo bod helpu gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn dasg hanfodol oherwydd mewn rhai ardaloedd mae'r amser aros am ambiwlans a chymorth sy'n newid bywydau yn llawer rhy hir felly mae staff hyfforddedig y gwasanaeth tân wrth law a gallant fod yn wahaniaeth rhwng bywyd neu farwolaeth. |

| |
|---|
| Popeth uchod |
| Mae atal yn well na gweithredu, ond mae gweithredu yn achub bywydau |
| Blaenoriaethu achub bywyd dynol. Atal peryglon yn ail. Lles anifeiliaid yn drydydd. |
| Mae ymateb i dân yn hanfodol ac mae amser yn bwysig iawn |
| Mae cliw yn enw y gwasanaeth TÂN |
| Rwy'n credu ei bod yn anghywir rhoi o leiaf y 5 eitem gyntaf mewn rhestr o flaenoriaethau, maen nhw i gyd yr un mor bwysig |
| Mae'n rhaid i danau a damweiniau ffyrdd fod ar frig y rhestr, gyda llifogydd yn agos ar ei hôl hi oherwydd, yn bennaf oherwydd nad yw Cyngor Sir Powys fel petai'n gallu glanhau draeniau, mae hyn yn dod yn broblem llawer mwy nag o'r blaen. Dydw i ddim yn poeni am yr ochr addysg o bethau gan fod llawer o hynny'n synnwyr cyffredin. |
| Atal a diffodd tân yw'r prif bwrpas, er bod achub arbenigol fel damweiniau a llifogydd hefyd yn eu cylch gorchwyl. Mae WAST yn defnyddio'r gwasanaeth tân i gyrraedd targedau ond ni ddylai hyn fod ar draul ei allu i gyflawni ei brif rolau. |
| Tân ac achub yn bennaf ond mae'r holl bwyntiau hyn yn bwysig iawn ac mae angen mynd i'r afael â nhw. |
| Mae atal yn well na datrys. Mae hwn yn gwestiwn gwael iawn. |
| Dylai ymateb i ddigwyddiadau na all wasanaethau brys eraill ymdrin â nhw fod yn brif flaenoriaeth. Er bod digwyddiadau meddygol yn bwysig, mae gwasanaeth eisoes yn cael ei ddarparu ar gyfer hyn (WAST) ac ni ddylai eu pwysau fod yn gyfrifoldeb y gwasanaeth tân. Pwy sy'n mynd i ymateb i dân lleol o fewn radiws 10 munud i'r orsaf dân os ydyn nhw allan ar ddigwyddiad meddygol hir? Fyddwn i ddim eisiau aros ddwywaith yr amser pe bai fy nhŷ ar dân! |
| Rhaid i argyfyngau 999 sy'n peryglu bywyd fod yn flaenoriaeth o hyd. |
| Bydd achub bywyd/eiddo bob amser yn flaenoriaeth |
| Mewn ardal wledig heb eu cefnogaeth i ddamweiniau ffordd a chefnogi ambiwlansys mewn argyfwng byddai llawer mwy o farwolaethau yn digwydd. Mae'r gwasanaeth tân lleol yn anhygoel |
| Fy marn bersonol i |
| Mewn ardal wledig heb fawr o wasanaeth ambiwlans, maen nhw'n wir yn werth y byd! Niferoedd uchel o ddamweiniau ffordd yn yr ardal |
| Cadw pobl yn fyw yw'r flaenoriaeth uchaf |
| Mae hwnnw'n gwestiwn anodd - maen nhw i gyd yn bwysig a dylid eu hariannu yn briodol |
| Dim ond fy marn i am y drefn y dylai pob un fod ynddi. |
| Ddim yn siŵr |
| Yn nhrefn pwysigrwydd yn y gymuned |
| Dyna sut rwy'n deall beth ydyw. Rwy'n gwybod eu bod hefyd yn gwasanaethu fel ymatebwyr cyntaf. Rwy'n ddiolchgar iawn. Holiadur gwirion yn cadw neidio o gwmpas |

| |
|---|
| Rwy'n credu i ni mewn lleoliad mor wledig, mae'r angen am ymatebwyr cyntaf wedi dod yn wasanaeth mor hanfodol â'r elfen tân ac achub. |
| Achub bywydau yw’r pwysicaf a’r un mor bwysig yw atal. |
| Mae'r holl flaenoriaethau uchod yn hanfodol ac mae'n anodd eu graddio ar wahân i ddeall pa wasanaethau eraill sydd ar gael e.e. mae gennym lai o bresenoldeb Sant Ioan yn lleol, mae gennym gyfraddau cymorth a gwasanaeth ambiwlans gwael iawn, mae ein hambiwlans awyr wedi symud ymhellach i ffwrdd, rydym yn colli gwasanaethau mewn ysbytai ac mae hyd yn oed meddygfeydd teulu lleol yn brin o staff. Mae Gorsaf Dân Rhaeadr Gwy yn anghenraid llwyr i’w gadw yn yr ardal hon. |
| Y 5 uchaf yw'r cyfrifoldebau pwysicaf, ond rwy'n teimlo eu bod yn cwmpasu pob un o'r 8 ffactor i raddau helaeth iawn, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ond mae ganddyn nhw'r wybodaeth fwyaf i addysgu, hyfforddi a dangos i bobl eraill |
| Fel personél hyfforddedig, dylid treulio eu hamser yn gwneud yr hyn maen nhw'n cael eu hyfforddi i'w wneud. Gall unrhyw un wirio llwybrau tân ac ati |
| Rwy'n credu bod pob un ohonynt yn bwysig |
| Mae angen i chi ganolbwyntio ar yr argyfyngau a'r cymorth rydych chi’n ei ddarparu yna edrych ar yr eitemau eraill yn ail. Ni ddylech fod yn ymateb i larymau tân domestig os nad oes tân. A dylai WAST gael eu gwasanaethau eu hunain i ddelio â digwyddiadau meddygol oni bai bod angen cymorth mynediad arnynt. |
| Mae gwrthdrawiadau ar y ffordd yn digwydd llawer yn ardal yr a44/a470 |
| Mae'r A44 / A470 yn cael digwyddiad traffig ffordd bron bob penwythnos |
| Atal yw’r pwysicaf oll. |
| Fe wnes i roi blaenoriaeth i golled bywyd bosibl. |
| Rhaid i ddiffodd tân bob amser gael mwy o flaenoriaeth na'r holl weithgareddau eraill. |
| Er nad yw'n derfynol, rwy'n credu bod y drefn y gwnaethoch chi gyflwyno'r data ynddi’n crynhoi'n dda eu pwysicaf ar y brig. |
| Ni ddylai fod trefn.. Mae angen Gwasanaeth Tân ac Achub am ystod eang o resymau. Ni allaf ond tybio bod pwy bynnag a luniodd y rhestr wirion hon..... wel.... Yn wirioniaid. Ffyliaid. Pobl sydd heb syniad o gwbl beth sy'n digwydd yn y byd go iawn. |
| Rwyf wedi rhoi blaenoriaeth i ddigwyddiadau achub bywydau. |
| Mae amser yn allweddol ar gyfer gwrthdrawiadau ar y ffordd a thanau, felly mae cymorth lleol yn hollbwysig yn yr ymdrech hon. Yn ystod yr haf mae nifer y damweiniau beic modur yn warthus o uchel, ac yn cynyddu'n barhaus. Mae’r argyfwng costau byw yn gorfodi pobl i brynu eitemau trydanol 'rhad' neu ddefnyddio eitemau hŷn anniogel eto gan gynyddu'r risg |
| Cysylltiadau gwaith ieuenctid |
| Cynghori'r defnyddwyr |
| Tân uwchlaw popeth |
| Mae pob un o'r uchod yn rhannau pwysig o'r gwasanaeth tân |

| |
|---|
| Bywyd dynol yn gyntaf |
| Mae perygl sydd ar fin digwydd i fywyd yn bwysicach nag atal |
| Mewn ardal wledig ac anghysbell rydym yn dibynnu ar gael gwasanaeth mor agos i sicrhau ymateb i argyfyngau cyn gynted â phosibl |
| Profiad ar alwad yn fy ngorsaf |
| Maen nhw'n wasanaeth brys a dylid blaenoriaethu hynny nid yr agwedd addysg |
| Mae atal yn allweddol |
| Rhaid i unrhyw beth sy'n fygythiad i fywyd fod yn flaenoriaeth |
| Atal yw'r gorau ond ar ôl 2 rwy'n credu bod yr holl atebion yr un mor bwysig |
| Mae'r gwasanaeth tân yn mynd i danau, dyna beth sy'n bwysig, nid yw'r gwasanaeth ambiwlans yn diffodd tanau na'r heddlu ond mae'n ymddangos bod disgwyl i'r gwasanaeth tân wneud eu gwaith hwythau. Mae’r gwasanaeth ambiwlans dan bwysau gormodol oherwydd diffyg rheolaeth, nid yw'r heddlu mewn ardaloedd gwledig dan bwysau gormodol. Er bod gormod o Reolwyr ym mhob un o'r 3! |
| Methu nodi unrhyw beth sydd ar goll ond rwy'n credu bod atal yn rhan fawr o'u rôl a byddai hyn gobeithio yn golygu bod llai o alw am yr agweddau brys ar eu gwasanaethau. |
| Ni allaf roi’r uchod yn eu trefn oherwydd, yn sicr, mae'r pedwar cyntaf mor bwysig â'i gilydd ac mae'r lleill yn llai pwysig, ond dim ond ychydig. |
| Bydd y cyhoedd a mentrau masnachol yn ystyried bod ymateb yn cael blaenoriaeth uwch nag atal. Yn ogystal, oherwydd y lleoliad gwledig, bydd achub anifeiliaid / stoc yr un mor bwysig |
| Ymateb i argyfyngau tân a damweiniau yw'r pwysicaf |
| O'm profiad personol i yn fy ardal leol, rydym yn darparu dim ond yr adnoddau sy'n gallu delio â thân a llifogydd yn ddigon cyflym i liniaru'r risgiau a'r niwed posibl a achosir gan y mathau hyn o ddigwyddiadau. Mae cynorthwyo WAST wedi'i osod uwchlaw gwrthdrawiadau ar y ffordd oherwydd fel gwasanaeth rydym yn cynorthwyo mwy o achosion WAST na gwrthdrawiadau ar y ffordd ac mae gan y cyhoedd bellach fwy o ddisgwyliad i ni ddarparu cymorth pan fydd angen gofal meddygol brys ar eu hanwyliaid. |
| Diogelwch lleol |
| Cadw'r cyhoedd yn ddiogel |
| Rwy'n credu, er bod atal yn well na datrys, dylai'r cyhoedd ddal rhywfaint o gyfrifoldeb am ofalu amdano'i hun. Mewn ardal wledig lle mae'r ddarpariaeth ambiwlans yn wael iawn, mae gwaith partneriaeth i amddiffyn y gymuned yn helpu hyn. Mae'n wleidyddiaeth arwynebol o hyd ond un sy’n gweddu orau i argyfwng darparu gwasanaeth brys gwledig. Mae argyfyngau yn siarad drostynt eu hunain |
| Canolbwyntio ar faterion sylfaenol (acíwt), hyrwyddo mentrau o bwysigrwydd cymharol fach. |
| Atal sydd orau. Addysg hefyd. Mae ymateb brys yn hanfodol. |

| |
|---|
| Mae'r angen am ymateb cyflym yn hanfodol, yn enwedig gan fod yr ardal yn wledig, felly mae angen y gorsafoedd llai ar alwad |
| Oherwydd gallant helpu gyda thynnu neu adfer cerbydau |
| Mae atal tanau ac addysgu eraill yn bwysig iawn i atal unrhyw ddiffygion a allai ddigwydd |
| Mae'n amlwg nad yw hunan-ardystio yn gweithio. Mae caniatáu i bobl heb eu hyfforddi ddehongli rheoliadau tân, cynnal archwiliadau yn rysáit ar gyfer trychineb. Mae Tŵr Grenfell yn enghraifft dda. Mae hunanreoleiddio wedi costio llawer o fywydau. |
| Mae fy newis yn ymddangos yn rhesymegol i mi |
| Dylai hyfforddiant gweithredol fod yn flaenoriaeth |
| Mae ymateb meddygol ar gynnydd ac rwy'n credu y dylem fod yn helpu gydag ef |
| Y peth pwysicaf yw bod canolbarth a gorllewin Cymru ar gael ar gyfer tanau a damweiniau yn yr ardal hon gan fod amser yn allweddol |
| Fel gweithiwr yn y gwasanaeth tân dyma sut y byddwn yn blaenoriaethu ein hamser. |
| Maent yn ymwneud yn bennaf â sefyllfaoedd brys. |
| Dim byd |
| Anodd blaenoriaethu. |
| Byddwn i am gael criw tân ac injan i dân yn fy nhŷ cyn gynted â phosibl |
| Rwy'n credu ein bod ar adeg gyda chyfryngau cymdeithasol lle mae hysbysebu rhad mor effeithiol â chael adrannau diogelwch tân cartref. Gellid defnyddio gwasanaeth ar alwad i wneud y gwaith ar lawr gwlad lle bo angen! Mae gormod yn cael ei wneud am ddim gan y gwasanaeth tân o ran cyngor tân! Dylai landlordiaid ac adeiladau masnachol fod yn talu'n uniongyrchol i'r gwasanaeth tân am gyngor gan wneud y rhan hon o'r sefydliad yn broffidiol a'r help yn cymorthdalu ochr ymateb y sefydliad. |
| Ansicr |
| Mae atal yn well na datrys. |
| Rwy'n teimlo mai gwasanaethau tân ac achub (dynol) yw'r brif flaenoriaeth |
| Gwasanaeth ymateb brys sydd yma’n bennaf i helpu’r cyhoedd. |
| Mae ein hymateb yn hanfodol i achub bywyd ac eiddo |
| Dylai’r gwasanaeth flaenoriaethu ymateb i'n dyletswyddau statudol cyn helpu gwasanaethau eraill. |
| Y cyfrifoldebau pwysicaf yw achub bywydau a diogelu eiddo |
| Ymateb yw'r flaenoriaeth |
| Mae'r rhain i gyd yn bwysig ac mae’n anodd eu rhoi mewn trefn rifol |
| Yr ateb yw pob un ohonynt |
| Achub bywydau yw'r pwysicaf, felly diogelwch yn gyntaf ac yna ymateb i danau/damweiniau i achub bywydau (pobl ac anifeiliaid) |

| |
|---|
| Y marn i |
| Rhaid cael gwasanaeth ar gyfer delio â thanau a gwrthdrawiadau ar y ffordd |
| Rwy'n teimlo mai hyn yw'r drefn flaenoriaeth |
| Dim ond fy marn i ar beth ddylai'r blaenoriaethau fod ar gyfer unrhyw Wasanaeth Tân ac Achub |
| Tân a digwyddiadau ceir |
| Mae llawer o ddigwyddiadau yr wyf wedi'u gweld a chlywed tystiolaeth anecdotaidd o bwysigrwydd ymateb i ddigwyddiadau sy'n peryglu bywyd gan ein gwasanaeth lleol, a pha mor gyflym maen nhw'n gwneud hyn. |
| Rwy'n teimlo mai dyna'r drefn gywir |
| Rydym yn byw mewn ardal wledig ac mae amser ymateb ambiwlans yn hir iawn. Mae ein gwasanaeth ymateb cyntaf yn hanfodol yn Llanwrtyd |
| Rwy'n credu mai'r prif gyfrifoldebau yw'r pethau sy'n achosi'r risg uchaf i fywyd |
| Anodd graddio gan fod pob un o'r rhain yn rhan hanfodol o'r gwasanaethau a gynigir |
| Mae hwn yn gwestiwn mor anodd gan fod popeth y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn bwysig iawn.  Yn amlwg, mae ymateb i danau, damweiniau a llifogydd yn bwysig iawn ond hefyd cefnogi WAST o ystyried natur wledig ein hardal |
| Ystyriaf mai prif rôl GTACGC yw gwasanaeth ymatebwr cyntaf ac yn ail awdurdod rheoleiddio ac adnodd addysgol. Mae'r rhain i gyd yn bwysig iawn ac yn hanfodol. |
| Mae angen i wasanaethau bach, yn ôl galw fod ar gael ar gyfer y materion uniongyrchol lle mae perygl i fywyd. |
| Bywydau yn gyntaf ticio blychau olaf |
| Mae eitem 2 yn bwysig iawn yn ein hardal wledig lle mae amser ambiwlansys mor, mor wael |
| Mynd i ddigwyddiadau argyfwng ddylai fod y brif flaenoriaeth, yna addysgu'r cyhoedd i helpu i atal digwyddiadau felly. |
| Mae angen mawr am y gwasanaeth ambiwlans, ac maen nhw wedi'u hyfforddi |
| Achub bywydau yw'r flaenoriaeth |
| Mae helpu yn lliniaru'n gyflym unrhyw risg lle gallai fod colli bywyd neu ddifrod i eiddo. |
| Rydyn ni mor wledig maen nhw'n sylfaenol mewn tanau ond hefyd wrth gefnogi'r gwasanaeth ambiwlans. Heb ymatebwyr cyntaf byddwn wir yn gweld cynnydd mewn cyfraddau marwolaethau |
| Os nad oes gennym orsafoedd lleol yn gwneud y pethau hyn, bydd mwy o fywydau yn cael eu colli. |
| Mae potensial i lawer o bobl gael eu brifo os bydd digwyddiad mewn adeilad cyhoeddus. |
| Rwy'n credu y dylid blaenoriaethu unrhyw beth sy'n hanfodol i fywyd ac o ystyried bod WAST yn cael trafferth sylweddol yn enwedig mewn ardaloedd gwledig dylem gael eu hariannu i allu eu cefnogi'n well, mae llifogydd oherwydd stormydd mwy |

| |
|---|
| difrifol yn digwydd yn y DU yn dod yn fwy cyffredin. Mae'r gwaith GTB a DTC a'r newid mewn deunyddiau a ddefnyddir mewn eiddo newydd wedi helpu'n enfawr gyda thanau eiddo ond pan fyddant yn digwydd ac, yn fy mhrofiad i, maen nhw'n ddinistriol felly mae angen i ni allu ymateb a rheoli tanau eiddo hyd eithaf ein gallu ac achub bywydau y gellir eu hachub. |
| Mae atal yn well na datrys, ond nid yw bob amser yn gweithio |
| Rwy'n credu y dylid graddio blaenoriaethau yn nhrefn bygythiad i fywyd |
| Maent yn wasanaeth atal tân a cholli bywyd |
| Maen nhw'n esbonio eu hunain |
| Yn y pen draw, os bydd popeth arall yn methu, mae'n rhaid i ni gael ymateb effeithiol i argyfyngau |
| A'r hinsawdd sy'n newid rwy'n teimlo bod rôl y gwasanaeth yn newid, gyda chynnydd o 120% yn y galw am alwadau sy'n gysylltiedig â llifogydd, sy'n cael ei adlewyrchu yn yr hyfforddiant diweddar yng Ngorsaf Dân Tref-y-clawdd. |
| Agored iawn i niwed yn byw mewn ardaloedd gwledig, felly mae angen mwy o gymorth meddygol |
| Gallent fynd yn y naill drefn neu'r llall gan eu bod nhw i gyd yr un mor bwysig! |
| Rwy'n credu mai nhw yw ein cyfrifoldebau y mae angen i ni eu bodloni yn unol â disgwyliadau'r cyhoedd. |
| Mae rhai o'r materion hyn yn gysylltiedig. Mae addysg yn chwarae rhan enfawr mewn atal tân. Mae ymateb i lifogydd yn dod yn flaenoriaeth angenrheidiol i'r gwasanaeth yng ngoleuni llawer o ddigwyddiadau tywydd diweddar. |
| Mae pob un ohonynt yn bwysig fel yr ydych eisiau eu cael mewn blaenoriaeth. |
| Rwy'n credu bod y rheini'n cyd-fynd â chadw cymunedau'n ddiogel yn y Canolbarth a'r Gorllewin lle dylai fod yn canolbwyntio ar y bobl y mae'r gwasanaeth yn eu diogelu |
| Rwy'n credu bod rôl y Gwasanaeth Tân yn rôl eang a'i flaenoriaeth yw helpu'r cyhoedd gyda blaenoriaeth o achub bywydau |
| Hunanesboniadol |
| Mae atal ac ymateb i danau yn hollbwysig |
| Rwy'n credu ei bod hi'n bwysig ymateb i danau yn gyntaf |
| Mae'r uchod i gyd yn rolau pwysig i ddiffoddwyr tân |
| Maen nhw i gyd yn brif gyfrifoldebau, nid wyf yn teimlo y gellir eu rhestru yn nhrefn blaenoriaeth |
| Dylai'r flaenoriaeth fod ymateb i sefyllfaoedd lle mae bywyd mewn perygl - boed bywyd dynol neu anifail. Ar ôl hynny, atal a chydymffurfio. |
| Mae tanau, gwrthdrawiadau ar y ffordd a chynorthwyo ambiwlansys yn holl bwysig am fod amser yn allweddol o bosibl, gan olygu ei bod yn bwysig bod gan orsafoedd y galluoedd i ymdrin â hwy. |
| Mae atal ac addysg yn allweddol i'n Holl anghenion diogelwch |

| |
|---|
| Dylai archwilwyr a chyrff diogelwch eraill fod yn dod o hyd i amser i wirio bod busnesau yn dilyn y cod. Gadael amser i chi wneud gwaith mwy hyfforddedig ac ati fel diffodd tanau a helpu gyda gwrthdrawiadau ar y ffordd ac ati. |
| Dibynnir arnom i fod yn barod ac ymateb pan fydd argyfwng yn codi, mae'r cyhoedd mewn argyfwng eisiau ni yno cyn gynted ag y gallwn, felly mae amser ymateb yn hanfodol; os gofynnwch i rywun nad yw yn yr argyfwng hwnnw, mae'n debyg y bydd yn ochri ag atal. Ond yn y pen draw, os byddwch mewn trafferth mewn tân tŷ ac ati, rydych chi am i ni fynychu'r digwyddiad cyn gynted ag y gallwn. |
| Mae'r gwasanaeth tân yn wasanaeth brys yn bennaf; wedi'i hyfforddi i ddelio â phethau na all eraill ddelio â nhw. Os oes adnoddau sbâr i ganiatáu iddynt addysgu/cynnal archwiliadau, mae hynny'n wych. Os na, gadewch iddyn nhw ddelio â'r sefyllfaoedd peryglus, |
| Dim angen esboniad |
| Fy newis yw sut rwy'n bersonol yn gweld perygl i fywyd |
| Rhaid i'r gwasanaeth fod yn barod i ddelio â'r senario gwaethaf bob amser, byddai'r risg sy'n gysylltiedig â pheidio â sicrhau hyn yn niweidiol i ddiogelwch y cyhoedd a barn y cyhoedd am y gwasanaethau |
| Mae popeth a phawb yn bwysig. |
| Nhw yw'r unig rai sy'n gallu delio â thanau, yna cefnogi gwasanaethau eraill pan fydd eu harbenigedd yn ddefnyddiol, ac mae atal i gyd yn bwysig |
| Mae pawb yn meddwl bod rhywbeth yn bwysig |
| Tanau yw'r prif wasanaeth, ond mae llifogydd a damweiniau ffyrdd yr un mor bwysig |
| Rwy'n credu y dylai atal ac addysg fod yn uwch, ond mae fy ngorsaf leol bob amser yn brin o staff felly mae angen iddynt flaenoriaethu amddiffyn y cyhoedd |
| Nac ydw |
| Rwy'n tybio mai dyna'r drefn o ddigwyddiadau sy'n digwydd yn yr ardaloedd hyn. Yr unig beth arall sydd ar goll yw hyfforddi recriwtiaid newydd ac annog pobl ifanc mewn ysgolion lleol i ymuno â'r gwasanaeth tân. |
| Atal yw'r ateb gorau, ac fe ddywedwn i fod llawer o'r categorïau o'r un lefel |
| Mae'r blaenoriaethau'n gywir, yn fy marn i. |
| A'r hinsawdd yn newid, mae llifogydd wedi effeithio'n uniongyrchol arnom, ac rydym yn dibynnu ar ein gorsaf leol yn Nhref-y-clawdd i ymateb yn gyflym i argyfyngau sy'n gysylltiedig â llifogydd. |
| Dw i ddim yn credu y dylen nhw fod yn anfon gwasanaeth tân i sefyll dros hen bobl sydd wedi torri cluniau ac ati, pan nad oes ambiwlans, mae'n chwerthinllyd. |
| Ni ddylai achub anifeiliaid a llifogydd fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth tân. Mae diogelwch y cyhoedd mewn mannau cyhoeddus a neu adeiladau yn rhywbeth rwy'n disgwyl i'r gwasanaeth tân fod yn ei reoli gan fod hynny'n bolisi yswiriant sy'n lleihau risg a phroblemau i'r gwasanaeth o bosibl. O ystyried cyflwr y gwasanaeth ambiwlans |

| |
|---|
| Angen ymateb a hefyd gweithredu i atal / lleihau digwyddiadau, Maen nhw'n cydredeg, a’r ddau yn bwysig iawn |
| Gwneud popeth yn ddiogel |
| Y prif bryder yw pa mor ymwybodol yw pobl felly eu prif angen yw atal tanau |
| Eu prif dasg yw helpu i achub bywydau |
| Gyda diffyg ambiwlansys, mae'r heddlu, y criwiau tân yn yr ardal hon yn gwneud gwaith anhygoel, ar ychydig iawn o gyflog yn cael ei gadw. Mae hyn yn gost-effeithiol iawn i'r trethdalwyr, ac ni allwn fforddio cael unrhyw ostyngiad yn lefel y gwasanaethau a ddarperir. |
| Maen nhw'n wasanaeth ymateb brys. |
| Mae pobl a thanau yn flaenoriaeth |
| Dim rheswm arall na'r hyn sy'n bwysig i mi. |
| Maen nhw i gyd yn bwysig |
| Rwy'n credu mai amser ymateb i danau yw'r pwysicaf |
| Er fy mod yn credu bod addysg ar ddiogelwch yn bwysig, mae'r gwaith achub gwirioneddol yn rhywbeth y dylai gweithwyr proffesiynol hyfforddedig yn unig ei wneud. Gall addysg a dilysu rheoliadau gael eu cwblhau gan bobl nad ydynt wedi'u hyfforddi i achub, fodd bynnag, mae profiad bywyd go iawn o sefyllfaoedd da a drwg yn helpu pobl i ddeall a pharchu'r wybodaeth a roddir. |
| Mae tywydd anghyffredin yn dod yn fwy rheolaidd gyda'r angen i’r frigâd dân bwmpio dŵr a helpu i glirio'r ffyrdd. Mewn ardal wledig mae'r gwaith maen nhw'n ei wneud yn gyflym yn hanfodol |
| Tanau tŷ yw'r mwyaf cyffredin |
| Nid yw rhai eitemau yn gyfrifoldeb statudol felly maent wedi ymddangos yn is i lawr. |
| Mae atal tanau yn well nag ymateb |
| Rwy'n credu ei bod hi'n anodd graddio'r pwysigrwydd gan eu bod nhw yr un mor bwysig yn fy marn i. Mae addysgu'r gymuned am fesurau ataliol yn hanfodol |
| Doeddwn i ddim yn siŵr ai atal tân ac ati oedd fy ateb cyntaf. Mewn theori os gallwch atal tân neu ddamwain ac ati mae'n well na gorfod ymateb i ddigwyddiad. |
| Rwy'n credu mai dyna'r drefn gywir. A theimlaf mai gorsafoedd yn ôl galw yw calon y gwasanaeth |
| Mae tanau a gwrthdrawiadau ar y ffordd yn hanfodol am nad oes unrhyw wasanaethau eraill sy’n ymateb i’r digwyddiadau hyn. Rhaid i atal tanau a gwrthdrawiadau trwy ymgysylltu fod nesaf mewn pwysigrwydd oherwydd dylai hyn leihau nifer yr ymatebion. Mae llifogydd ac achub anifeiliaid yn bwysig ond dylai fod cyrff / sefydliadau eraill y llywodraeth sy'n gallu ymateb i'r rhain, ond nid oes yr adnodd ar hyn o bryd. |
| Achub bywydau yn gyntaf - atal digwyddiadau yn ail |

| |
|---|
| Mae angen iddynt flaenoriaethu delio â thanau ac argyfyngau eraill y maent wedi'u hyfforddi'n dda ar eu cyfer; gallai asiantaethau eraill ddelio â'r materion atal a gorfodi |
| Dyna'r drefn sy'n ymddangos i effeithio'n bennaf ar ein hardal ni |
| Yn fy marn i, rwy'n credu bod ymateb i bethau fel gwrthdrawiadau ar y ffordd, tanau a sefyllfaoedd gweithredol eraill yn bwysicaf ac yna eu hatal yn ôl pob tebyg yn ail flaenoriaeth? |
| Efallai y bydd angen cymorth ychwanegol ar unrhyw ddigwyddiad mawr ac maent yno i gynorthwyo. Mae hyn hefyd yn berthnasol i'r cymorth a roddir i fywyd yn ystod llifogydd. |
| Tanau a phobl yn gyntaf |
| Mae cymysgedd o'r uchod i gyd mewn gwirionedd. |
| Mae ymateb brys lleol, cyflym yn hanfodol |
| Mae atal yn well na datrys. |
| Blaenoriaethau cyhoeddus. |
| Mae ymateb i danau, llifogydd a gwrthdrawiadau ar y ffordd yn amlwg i fod yn onest o ystyried eu bod yn argyfyngau y gallai fod angen mwy o offer arbenigol arnynt. Rwy'n credu bod angen i'r RSPCA a chyrff tebyg wario llai ar reoli a mwy ar achub. Mae larymau tân domestig yn canu drwy'r amser am ddim mwy na thost yn llosgi, felly dydw i ddim yn credu ei bod yn ymarferol mynd allan i bob un. Mae unrhyw orfodi neu wirio gydag eiddo masnachol yn bennaf yn weinyddol ac yn gyfreithiol a dylai hynny gael ei wneud gan asiantaethau gorfodi a swyddogion iechyd a diogelwch |
| Mae gorsafoedd tân o gwmpas mwy na gorsafoedd ambiwlans, mae mwy o staff yn ymddangos ar injan dân, rydych chi'n cyrraedd yno ymhell cyn ambiwlansys ac mae gennych staff yng nghanol cymunedau |
| Addysgu oedolion a phlant am ragofalon tân a rôl y Gwasanaeth Tân gan gynnwys recriwtio a chyllid |
| Rydych chi'n wasanaeth tân. Dylech ymateb i danau a hyrwyddo diogelwch tân. Mae gennych rôl bwysig mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd a llifogydd. Dylid ariannu'r gwasanaeth ambiwlans yn briodol i ddarparu parafeddygon ac ambiwlansys. Ni ddylech fod yn rhan o gynnal GIG sydd heb ei ariannu’n ddigonol. Cyfrifoldeb perchennog y tŷ neu'r cymdogion yw ymateb i larwm tân,ac os canfyddir tân, byddant yn eich rhybuddio. |
| Dylai diogelu bywyd trwy ddiogelwch tân a rheoli llifogydd fod yn hollbwysig ar gyfer gorsaf dân. Dylai gwasanaeth ambiwlans gael ei ariannu a'i ddarparu ar wahân. |
| Dyma fy nehongliad o'u blaenoriaethau |
| Am eu bod yn wasanaeth tân ac achub |
| Hyd y gwn i, does dim byd ar goll.  Mae pob un yn bwysig, ond yn amlwg os oes bywyd dynol dan sylw, rhaid iddo fod ar frig y rhestr bob tro.  Byddaf yn dweud, nid |

| |
|---|
| wyf yn credu bod yr Ymatebwr Cyntaf yn cael ei ddefnyddio'n gywir gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru. |
| Mae tân a'i atal yn wasanaethau cymunedol hanfodol |
| Mae’n ymddangos mai tân a llifogydd yw’r ddau fath mwyaf cyffredin o ddigwyddiad yn yr ardal lle rwy’n byw. |
| O'r hyn rwy'n ei weld yn lleol. |
| Dylai 6 a 7 ddod o dan y cyngor, priffyrdd a dyfrffyrdd. Dylid bod modd codi tâl am 8 oni bai bod tân. |
| Ymateb i ddigwyddiadau yw eu prif rôl, ond mae addysgu busnesau ac aelwydydd ar atal tân yn allweddol. Ystyrir y cyngor hwn pan gaiff ei gyflwyno gan y gwasanaeth tân, gan ei fod yn cael ei barchu a'i adnabod yn y gymuned |
| Ychydig iawn o wybodaeth sydd gen i am yr hyn y mae'r gwasanaeth tân ac achub yn ei wneud mewn gwirionedd felly rwy'n rhagdybio’n syml ar sail y teitl "tân ac achub" |
| 1- Mae atal yn well na datrys. 2- Amlwg. 3- Mwy o bwyslais oherwydd methiant cynyddol ambiwlansys i gyrraedd mewn pryd. 4 i 8- Mater o flaenoriaeth ar y diwrnod. |
| Hyrwyddo ymwybyddiaeth o sut y dylai'r cyhoedd amddiffyn eu hunain a'u heiddo |
| Fel Gwasanaeth Tân, dylai tanau fod yn flaenoriaeth. Gall cefnogi'r gwasanaeth ambiwlans groesi drosodd i wrthdrawiadau ar y ffordd hefyd gan fod gwneud yr amgylchedd a'r claf yn ddiogel wrth aros i'r gweithwyr meddygol proffesiynol gyrraedd y fan a'r lle yn bwysig. Rydym wedi defnyddio ein criw tân lleol yn ein hardal pan gafodd gwestai yn aros yn ein llety gwyliau ataliad ar y galon. Bu’r wraig honno fyw o ganlyniad i'r criw lleol ond pe baem wedi aros am yr ambiwlans byddai'n debygol o fod wedi marw. Yn aml, os ydych chi'n byw mewn cymunedau gwledig bach, fel ninnau, y criw tân yw ein hymatebwyr cyntaf. |
| Mae tanau mynydd yn ailddigwydd bob blwyddyn. Demograffeg leol, mae gennym lawer o bobl hŷn yn yr ardal felly mae'r tîm yn cael ei anfon i gynorthwyo argyfyngau cardiaidd er enghraifft. Weithiau mewn lleoliadau sy'n anodd i gerbydau arferol eu cyrraedd. |
| Dyna’r drefn flaenoriaeth. |
| er fy mod yn credu y byddai'r gwasanaeth yn hoffi gwneud llawer mwy o 5 a 7 ar ôl iddynt ddelio â 1,2,3, a 4 mae'n debyg nad oes digon o adnoddau. |
| Rwy'n credu bod fy newis yn hunan-esboniadol, mewn gwirionedd mae'n anghenraid amlwg ac o bosibl yn achub bywydau. |
| Dyna beth rwy'n meddwl yw'r blaenoriaethau |
| Mae'r rhesymau yn seiliedig ar anghenion hanesyddol yn y gymuned wledig |
| Mewn cymuned wledig, mae amseroedd teithio yn hirach felly mae'n hanfodol cael y gwasanaeth tân yn Llanandras. Mae yna hefyd gyfran uwch o hen adeiladau o ddeunyddiau mwy llosgadwy ac mae difrod i wifrau trydanol trwy weithgarwch llygod, llygod mawr a gwiwerod hefyd yn fwy tebygol.) |
| Ymateb brys yw swyddogaeth graidd y gwasanaeth |

| |
|---|
| Byddwn wedi ticio pob bocs pe bawn i'n cael y cyfle |
| Wedi'u gosod yn ôl difrifoldeb a thebygolrwydd |
| Dim ond rhestr bersonol o flaenoriaethau |
| Rwy'n credu mai'r prif bwrpas yw diogelwch tân / diffodd tanau. Diogelu ein cymuned. |
| Rydych chi'n wasanaeth tân ac achub a ddylai ganolbwyntio ar yr hyn y mae'n ei ddweud yn yr enw. |
| Dylai Gwasanaeth Tân ac Achub ganolbwyntio ar fod yn wasanaeth tân ac achub! |
| Rwy'n eu rhoi yn y drefn hon gan mai dyma beth fyddwn i'n ei ddosbarthu fel pwysig ond hoffwn wybod rhagor am eu gwaith |
| Nac ydw |
| Mae atal yn well na datrys. |
| Ymateb i dân, helpu mewn gwrthdrawiadau cerbydau, a chynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans yw'r prif bethau y mae'r gwasanaeth tân yn eu gwneud. Mae hefyd yn bwysig atal tanau trwy addysg a thrwy archwiliadau diogelwch tân. |
| Rwy'n tybio bod atal yn brif flaenoriaeth, ac yna ymateb. Mae llifogydd yn broblem gynyddol yn ein hardal leol. |
| Mae atal yn well nag ar ôl y digwyddiad. |
| Achub bywydau yn gyntaf ac yna'r gweddill |
| Ar wahân i danau mae llifogydd yn dod yn beth real iawn |
| Yn gyntaf, achub bywydau, yna addysg i'r cyhoedd am atal |
| Dylai digwyddiadau mawr sy'n bygwth bywyd fod yn flaenoriaeth, ac yna digwyddiadau sy'n bygwth eiddo |
| Mae'r gwasanaeth tân yn bennaf ar gyfer tanau a damweiniau ffordd |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru Dyma beth rydych chi'n ei wneud. |
| Yma yn Nhref-y-clawdd yn y Canolbarth mae'r criw tân yn cael ei ddefnyddio mewn sawl ffordd. Am ein bod ni mor wledig ac ar wasgar. Mae tanau, gwrthdrawiadau ar y ffordd a chynorthwyo argyfyngau eraill yn hanfodol i’n gorsaf. Maent yn ymateb i argyfyngau meddygol hefyd. |
| Mae'r gwasanaeth tân yn wasanaeth brys galwad cyntaf. Yn bennaf er mwyn achub bywydau, eiddo rhag tanau, llifogydd a chemegau. |
| Popeth uchod. |
| Mae'r risg wedi newid |
| Mae'n ymwneud yn bennaf â blaenoriaethu risg i fywyd ac anafiadau, yn enwedig mewn argyfwng. |
| Cymorth brys gyda thanau yw busnes craidd y gwasanaeth tân. |
| Amh. |
| Rwy'n teimlo bod ymateb i ddamweiniau o bob math yn gyflym yn bwysig yn enwedig mewn ardaloedd lle mae gorsafoedd tân ar wasgar. |

| |
|---|
| Dylid cynnwys achub o uchder, cefnogi gwasanaethau eraill fel gwylwyr y glannau ac achub mynydd hefyd. |
| Trefn pwysigrwydd |
| Wedi drysu braidd gan yr un am larymau tân domestig. Tybed a yw'n golygu larwm ond dim tân ac os yw'n dân byddai'n dod o dan rif un sef tanau. Mae'r pethau ataliol yn gorffen ar y gwaelod ond rwy'n gwybod bod atal yn wirioneddol gost-effeithiol neu’n gallu bod, mae’n siŵr fy mod i’n cwestiynu a ddylid ariannu hynny’n wahanol. Yna sut i ystyried y cydbwysedd gwaith i bobl tân fel nad yw'r cyfan o ddwysedd uchel. Felly rwy'n anghytuno â fy mlaenoriaethau cychwynnol yn eithaf hawdd. Cael y perthnasoedd cymunedol i gefnogi pobl i fod yn synhwyrol sy’n bwysig, ac mae hynny’n golygu canolfan gymunedol leol a phobl sy’n gyfarwydd yn lleol sy’n gallu ein hannog a’n harwain. |
| Dylai sicrhau bod pobl a'r cyhoedd yn ddiogel fod yn brif flaenoriaeth ac mae helpu timau meddygol yn sicrhau hynny. |
| Mae ymateb i danau a gwrthdrawiadau ar y ffordd yn bwysig oherwydd ni fydd neb arall yn dod |
| Rwy'n teimlo bod yr holl opsiynau yn flaenoriaethau, mae'n anodd eu graddio. Yn y pen draw, addysg yw'r brif flaenoriaeth i atal unrhyw un o'r isod rhag digwydd ond fel a phan fyddant yn digwydd, maent i gyd yn cymryd blaenoriaeth i raddau. |
| Dyma fy marn bersonol am yr hyn sy’n flaenoriaethau |
| Blaenoriaeth yw diogelwch pobl; gwasanaeth brys yw hwn |
| . Y drefn flaenoriaeth i mi. |
| Mae gan Rif 1, 2, 3 yr un pwysiad, mae rhif 4 yn hanfodol i atal 1,2,3! |
| Parafeddyg / ymatebwr cyntaf ar gyfer argyfwng diffoddwr tân |
| Mae'n anodd bod yn siŵr gan eu bod i gyd yn bwysig |
| Popeth uchod |
| Mae’r cyfan yn bwysig |
| Mae diffoddwyr tân wedi’u hyfforddi i ymladd tanau. Mae'r cliw yn yr enw. Hwn ddylai fod eu prif bwrpas. |
| Y brif genhadaeth yw lliniaru dinistrio cartrefi gan dân, a diogelu anheddau cyfagos |
| Ymatebwyr cyntaf mewn achosion o ataliad ar y galon |
| Ein prif nod yw ymateb i argyfyngau a helpu pobl. Rwy'n credu y dylem fod yn gwneud mwy i gynorthwyo WAST |
| Mae pob un o'r uchod yn hollol bwysig |
| Achub bywydau mewn unrhyw ffordd |
| Mae pob un yn bwysig. |
| Mae atal ac addysg yn hanfodol i leihau tanau. |
| Risg i fywyd a phobl yw'r flaenoriaeth gyntaf |
| Wrth gwrs, mae atal yn well nag ymateb, fodd bynnag, ni fyddwch byth yn gallu deddfu nac atal pob digwyddiad.  Rydym yn gyntaf oll yn bolisi yswiriant drud i'n |

| |
|---|
| cymunedau. Mae gennym bartneriaid aml-asiantaeth a all helpu i ledaenu'r neges. Ni yw'r rheng flaen a'r unig ymateb i'n cymunedau ar gyfer y rhain, mae'n rhaid i ni fod yno pan fydd ein hangen arnyn nhw. Wrth gwrs, dylem gefnogi WAST lle gallwn cyn belled â'n bod yn gallu darparu ymateb. Gallwn barhau i annog y cyhoedd i fod yn fwy diogel ond mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn gwybod ein rolau ac yn gallu gweithredu'n effeithiol pan fyddwn yn cael ein galw. |
| Perygl uniongyrchol posibl i fywyd yn yr ychydig cyntaf |
| Mae'r gwasanaeth tân yn delio â thanau, achub a helpu pobl nid clytio'r gwasanaeth ambiwlans |
| Dylai'r gwasanaeth tân ganolbwyntio ar y gwasanaeth tân a'r hyn sy'n benodol iddo. Sicrhau ymateb gyda phobl sy'n gallu gwneud y gwaith sy'n ofynnol ganddynt. |
| Lleihau tanau a diogelwch y cyhoedd |
| Canolbwyntio ar fod yn wasanaeth tân effeithiol. Mae'r cyhoedd yn disgwyl injan dân pan fyddant yn ffonio 999 ac yn gofyn am un. |
| Prif rôl y gwasanaeth yw ymateb i argyfyngau yn effeithiol. Rydym yn wasanaeth brys ar ddiwedd y dydd. Dylai hyn fod yn flaenoriaeth i ni bob amser! Ymateb Meddygol yw cylch gwaith y gwasanaeth Ambiwlans, ni allaf eu dychmygu nhw'n dechrau diffodd tanau i ni felly pam rydyn ni'n edrych i wneud eu gwaith iddyn nhw? |
| Mae tanau ac achub yn ddyletswydd statudol |

Yn seiliedig ar yr atebion a gafwyd ynglŷn â blaenoriaethau GTACGC, nodwyd chwe thema gyffredin

1. **Ymateb Brys yw Swyddogaeth Graidd y Gwasanaeth:** Daeth consensws cryf i'r amlwg mai ymateb i argyfyngau, yn enwedig tanau a gwrthdrawiadau ar y ffordd, oedd prif rôl y Gwasanaeth. Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr fod prif gyfrifoldeb y Gwasanaeth yn seiliedig ar ddiogelu bywyd ac eiddo yn ystod digwyddiadau felly.
2. **Pwysigrwydd Atal:** Er bod ymateb brys yn cael ei ystyried yn brif flaenoriaeth, cafwyd cryn gydnabyddiaeth i bwysigrwydd mesurau ataliol. Dywedodd llawer o ymatebwyr y gall addysgu'r gymuned a gweithredu rheoliadau diogelwch tân leihau digwyddiadau, gan gefnogi'r syniad y dylid blaenoriaethu atal ochr yn ochr ag ymateb i argyfyngau.
3. **Cymorth Meddygol:** Amlygodd nifer o ymatebwyr rôl y Gwasanaeth wrth gefnogi argyfyngau meddygol a chynorthwyo asiantaethau eraill, fel Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru (WAST). Dywedodd ymatebwyr fod y Gwasanaeth mewn rhai ardaloedd yn aml yn ymgymryd â rolau ymatebwyr cyntaf i helpu i achub bywydau, yn enwedig mewn lleoliadau gwledig lle gall amseroedd ymateb fod yn allweddol.
4. **Cymhlethdod Anghenion y Gymuned:** Roedd cydnabyddiaeth bod holl rolau GTACGC, gan gynnwys addysg, atal, ac ymateb brys, yn unedig. Dadleuodd ymatebwyr ei bod yn heriol graddio'r blaenoriaethau hyn gan fod anghenion y

gymuned yn amrywio, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae tanau, llifogydd ac argyfyngau eraill yn gyffredin.

5. **Adnoddau a Chyllid:** Roedd llawer o sylwadau a gafwyd yn tanlinellu'r angen am adnoddau a chyllid digonol i sicrhau bod y Gwasanaeth yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau yn effeithiol. Mynegodd ymatebwyr bryder y gallai unrhyw newidiadau a wneir i adnoddau neu Orsafoedd Tân leihau gallu'r Gwasanaeth i ymateb yn brydlon i argyfyngau neu gyflawni rolau ataliol.
6. **Ymgysylltu ac Ymwybyddiaeth Gymunedol:** Pwysleisiodd ymatebwyr arwyddocâd meithrin cysylltiadau cymunedol cryf a chynyddu ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch diogelwch tân a pharodrwydd am argyfwng. Roedd llawer o'r ymatebwyr yn credu y gallai arfogi'r gymuned â gwybodaeth helpu i liniaru argyfyngau, gan dynnu sylw at rôl ddeuol addysg mewn atal ac ymateb i argyfwng.

I grynhoi, er bod y prif ffocws ar ymateb i argyfwng, roedd cydnabyddiaeth glir o gydgysylltiad gwahanol wasanaethau, yr angen am fesurau ataliol, a gwerth ymgysylltu â'r gymuned wrth gyflawni diogelwch cyffredinol.

## Cwestiwn 5: Yn eich barn chi, pa mor bwysig yw hi i Wasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ganolbwyntio ar y meysydd canlynol? **(Gofynnwyd i'r ymatebwyr eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth).**




O'r **667 o ymatebion** a gafwyd, roedd y 3 maes ffocws y teimlai ymatebwyr y dylai GTACGC ganolbwyntio arnynt yn cynnwys amseroedd ymateb, mentrau atal

(Diogelwch Cymunedol) a chefnogaeth i unigolion agored i niwed (e.e. yr henoed neu'r anabl).

| **Esboniwch y rhesymau dros eich dewis yng nghwestiwn 5. Oes unrhyw beth ar goll, yn eich barn chi? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
| --- |
| Unwaith eto, mae nifer o'r dewisiadau uchod yr un mor bwysig, ond nid yw'r cwestiwn yn caniatáu ar gyfer yr ateb hwn. |
| Maen nhw i gyd yn bwysig. Dylid croesawu unrhyw dechnoleg newydd sy'n gallu gwneud y gwasanaeth yn fwy effeithlon. |
| Mae llawer o sefydliadau partner yn canolbwyntio'n uniongyrchol ar gymorth cymunedol felly dylem ategu hynny ond nid ei flaenoriaethu. Amseroedd ymateb a'r gallu i ymateb mewn ffordd ddiogel, effeithiol a modern yw'r flaenoriaeth, yn enwedig trwy gael yr adnoddau CYWIR yn y lleoedd CYWIR. Dylai strwythuro hynny fod yn effeithlon ond hyblyg. |
| Rydw i wedi rhoi amseroedd ymateb yn olaf, gan fod ein hamseroedd ymateb eisoes yn dda. Rwy'n credu efallai bod iechyd meddwl yn un mawr sydd ar goll o'r rhestr hon. Mae'n rhywbeth sy'n effeithio ar bawb o fewn y Gwasanaeth, yn enwedig yn weithredol, ond hefyd dim ond yn fewnol y caiff ei ystyried byth. |
| Mae'r ymateb i unrhyw argyfwng yn cael ei leihau gydag ymateb cyflym. Mae cadw diffoddwr tân lleol mewn ardaloedd gwledig gyda'r cerbydau mynediad cywir yn allweddol i ardal wledig fel Powys |
| Mae estyn allan a gweithio gydag asiantaethau allweddol yn allweddol i gynllunio a diogelu llwyddiannus yn ein cymunedau |
| Mae gwella gallu ymateb y gwasanaeth tân yn flaenoriaeth |
| Diogelwch yw'r prif ffocws uwchlaw popeth arall |
| Amh. |
| Gyda'r holl dân sy'n ymwneud â Batris mae angen ymateb ar unwaith arnom |
| Os yw amseroedd ymateb yn hollbwysig dylai popeth arall ddisgyn i’w le. H.y. os yw’n hysbys bod ffordd benodol yn dueddol o gael llifogydd, bydd gwaredu’r achos yn gwneud amseroedd ymateb yn gyflymach. Stopiwch roi ideoleg amgylcheddol dros synnwyr cyffredin |
| Yr. Prif gyfrifoldeb y gwasanaeth tân yw diogelu bywyd a diogelu'r cyhoedd. |
| Gan fod llawer o gartrefi’n wledig, mae ymateb cyflym yn hanfodol |
| Rwy'n credu bod atebolrwydd yn bwysig, felly mae arolygu Busnesau yn bwysig iawn. Dim ond hyn a hyn y bydd deddfwriaeth yn ei wneud, os nad oes archwiliadau. |
| Helpu'r cyhoedd yn effeithlon yw eich prif rôl |
| Dylid blaenoriaethu amseroedd ymateb a gwella ymateb gweithredol gan ei fod yn argyfwng a hanfodion y GTA. |

| |
|---|
| Rwyf wedi gosod 'parodrwydd am newid hinsawdd' yn olaf gan fod hyn yn nonsens llwyr. Pe na bai'r tywydd yn cael ei gamdrafod, ni fyddem yn gweld y cynnydd dirgel mewn llifogydd, tanau 'gwyllt' ac ati. Popeth am drethi gwyrdd - nonsens |
| Mae'r 20mya wedi cael effaith ar amseroedd ymateb ac mae staff rhan-amser yn cael trafferth cyrraedd yr orsaf mewn pryd, ac mae'r ffaith bod y traffig yn mynd yn arafach a phobl heb wybod sut i yrru bellach yn effeithio ar y gwasanaeth cyfan. |
| Gwasanaeth achub yn bennaf |
| Pan fydd risg uniongyrchol fel tân neu ddamwain car, dyna pryd mae angen y timau tân. Daw risg uniongyrchol o flaen popeth arall. Dylent baratoi rhag ofn argyfwng, mae pethau y tu hwnt i hyn yn bwysig ond yn amlwg yn eilradd gan nad oes perygl uniongyrchol. |
| Yn debyg i'r uchod, mae atal yn rhatach na datrys problem ar ôl iddi ddechrau ac mae cryfhau partneriaethau yn ymddangos fel rhywbeth y gellir ei wneud ar ochr yr opsiynau eraill |
| Gweler fy ateb i gwestiwn 7 |
| Wrth siarad â ffrindiau sy'n gweithio yn GTADC, mae mwy o amser bellach yn cael ei dreulio ar ymateb i ddigwyddiadau a achosir gan ddigwyddiadau tywydd eithafol gan gynnwys damweiniau ffordd a achosir gan dywydd gwael. |
| Mae amser ymateb yn hanfodol |
| Yr un ateb â chwestiwn 7 |
| Rwy'n credu mai argyfyngau fyddai'r pwysicaf |
| Mae cefnogi unigolion ar ôl digwyddiadau damwain ar goll |
| Amh. |
| Hyn a fydd yn cael yr ymdrech orau i achub bywyd dynol gobeithio |
| Mae'n rhaid ymateb |
| Mae'n rhaid i ni gynnal pen busnes ein busnes sef ymateb. Pan fydd yr elfen honno wedi'i chwmpasu gennym, yna gallwn symud ymlaen. Fodd bynnag, mae rheoli newid yn allweddol. |
| Amh. |
| anodd gwahanu'r prif nodau ond mae pob un ohonynt yn bwysig |
| Pan fydd wir eich angen, fel pob gwasanaeth brys, mae eich angen nawr, nid ymhen awr neu ddwy. Gadewch i eraill wneud y gwaith arolygu ac asiantaethau eraill ofalu amdanynt eu hunain |
| Byw mewn ardal wledig. Gall amseroedd ymateb fod yn hir ac yn frawychus, |
| Nid yw amseroedd ymateb, yn fy marn i, ar hyn o bryd ar lefel fel preswylydd y byddwn i'n ei disgwyl gan wasanaeth brys ac mae'r dechnoleg a ddefnyddir i rybuddio a rheoli ar alwad wedi dyddio ac yn wael |
| Mae eiliadau'n achub bywydau a, gyda'r hinsawdd sy'n newid yn barhaus, rwy'n credu bod angen i'n gwasanaeth tân fod yn barod. |
| Mae'n werth buddsoddi yn unrhyw beth y gall technoleg ei gyfrannu i wella tactegau a chadw ein diffoddwyr tân yn ddiogel. |

| |
|---|
| Mae atal yn well na datrys. |
| Mae angen i injans tân yn y rhan hon o'r sir allu llywio drwy ffyrdd bach a mynediad tynn. |
| Lles diffoddwyr tân |
| Cadwch bethau'n syml gyda llai o weinyddiaeth. |
| ymateb cyflymaf posibl i achub bywydau |
| Unwaith eto methu rhoi mwy nag un yn y safle uchaf |
| Ynysu ardaloedd gwledig, nid sefydliad addysgu |
| Rôl gwasanaeth brys yw mynd allan at argyfyngau yn gyflym ac yn effeithlon pan fyddant yn codi.  Nid eu gwaith nhw yw bod yn weithiwr cymdeithasol. Os oes gen i argyfwng, rydw i am i injan dân gyrraedd cyn gynted â phosibl. |
| Mae amseroedd ymateb cyflym a'r offer diweddaraf yn flaenoriaeth uchel |
| Mae amseroedd ymateb yn bwysig iawn yng nghefn gwlad canolbarth Cymru |
| Yn seiliedig ar flaenoriaeth |
| Ymateb y Gwasanaethau Brys. Eu prif orchwyl yw ymateb i'r cyhoedd mewn angen brys. Mae hyn yn flaenoriaeth. Nid yw atal bob amser yn bosibl, er ei fod yn bwysig allwch chi byth atal pob damwain yn y cyhoedd waeth pa adnoddau sy'n cael eu taflu ato. Mae ymateb bob amser yn dod yn gyntaf. |
| Rhif un yw ymateb i danau sy'n peryglu bywyd, ac mae'n hanfodol o ran amser, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig y mae llifogydd wedi effeithio arnynt lle mae cymunedau'n aml yn cael eu torri ymaith gan lifddyfroedd gan atal cymorth gan orsafoedd allanol. |
| Rwy'n teimlo bod angen gofal i'r henoed sydd yn y gorffennol wedi rhoi yn ôl i'r system hon yn hytrach na'r rhai sy'n cymryd allan ein hytrach na rhoi i mewn - a minnau'n ferch i ddau riant sydd yn eu 80au |
| Rydyn ni eisiau ymateb cyflym i dân neu ddamwain |
| Rwy'n credu y gallai unrhyw un sydd â hanner cell ymennydd weld mai'r peth pwysicaf i'r cyhoedd yw amseroedd ymateb i unrhyw wasanaeth brys |
| Mae'r cyfan mor bwysig â'i gilydd ond methu rhoi hynny |
| safbwyntiau personol |
| A minnau'n byw mewn ardal wledig ac mewn cymuned sy'n heneiddio, rwy'n teimlo y dylem fod yn gymaint o flaenoriaeth ag ardaloedd eraill. Mae addysgu busnesau a datblygwyr newydd hefyd yn eithaf blaenoriaeth. |
| Popeth uchod |
| Ymateb i ddigwyddiadau sy'n peryglu bywyd. Atal yr uchod.  Gallai asiantaethau eraill gefnogi pobl agored i niwed. |
| Mae amser ymateb unwaith eto yn bwysig iawn |
| Canolbwyntio ar eich staff |
| Ffordd well o ddewis. Mae'n hunllef symud yr opsiynau o gwmpas |

| |
|---|
| Sicrhau bod pob gorsaf wedi'i chyfarparu ac yn gallu delio â phob senario ac achos. |
| Mae amseroedd ymateb yn hanfodol gan y gall hynny olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth. Mae defnyddio technoleg newydd yn iawn os yw'n gwella effeithlonrwydd, tra byddai archwilio cyfleusterau busnes i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith yn diogelu'r busnesau a'r gweithwyr hynny. Ym mhen arall y siart, dylai 'Cryfhau partneriaethau ag asiantaethau allweddol' fod yn ganiataol. |
| Pwysig iawn |
| Mae trefn yn amherthnasol! Dylid cwmpasu'r cyfan. |
| Dylai amseroedd ymateb barhau i fod y flaenoriaeth uchaf. |
| Maent yn gyflym ac oherwydd lleoliad gerllaw yn achub bywydau. |
| Y marn i |
| Mae'r amseroedd ymateb mor bwysig |
| Mae achub bywydau yn flaenoriaeth ac yna paratoi ar gyfer bygythiadau yn y dyfodol |
| Unwaith eto, mae pob un yn bwysig - byddai rhai yn asiantaethau eraill a dylid defnyddio arian cyhoeddus yn ddoeth, nid sefydliadau sy'n ceisio bod yn bopeth i bawb. |
| Unwaith eto dim ond fy marn i, nid wyf yn arbenigwr. |
| Ddim yn siŵr |
| Nid wyf wedi gweld yr adroddiad diwethaf felly nid wyf yn ymwybodol o resymeg y blaenoriaethau a ddisgwylir. Nid oes gennym unrhyw ddatblygiad tai newydd yn ein hardal, felly mae hynny'n mynd yn agos at y gwaelod. |
| Mewn sir wledig mae amseroedd ymateb yn bwysig iawn pan allai'r tîm fod filltiroedd i ffwrdd o ddigwyddiad |
| Dylai diogelwch cymunedol fod yn hollbwysig, mae perthynas dda â phob gwasanaeth arall yn hanfodol i gyflawni unrhyw amcanion |
| Mae amser ymateb yn bwysig mewn ardaloedd gwledig. Mae'r gwelliannau mewn technoleg yn bwysig gyda datblygiad o fewn y gwasanaeth. Mae angen iddynt hefyd fod yn barod ar gyfer argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, a gallant amrywio a newid mor gyflym |
| Dylech flaenoriaethu argyfyngau, ddim yn siŵr pam mae henoed/yr anabl yma - os yw hynny'n gysylltiedig â’r elfen feddygol, y GIG ddylai ymchwilio iddo, stopiwch estyn y gwasanaeth tân ac achub. |
| Gwaredu gorsaf dân leol mewn ardal lle mae amseroedd ymateb yn hanfodol oherwydd y lleoliad. |
| Mae pob un yn bwysig. |
| Mewn ardaloedd gwledig mae amseroedd ymateb yn allweddol |
| Mae cyflymder i ymateb yn hanfodol. |
| Methu meddwl am unrhyw beth sydd ar goll |

| |
|---|
| A minnau'n ddiffoddwr tân ... Mae amser ymateb yn allweddol. |
| Unwaith eto, gall amseroedd ymateb cyflym achub bywydau mewn tanau a llifogydd, felly'r flaenoriaeth |
| Gyda llai o bersonél/offer mae angen gweithio yn wahanol - fodd bynnag, bydd angen i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r rhan y mae'n rhaid iddo ei chwarae yn niogelwch eraill |
| Mae gwrthdrawiadau ar y ffordd gyda beiciau modur yn yr haf ar lefelau gwirion ac yn cynyddu. Mae'r argyfwng costau byw yn achosi defnyddio eitemau trydanol anniogel a thorri corneli eto, gan gynyddu'r risg o danau. |
| Rwy'n teimlo mai amseroedd ymateb yw'r pwysicaf |
| Diogelwch cymunedol ym mhob agwedd. Tân, gwrthdrawiadau ar y ffordd, llifogydd ac ati |
| Fy mhrofiad i - mae eiliadau'n gwneud gwahaniaeth |
| Mae cyflymder ac effeithlonrwydd diffodd tân yn flaenoriaeth. Dylai asiantaeth arall fynd i'r afael â risgiau tai fel rhan o geisiadau cynllunio |
| Tynnu sylw at bwysigrwydd cyrraedd argyfyngau mewn ardaloedd gwledig |
| Profiad gyda digwyddiadau |
| Yn arbennig o bwysig i gymunedau gwledig |
| Mae'r hinsawdd yn newid. Mwy o lifogydd a mwy o danau. Mae angen i ni fod yn barod. Mae angen i ni groesawu technolegau newydd i ymladd y frwydr hon |
| Mae POB un o'r uchod bron yn gyfartal o ran pwysigrwydd |
| Er fy mod yn credu bod llifogydd a thanau gwyllt yn bwysig, rwyf ychydig yn flin at yr awgrym bod y rhain yn digwydd oherwydd newid yn yr hinsawdd yn unig |
| Mewn ardaloedd gwledig mae gorsafoedd tân yn brin iawn. Os oes tân yn rhywle, mae'n debygol y bydd yn rhaid i'r criw deithio cryn bellter i gyrraedd yno ar ffyrdd bach felly ni allant fynd mor gyflym ag y gallant yng nghanol tref, er enghraifft. Nid yw criwiau ambiwlans na'r heddlu yn diffodd tanau. Dim ond criwiau tân sydd â'r gallu hwnnw, ond mae disgwyl i ddiffoddwyr tân fynd i argyfyngau meddygol (hyd y deallaf). Mae angen ein gwasanaeth tân arnom fel mae angen ein gwasanaethau ambiwlans a'n heddlu arnom, a phob un yn gwneud ei waith ei hun! |
| Fel y dywedais yn fy sylw diwethaf, byddai'r agenda atal yn cwtogi ar y galwadau brys, gobeithio. |
| Mae hwnnw'n gwestiwn chwerthinllyd, mae'n bwysig eu bod yn ymateb cyn gynted ag y gallant beth bynnag yw'r sefyllfa ... |
| Cadw pobl yn ddiogel |
| Mae diffyg rhai adnoddau allweddol oherwydd criwio yn golygu bod amseroedd ymateb i ddigwyddiadau yn annigonol i ddarparu'r buddion y maent yn eu cynnig h.y. nid yw bowserau dŵr ar gael yn rhwydd neu fel Safonau Anfon Allan Gosodedig i danau eiddo mwy gwledig sy'n aml yn arwain at waethygu'r digwyddiadau hyn. Byddai cryfhau partneriaethau ag asiantaethau eraill hefyd yn fuddiol gan fy mod yn gweld bod y gwasanaeth yn destun llawer o graffu ar gyfer digwyddiadau meddygol lle teimla'r cyhoedd y gallai ein presenoldeb fod wedi |

| |
|---|
| cyfrannu at ganlyniad mwy cadarnhaol neu o leiaf yn teimlo bod y darparwr wedi cael y gwasanaeth gorau ar gael iddynt ar y pryd (gwasanaeth ambiwlans yn methu dod neu oedi cyn dod). |
| Angen lleol am ddiogelwch |
| Hanfodol i gymuned sy'n heneiddio |
| Unwaith eto, mae angen cynnal cymorth uniongyrchol wrth weithio tuag at "fentrau". Nid oes digon o gyllid i ddilyn delfrydau felly tan hynny diogelwch yr hyn sydd gennych |
| Dylai cydymffurfiaeth diogelwch busnes fod yn fater i'r cwmnïau, a dylent dderbyn cyfrifoldeb a sicrhau cydymffurfiaeth |
| Sicrhau blaenoriaethau hanfodol a lleihau dyblygu. |
| Dylai'r GIG wneud y rhain |
| Mae amseroedd ymateb yn allweddol, os oes argyfwng bydd angen iddynt ymateb cyn gynted â phosibl |
| Mae ymateb cyflym personél hyfforddedig sydd wedi'u paratoi'n dda yn hanfodol mewn unrhyw ddigwyddiad. Mae tanau yn gyffredinol yn tyfu'n fwy cyflym, ac mae angen ymateb cyflym iawn ar bobl a anafwyd yn ddifrifol, sy'n aml yn sownd, mewn gwrthdrawiadau ar y ffordd. Yn sicr, dyna yw prif flaenoriaeth y gwasanaeth Tân ac Achub. Mae angen y cyllid cywir arnynt i sicrhau eu bod wedi'u hyfforddi'n dda ac yn effeithlon yn eu dyletswydd i amddiffyn bywydau. |
| Fel yn 8 |
| Dim byd ar goll |
| Mae atal yn allweddol i ni |
| Mae Amser Ymateb yn ddifrifol iawn ac yn hanfodol; nid yw'n dda os oes gennych dân a bod y criw agosaf awr i ffwrdd, gan roi bywydau mewn perygl |
| yn syml, beth dw i'n ei feddwl. |
| Personol |
| Anodd blaenoriaethu, unwaith eto. |
| Mae unrhyw dechnoleg newydd a fydd yn achub rhagor o fywydau byth yn amlwg yn flaenoriaeth |
| Os bydd arian yn mynd yn brin, dylid neilltuo'r gwasanaethau ymateb rheng flaen, a dylid torri'r gwaith ataliol |
| Rwy'n credu bod cefnogi'r rhai mwyaf agored i niwed yn bwysig. |
| Mae amseroedd ymateb yn bwysig iawn mewn ardaloedd gwledig yn enwedig, a dim ond gorsafoedd yn ôl galw gennym. |
| Unwaith eto, rwy'n credu bod diogelu'r cyhoedd yn cael blaenoriaeth dros yr argyfwng hinsawdd, partneriaethau ac ati. |
| Mae amseroedd ymateb yn allweddol i unrhyw ddamwain. Rwy'n gwybod ein bod yn byw mewn ardal wledig, felly maen nhw'n cymryd mwy o amser |
| Mae paratoi yn allweddol, mae angen i'r asedau cywir fod yn y lle cywir |

| |
|---|
| Rwy'n credu y dylai ymateb ac atal fod yn flaenoriaeth. |
| Ymateb yw'r flaenoriaeth |
| Rwy'n credu bod ymateb cyflym yn achub bywydau |
| Amseroedd ymateb |
| Mae'r rhain i gyd yn bwysig, ond rwy'n credu ei bod yn allweddol bod yno mewn da bryd pan fydd argyfwng a chael y staff, yr offer a'r adnoddau sydd eu hangen |
| O ystyried y dewisiadau, rwy'n credu mai dyma sut y dylid eu blaenoriaethu |
| Yr hyn sy'n bwysig yw pa mor gyflym y gallant fod yno pan fydd eu hangen, a dyna pam mae diffoddwyr tân rhan-amser lleol yn hollol hanfodol mewn cymunedau gwledig. |
| Fy nheimladau |
| Rwy'n credu bod datblygu eu hymateb brys a defnyddio technegau modern yn flaenoriaeth yn anad dim |
| Unwaith eto, anodd iawn i'w ateb. Rwyf wedi rhoi defnyddio technoleg newydd yn weddol uchel gan fod gan hyn botensial i arbed adnoddau |
| Mae ymateb cyflym yn hanfodol i gael canlyniad buddiol. Bydd oedi mewn ymateb yn arwain at ganlyniadau mwy difrifol fel y gellir ei weld yn y GIG. Rôl ddeuol |
| Pobl yn gyntaf |
| Mae annog recriwtio ar goll. Rwy'n siŵr y gall hynny fod yn broblem mewn ardaloedd gwledig. |
| Wel, mae amseroedd ymateb yn bwysig a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed. Gwneud yn siŵr bod y cyhoedd a chwmnïau adeiladu yn cael cymorth i wneud yn siŵr bod unrhyw broblemau llifogydd posibl yn cael eu hystyried a'u datrys cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. |
| Stopio llethu gwasanaethau lleol ag adeiladu diangen dim ond i godi arian ar gyfer poced y cyngor |
| Gosod costau a chodi tâl ar fusnesau am archwiliadau diogelwch tân a chodi dirwy ar ad-droseddwyr. Dim pawb. |
| Mae Llandrindod yn ehangu gydag ystadau tai newydd.  Gall y twf hwn roi mwy o bwysau ar y gwasanaeth tân. |
| Mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod yn cyrraedd digwyddiadau mewn amser rhesymol, o ystyried yr ardaloedd gwledig gydag argaeledd ar rai gorsafoedd yn wael, mae gorsafoedd eraill yn aml yn teithio 20/30 munud i ymateb i'w hardal. Mae hyn yn ei gwneud hi'n llawer anoddach i'r criw sy'n mynd allan reoli beth bynnag yw'r digwyddiad oherwydd ei fod eisoes wedi gwaethygu ers yr alwad wreiddiol. Mae parodrwydd ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i mi yn un mawr gan ein bod wedi cael llawer o lifogydd a gall y cyngor wneud mwy na ni o ran dargyfeirio dŵr, gallwn ei bwmpio allan o eiddo, ond pan mae'r dŵr yn llifo trwy eiddo nid yw hynny'n llawer o help. Yr un peth ar gyfer tanau glaswellt a choetir, dylem i gyd gael chwythwr dail (am gost wrth gwrs) gan fod hyn yn helpu o ddifrif gyda digwyddiad ac yn lleihau'r tân yn fawr. Byddai technoleg newydd yn wych ond mae'r gost sy'n gysylltiedig â hynny a'r prosesau cymhleth ar gyfer offer / |

| |
|---|
| meddalwedd i fynd yn fyw yn y gwasanaeth tân wedi dod yn eithafol. Mae mentrau atal ar y gymuned yn beth amlwg i mi; roedd arfer bod llawer mwy o ymgysylltiad cymunedol ond oherwydd cost mae hynny wedi diflannu. Mae cryfhau partneriaethau ag asiantaethau allweddol yn un rwy'n teimlo sy’n rhaid i ni ei wneud mewn ardal wledig, mae'r gwasanaeth ambiwlans yn brin ac mae troseddau defodol yn parhau i godi oherwydd diffyg presenoldeb yr heddlu. Mae gan CNC lawer o bwerau ar ddigwyddiadau amgylcheddol ond mae'n anodd mynd allan i ddigwyddiadau am gymorth. Fel y soniwyd o'r blaen a WAST ddim ar gael (roedd fy nghymydog wedi aros 17 awr yr wythnos diwethaf tra'n cael ffibriliad atrïaidd) mae angen i'r llywodraeth gefnogi gwasanaeth tân CGC gyda mwy o gyllid (sy’n anodd, rwy'n gwybod) a hyfforddiant i fynd allan at ddigwyddiadau meddygol gyda hyder, gallu a’r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus ar gludo pobl i ysbytai. |
| Dylai ddweud parodrwydd ar gyfer digwyddiadau gweithredol, pob digwyddiad gweithredol |
| Dylai amser ymateb bob amser fod y flaenoriaeth uchaf, mae munudau yn achub bywydau |
| Bydd newid yn yr hinsawdd yn dod â chynnydd mawr mewn tanau a llifogydd - mwy na nawr ac mae angen cynllunio ar ei gyfer |
| Yr un peth |
| Yn y pen draw, mae angen ymateb effeithiol arnom os bydd popeth arall yn methu |
| Dydw i ddim wedi eu newid gan eu bod nhw i gyd mor bwysig i fod yn safle 1 |
| Rwy'n credu mai diogelwch cymunedol sydd bwysicaf, sef yr hyn y mae'r cyhoedd yn dibynnu arnom i'w ddarparu, cael amseroedd ymateb da a gallu amrywio ein sgiliau a'n hamrywiaeth yn ein galwadau i helpu asiantaethau eraill. |
| Eu rôl yw ymateb yn gyflym yn ôl y digwyddiad. Gallai technegau modern a defnyddio technoleg helpu yn eu gwaith a dylid croesawu hyn lle profwyd ei fod yn fuddiol. |
| Unwaith eto, mae pob un yn bwysig, sut rydych chi'n eu blaenoriaethu. |
| Rwy'n credu bod y drefn honno yn cyd-fynd â budd y cyhoedd a'r hyn y dylai'r cyllid weithio tuag ato |
| Os bydd GTACGC yn gweithio ar atal, bydd yn lleihau'r nifer a ryddheir gan wneud cymuned ddiogel |
| Eto, mae’n hunanesboniadol |
| Synnwyr cyffredin |
| Ymateb yn gyflym yw'r pwysicaf |
| Mae amseroedd ymateb yn hanfodol |
| Dylai'r gallu i ymateb mewn pryd a chefnogi pobl agored i niwed ynghyd â phawb yn eu cymuned a'r cymunedau cyfagos bob amser fod yn flaenoriaeth i'r gwasanaeth |

| |
|---|
| Mae eu hamseroedd ymateb yn wych, o ystyried eu bod i gyd ar alwad ac yn byw mewn gwahanol leoliadau / eiddo ond eto'n llwyddo i gyrraedd gorsaf ymhen amser gwych. |
| Anodd blaenoriaethu - mae pob maes yn bwysig, ond mae'n rhaid i'r amser ymateb fod mor gyflym â phosibl. |
| Amser ymateb yw'r pwysicaf gan fod amser yn hollbwysig i lawer o'r digwyddiadau rydyn ni'n cael eu galw allan atynt o bosibl. |
| Mae gwella amseroedd ymateb bob amser yn bwysig i helpu i achub bywydau. Ac mae cymorth i'r henoed yn wasanaeth gwerthfawr ac yn cael ei werthfawrogi'n fawr |
| Fel uchod mewn argyfwng, mae pobl am ein cael ni yno cyn gynted â phosibl, ni allwn fod yr un fath â'r GIG lle rydych chi'n aros am injan dân am oriau! Mae angen i ni gael offer newydd a gwell, nid yr opsiwn rhataf, y gorau a'r mwyaf lleol ar gyfer y gwaith. Mae angen i ni fod yn barod ar gyfer unrhyw beth sy'n cael ei daflu atom. |
| Fel uchod: defnyddiwch y gwasanaeth tân i wneud y gwaith hanfodol y mae'r diffoddwyr tân wedi'u hyfforddi ar ei gyfer. |
| Dim angen esboniad |
| Ymateb i argyfyngau yw'r pwysicaf. Dylai atal risg, er ei fod hefyd yn bwysig, fod trwy gorff arall. Mae'r sgiliau sy'n ofynnol yn wahanol i'r rhai ar gyfer ymateb brys. |
| Fel gwasanaeth brys categori 1, rhaid i amseroedd ymateb i unrhyw argyfwng gael blaenoriaeth er mwyn sicrhau'r canlyniad gorau posibl i'r cyhoedd |
| Mae'n debyg bod y llywodraeth wedi anghofio am bobl sy'n agored i niwed. |
| Rhaid i ddiffodd tân fod y brif flaenoriaeth. |
| Mae amseroedd ymateb yn effeithio ar yr holl dasgau uchod |
| Mae angen defnyddio technoleg gymaint â phosibl i'w gwneud hi'n haws ac yn fwy effeithlon i wneud eich gwaith! Hefyd dylai atal gael blaenoriaeth uchel i geisio addysgu'r cyhoedd fel y gallwn oll weithredu'n fwy diogel ac yn fwy cyfrifol |
| Yn amlwg, mae ein hamser ymateb mewn ardal wledig yn allweddol oherwydd, yn aml, does dim diffibriliwr gerllaw neu gallai unigolyn a anafwyd fod allan o signal felly ymwybyddiaeth gymunedol. Mae cyfathrebu â gwasanaethau allweddol eraill yn bwysig gan fod angen ymateb traws-asiantaeth yn aml fel yr heddlu, tân ac ambiwlans yn cyfathrebu â'i gilydd. Yn aml yr heddlu yw'r cyntaf i gyrraedd lleoliad gwrthdrawiad ar y ffordd er enghraifft. |
| Os yw eich amser ymateb yn dda, y gobaith yw y byddwch chi'n achub bywydau |
| Dim ond barn |
| Yng ngoleuni'r newyddion y gallai'r gwasanaeth newid, rwy'n pryderu'n fawr y gallai fod effaith ar amseroedd ymateb. |
| Rwy'n un brwd o blaid gwaith ataliol |
| Diogelwch y cyhoedd, cyrraedd yno'n gyflym a gwneud yn siŵr bod adeiladau'n ddiogel. Mae newid yn yr hinsawdd yn broblem ac fel Portiwgal mae angen i offer, technegau a staffio ar gyfer digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân adlewyrchu tanau er enghraifft. Nid wyf yn argyhoeddedig yn lleol ein bod yn barod ar gyfer |

| |
|---|
| hynny. Mae llifogydd yn wael ond, mae angen i'r awdurdodau ddatblygu timau sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i ddelio â hynny yn hytrach na rhoi gofynion ar y gwasanaeth tân. |
| Os bydd digwyddiad, mae angen bod yno yn gynted â phosibl, mae atal yn helpu i leihau digwyddiad |
| Yr amseroedd ymateb yw'r pwysicaf gan y dylai pobl gael help cyn gynted â phosibl |
| Mae atal yn allweddol |
| Blaenoriaethu achub bywydau yn gyntaf |
| Gellir mynd i'r afael â busnes, diogelwch cymunedol a datblygiadau tai newydd trwy awdurdodau lleol e.e. rheoli adeiladu. a rheoliadau llywodraeth Cymru. |
| Mae hwn yn gwestiwn dwl, ymateb brys ddylai fod y prif gyfrifoldeb. Mae llawer o'r opsiynau eraill yn gyfrifoldebau'r llywodraeth |
| Mae atal yn bwysig iawn |
| Dim ond fy marn i ydyw |
| Mae’r cyfan yn bwysig |
| Mae amseroedd ymateb yn hanfodol i helpu i gyflawni'r canlyniadau gorau |
| Er mwyn ymgysylltu â phlant, mae mynychu ysgolion i siarad am ddiogelwch tân yn hanfodol |
| Rwy'n teimlo pe bai technoleg yn cael ei datblygu ymhellach, y gallai helpu gyda llai o danau |
| Perygl tanau cerbydau trydan a thanau batri lithiwm. |
| Mae'r gallu i ymateb yn brydlon yn bwysig i'r cyhoedd |
| Rwy'n credu bod amseroedd ymateb yn bwysig ond hefyd meithrin perthynas dda â'r gymuned. |
| Mae atal yn well na datrys. Os ydych chi'n rhoi digon o wybodaeth i bobl, gobeithio y bydd rhywbeth yn aros yn y cof. |
| Hapus gyda fy newis |
| Mae bod yn barod ar gyfer y dyfodol yn allweddol a dylai sganio’r gorwel i fod yn barod ar gyfer y newidiadau yn y dyfodol fod yn faes ffocws. O ran amseroedd ymateb, dydw i ddim yn credu eich bod yn agored ac yn dryloyw gyda'r rhain ac ymhle mae methiannau. Nid wyf byth yn clywed unrhyw beth am amseroedd ymateb ac felly rydw i wedi rhoi hynny'n olaf. |
| Rhif un yw'r gwahaniaeth rhwng bywyd neu farwolaeth. |
| Mae'r polisi newydd o beidio â mynychu signalau tân awtomataidd - hyd yn oed yn ystod y nos mewn adeilad heb ei feddiannu lle nad oes neb yn bresennol i weld a oes tân a galw - wedi rhoi straen ychwanegol ar staff sy'n gyfrifol am adeiladau o'r fath ac wedi adeiladu oedi amser di-fudd, a allai olygu'r gwahaniaeth rhwng achub adeilad unigryw fel Eglwys Gadeiriol Tyddewi, neu ei golli oherwydd tân, a fyddai'n dwyn canlyniadau aruthrol |
| Mae'r drefn uchod o fudd i'r gymuned leol |

| |
|---|
| Yn fy marn i, mae'n debyg bod amseroedd ymateb yn hynod bwysig o ran faint o ddifrod y gallai tân neu ddamwain ei achosi. Yna atal a chefnogi ar ôl hynny? |
| Mae cydweithio yn helpu ym mhob math o fusnesau ac nid wyf yn gweld unrhyw reswm pam y dylai hyn fod yn wahanol. |
| Atal |
| Mae angen trawsnewid gwasanaethau bob amser i ddiwallu anghenion ein cymunedau, ac mae hynny'n golygu defnyddio technoleg newydd. Mewn cymunedau gwledig rhaid ystyried amseroedd ymateb. |
| Mae amseroedd ymateb yn amlwg yn hanfodol, byddai cau gorsaf leol yn effeithio'n ddramatig ar hynny |
| Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar ddatblygu ar gyfer y dyfodol |
| Newid amseroedd a thechnolegau sy'n galluogi ffyrdd newydd o weithio |
| Fel yr uchod |
| Mae gennych bartneriaeth asiantaeth eang sy'n gweithio fel y mae. O ran unrhyw beth sydd ar goll, beth am uwchsgilio diffoddwyr tân sgiliau yn yr agweddau meddygol a thrawma gan fod ambiwlansys yn cymryd cymaint o amser. |
| Mae amser ymateb, technoleg newydd ac atal/paratoi yn allweddol. |
| Mae pobl agored i niwed yn perthyn i gylch gwaith adran wahanol. Blaenoriaeth gorsaf dân yw rheoli tanau a digwyddiadau lleol yn gyflym ac yn effeithiol |
| Mae amseroedd ymateb yn flaenoriaeth gyda thanau oherwydd gall colli munud olygu’r gwahaniaeth rhwng byw a marw. |
| Rwyf wedi rhoi cryfhau partneriaethau yn agos at y brig. Fel y dywedais mewn ateb 7, mae Gwasanaeth Ambiwlans Cymru yn colli cyfle heb ddefnyddio'r Ymatebwr Cyntaf ddigon. |
| Er bod yr holl bethau eraill yn bwysig, y peth pwysicaf yw cael y pwmp allan o'r drws gyda chriwiau wedi'u hyfforddi'n briodol. Mae parodrwydd ar gyfer yr hyn a allai ddigwydd yn bwysicach o lawer nag atal gan na allwch atal popeth felly mae'n rhaid i chi allu ymateb yn gyflym ac yn briodol. |
| Mae fy nhref yn gymuned weddol ynysig ac mae amseroedd ymateb gan yr heddlu a'r gwasanaethau ambiwlans eisoes yn siomedig. Rydym yn dibynnu ar bersonél ein gorsafoedd tân fel ymatebwyr cyntaf. |
| Nid yw 8 yn gyfrifoldeb i’r gwasanaeth tân. Mae hyn yn gyfrifoldeb i dîm gofal cymdeithasol Oedolion Powys, teulu a'r GIG. Dylai diogelwch busnes a thai a datblygiadau newydd ddod o dan ymbarél y cyngor ac iechyd a diogelwch. |
| Er bod materion ehangach yn bwysig, rwy'n gweld eu rôl fel cefnogi'r gymuned leol. Mae cael ein gorsaf dân yn Llanandras yn gwneud i mi deimlo'n ddiogel |
| 1- Mae amser ymateb mewn unrhyw sefyllfa argyfwng yn hanfodol. 2- Gallai technoleg helpu. 3 i 8- Mae atal yn well na datrys. |
| Mae technolegau newydd ar gael a dylid eu gweithredu |
| Rhaid rhoi blaenoriaeth i gadw gorsafoedd lleol dros bopeth arall i'r cymunedau gwledig felly mae'n rhaid i amseroedd ymateb fod yn gyntaf. Mae addysgu |

| |
|---|
| mentrau atal i gymunedau yn uchel ar y rhestr ac yn sicr gyda llawer o ddatblygiadau tai newydd bellach yn yr arfaeth - dylid ymgymryd â risgiau asesu tân bob amser. |
| Mae'n rhaid i'r gwasanaeth ymateb ar frys i'r argyfwng hinsawdd gyda llifogydd a thanau yn ogystal â chadw’n gyfoes a gorfodi rheoliadau |
| Mae gwaith tîm rhwng Asiantaethau yn hollbwysig |
| Mae amseroedd cyflym yn hollbwysig. |
| Popeth uchod |
| Rhaid rhoi'r brif flaenoriaeth bob amser i amseroedd ymateb |
| Yr un fath â 7 - mae amser yn hanfodol pan fydd tân yn lledu. |
| Ymateb brys yw swyddogaeth graidd y gwasanaeth |
| Buaswn wedi ticio pob bocs pe bawn i'n cael y cyfle |
| Mae'r cwestiwn hwn uwchlaw gwybodaeth y cyhoedd rwy'n credu |
| Fel yn flaenorol rwy'n credu mai'r prif bwrpas yw amddiffyn ein cymuned rhag tanau, felly’r amser ymateb byr sydd ei angen. |
| Mae amser ymateb yn allweddol. |
| Mae amseroedd ymateb olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth |
| Yn union sut y byddwn i'n eu rhoi yn eu trefn |
| Diffodd tân yw'r amcan cyntaf |
| Mae pob un yn bwysig. |
| Mae'r drefn yn bwysig gan fod y rhain yn achub bywydau ac eiddo. |
| Wel mae hyn yn anodd, ond mae argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd yn mynd i gynyddu. Fodd bynnag, mae'r holl bynciau hynny yn bwysig. |
| Blaenoriaeth i eitemau sy'n galluogi blaenoriaethau adran flaenorol |
| Traddodiadol a hanfodol |
| Yn gyntaf oll achub bywydau, yna addysg |
| Mae amseroedd ymateb yn hanfodol fel y mae cynllunio ar gyfer y dyfodol |
| Mae yn y teitl Tân ac Achub Canolbarth Cymru. |
| Mae addysg yn allweddol, os gall y gymuned weithio gyda'i gilydd a dysgu sut i fod yn wyliadwrus a sut i ymateb. A sut i helpu i atal problemau. Byddai hyn yn ddefnyddiol. |
| Mae'r holl fentrau hyn yr un mor bwysig |
| Mae atal yn well na datrys ac mae partneriaeth yn bwysig |
| Mae cyflymder ymateb yn hanfodol ac mae cefnogaeth i unigolion sy’n agored i niwed yn fwy hanfodol na gwirio rheoliadau ac ati |
| Yr un fath â chwestiwn 7 |
| Amh. |
| Mae'n bwysig i mi fod ymateb cyflym yn enwedig i aelodau bregus o'n cymuned |

| |
|---|
| Mae'r swydd yn newid ac fel gwasanaeth mae angen i ni barhau i newid hefyd. Rydym eisoes yn gwneud llawer o'r tri ateb olaf ond mae angen i ni wella'r holl atebion eraill er mwyn darparu'r gwasanaeth gorau posibl i'n cymuned. |
| Trefn pwysigrwydd |
| Mae llawer o'r rhain yn gorgyffwrdd felly mae'r un hinsawdd a'r pethau atal yn gorgyffwrdd. Byddai perthynas gymunedol dda ag unigolion, sefydliadau a busnesau yn dod â llawer at ei gilydd |
| Mae amser ymateb yn hollol hanfodol gan y gall 1 munud wneud cymaint o wahaniaeth |
| Rwy’n credu bod amseroedd ymateb yn bwysig |
| Fy marn i ar ble mae angen i ni ganolbwyntio |
| Rydym yn ardal wledig mae amseroedd ymateb yn bwysig iawn |
| Mae ymateb yn gyflym yn bwysig. |
| Rwy'n gweld mai Tân, llifogydd a damweiniau ffordd yw prif rolau’r Gwasanaeth. Ni all 'asiantaethau eraill' lenwi'r rolau hyn |
| Unwaith eto, mae gan bob opsiwn ei flaenoriaeth gyda gwahanol bobl |
| Dim syniad |
| Mae pob un yn heriol |
| Prif bwrpas diffoddwyr tân ddylai fod diffodd tanau a gwrthdrawiadau ar y ffordd |
| Gweler 7. |
| Y flaenoriaeth yw gwella'r prif gyfrifoldebau yn C8 |
| Rwy'n credu y bydd newid yn yr hinsawdd yn dod yn bwysicach - mwy o lifogydd a sychder yn arwain at danau llwyni a choedwig. |
| Mae’n hunanesboniadol yn y drefn yr wyf wedi’i blaenoriaethu |
| Helpu pobl yw pam y mae'r rhan fwyaf ohonom wedi ymuno â'r swydd hon, yn ogystal ag ymateb i argyfyngau. Dydw i ddim yn credu mai ein rôl ni yw gorfodi / rhwystro safleoedd. |
| pob un yn hanfodol |
| Mae pob un yn bwysig. |
| Mae bron yn amhosibl ateb y cwestiwn hwn oherwydd nid mater o drefn restrol mohono. Nid yw rhoi ymdrech i un eitem yn atal ymdrech ar rai eraill yn awtomatig. |
| Mae partneriaethau cryf yn allweddol i ganiatáu i'r gwasanaeth tân aros yn sefydlog a chefnogi ein cymunedau lleol |
| Mae amseroedd ymateb yn hanfodol unrhyw le ond yn enwedig mewn ardaloedd ynysig lle bydd natur y lleoliad yn golygu y cymerir mwy o amser i'w gyrraedd |
| Fel y soniwyd yn yr ymateb blaenorol.  Mae'n rhaid i ni gael trefn ar ein tŷ ni cyn inni wanhau ein gallu yn cefnogi eraill.  Oes, mae gennym ddyletswydd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol i weithio fel Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru i gyflawni'r gorau i'n cymunedau ond mae'n rhaid i ni allu cyflawni ein rôl yn gyntaf oll.  Nid ein rôl ni mo llenwi bylchau a achoswyd drwy dynnu'n ôl |

| |
|---|
| asiantaethau eraill. Nid oes unrhyw asiantaeth arall yn darparu'r hyn a wnawn ni, felly mae'n rhaid i ni sicrhau ein bod wedi cwmpasu ein cymuned. Wrth gwrs, byddwn yn parhau i gefnogi'r holl opsiynau a restrwyd. Fodd bynnag, gyda gweithlu sy'n newid yn gyflym, mae gofyniad i sicrhau bod ein staff wedi'u hyfforddi ac yn brofiadol yn y digwyddiadau rydyn ni'n gofyn iddynt ymateb iddynt. |
| Perygl uniongyrchol posibl i fywyd |
| Amseroedd ymateb da a'r offer cywir ar gyfer pob digwyddiad |
| Ymateb cyflym i achub bywydau ac eiddo yw'r hyn yr wyf yn ei ddisgwyl gan wasanaeth brys, gan weithio gydag asiantaethau eraill i sicrhau bod arian trethdalwyr yn cael ei wario yn y ffordd orau. |
| Wedi'i ateb yn fy marn i yn y raddfa. Cefnogaeth |
| Fel uchod, canolbwyntio ar ymateb. |


Yn seiliedig ar y sylwadau a gafwyd ynglŷn â meysydd ffocws pwysig i GTACGC, nodwyd chwe thema gyffredin.

1. **Pwysigrwydd Hanfodol Amseroedd Ymateb:** Pwysleisiodd llawer o ymatebwyr mai ymateb mewn pryd i argyfyngau, yn enwedig tanau a gwrthdrawiadau ar y ffordd, oedd swyddogaethau mwyaf hanfodol y Gwasanaeth. Mynegwyd pryderon am effaith ynysu daearyddol mewn ardaloedd gwledig ar amseroedd ymateb a'r angen i Ddiffoddwyr Tân Ar Alwad lleol fod ar gael yn rhwydd.
2. **Pwysigrwydd Atal:** Er bod ymateb brys yn cael ei flaenoriaethu, roedd cydnabyddiaeth sylweddol o bwysigrwydd mesurau ataliol, megis addysg gymunedol ac archwiliadau diogelwch cartref. Roedd llawer o ymatebion yn ffafrio dull cytbwys lle mae mentrau atal yn cael eu hintegreiddio ochr yn ochr â galluoedd ymateb effeithiol.
3. **Technegau Diffodd Tân:** Nododd ymatebwyr fanteision posibl technoleg newydd wrth wella effeithlonrwydd gweithredol a gwella ymateb brys. Roedd galwadau am fuddsoddiad mewn offer modern a all hwyluso ymatebion cyflymach a mwy effeithiol i ddigwyddiadau, yn enwedig am fod newid yn yr hinsawdd yn cynyddu amlder argyfyngau sy'n newid yn barhaus.
4. **Perthnasoedd a Phartneriaethau Cymunedol:** Ystyriwyd bod cryfhau partneriaethau ag asiantaethau eraill a sefydliadau cymunedol yn hanfodol ar gyfer cynllunio ar gyfer argyfyngau ac ymateb iddynt yn llwyddiannus. Roedd llawer o ymatebwyr yn credu y gallai perthynas dda ag asiantaethau lleol wella effeithlonrwydd gwasanaeth a sicrhau cefnogaeth gynhwysfawr i breswylwyr.
5. **Heriau yn sgil Newid yn yr Hinsawdd:** Roedd nifer o sylwadau'n adlewyrchu pryderon am y risgiau cynyddol sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys llifogydd a thanau gwyllt amlach. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen i'r Gwasanaeth fod yn barod ar gyfer yr heriau esblygol hyn, gyda mesurau rhagweithiol ar waith i liniaru trychinebau posibl.
6. **Pwyslais ar Iechyd Meddwl a Lles Criwiau:** Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at agwedd a ddiystyrir yn aml sef iechyd meddwl a lles personél y Gwasanaeth.

Cydnabuwyd y straen a'r pwysau sy'n wynebu diffoddwyr tân a phob aelod o staff, gan gyfeirio at angen am systemau cymorth o fewn y Gwasanaeth i sicrhau lles staff wrth iddynt ymateb i sefyllfaoedd heriol.

I grynhoi, er bod ymateb uniongyrchol i argyfyngau yn cael ei ystyried fel y flaenoriaeth uchaf, roedd galw glir am ddull cynhwysfawr sy'n cynnwys atal, datblygiadau technolegol, perthnasoedd cymunedol cryf, paratoi ar gyfer argyfyngau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ac iechyd meddwl a lles personél y Gwasanaeth.

## Cwestiwn 6: Yn eich barn chi, beth yw'r prif heriau sy'n wynebu Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru a sut ydych chi'n meddwl y dylem ymateb iddynt? **(Gofynnwyd i'r ymatebwyr eu gosod yn nhrefn blaenoriaeth).**




O'r **659 o ymatebion** a gafwyd, y tair prif her yr oedd y cyhoedd yn teimlo bod GTACGC yn eu hwynebu oedd amseroedd ymateb, recriwtio a chadw Diffoddwyr Tân Ar Alwad ac Amser Cyflawn a heriau ariannol (toriadau cyllideb a chyllid).

| **Esboniwch y rhesymau dros eich dewis yng nghwestiwn 6. Oes unrhyw beth ar goll, yn eich barn chi? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
| --- |
| Mae Diwylliant, Lles ac Iechyd Meddwl yn cael eu diystyru i raddau, os ydym fel gwasanaeth yn canolbwyntio ac yn datblygu'r meysydd hyn, yna bydd hyder staff yn cynyddu, bydd morâl yn gwella a bydd personél yn dod yn fwy cadarnhaol yn rhedeg ein gwasanaeth o ddydd i ddydd. |
| Bydd cynnal gwasanaeth effeithlon gydag unrhyw doriadau cyllideb yn her fawr. Bydd hyn hefyd yn effeithio ar fuddsoddiad |

| |
|---|
| Mae Gwaredu ac Amnewid ar alwad yn broblem barhaus am amrywiaeth o resymau; mae gwaith prosiect diweddar wedi mynd rhywfaint o ffordd i wella hyn ond mae'n broblem sylweddol o hyd. Heriau ariannol ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar gostau cynyddol. Yn ddiwylliannol rwy'n credu ein bod ni'n gwneud yn dda iawn ond mae diffyg dealltwriaeth o hyd ac mae ymddygiadau negyddol yn parhau mewn amgylchedd lle mae mwy o graffu a materion yn cael eu gwaethygu neu eu gorliwio. Mae newidiadau'n cael eu gwneud ond mae angen eu cynnal. |
| Mae'r rhan fwyaf o'r Gorsafoedd yn rhai Ar Alwad ac rydym yn recriwtio o hyd ar gyfer Ar Alwad, ond y dyddiau hyn nid yw pobl mor barod i wneud yr ymrwymiad i'w cymuned. O ystyried hyn, rydym yn dal i ddefnyddio negeseuon sydd wedi dyddio i recriwtio ar gyfer Ar Alwad. Mae angen ailwampio'r cyfan a safbwynt ieuengach ar sut i apelio at bobl, ond mae yna bobl sydd wedi bod yn gweithio i'r Gwasanaeth ers sawl blwyddyn sy'n tueddu i fod yn sownd yn yr un hen ffyrdd. Amser cyflawn, rwy'n rhoi hwn yn olaf dim ond oherwydd bod yna bob amser diddordeb a niferoedd uchel o geisiadau. |
| Ni allai gwasanaethau tân gwledig byth oroesi heb ddiffoddwyr tân rhan-amser. |
| Mae diwylliant yn allweddol i'r sefydliad gan mai dyma'r blociau adeiladu i ni symud ymlaen. |
| Mewn hinsawdd wleidyddol newidiol, rwy'n credu y gallai llawer o broblemau ymddangos ar hap sy'n anodd cynllunio ar eu cyfer |
| Hapus gyda'r rhestr |
| Iechyd meddwl staff |
| Os yw'r amgylchedd yn lle da i weithio am dâl synhwyrol, yna bydd yn haws cael a chadw staff da. Bydd staff da yn lleihau problemau gyda phwyntiau eraill ar y rhestr |
| Mae amseroedd ymateb yn ein hardal wledig yn fater o fywyd a marwolaeth heb unrhyw gymorth amgen ar gael |
| Cwnsela i atal PTSD wrth adael y gwasanaeth. |
| Dim byd ar goll yma |
| Mae pob gwasanaeth yn dioddef o gyfyngiadau ariannol. Mae'n swydd sydd dan lawer o straen (rwy'n dychmygu), felly byddai problemau iechyd meddwl yn broblem, dw i'n tybio |
| Unwaith eto, eich cyfrifoldeb i'r cyhoedd yw eich prif rôl. Mae lles eich staff yn bwysig i gwblhau'r rôl hon |
| Gydag ehangu trefol, mae mwyafrif y risgiau'n cael eu lliniaru trwy ddeddfwriaeth. Anheddau gyda systemau chwistrellu a lleoliad a dyraniad hydrantau ac ati... |
| Gwario eich cyllid ar wasanaethau gwirioneddol priodol nid ar sbwriel 'newid hinsawdd' annilys |
| Mae poblogaeth sy'n heneiddio a dim ambiwlansys yn broblem a gostyngiad mewn gwasanaethau ysbyty lleol. |
| Gwasanaeth achub! |

| |
|---|
| Fel perchennog busnes, y flaenoriaeth bob amser yw lles staff; os oes tîm hapus yna byddant yn barod ar gyfer y gwaith anodd wrth law, sydd gan y diffoddwyr tân hyn. Mae eu lles yn hollbwysig ac mae ganddynt gefnogaeth lawn y cymunedau maen nhw'n eu gwasanaethu. Rwy'n dychmygu eu bod nhw'n gweld rhai pethau ofnadwy yn gwneud y gwaith na ddylai rhai pobl byth orfod eu gweld ond maen nhw'n mynd gam ymhellach i helpu'r gymuned. Rwy'n dychmygu bod angen tîm da o'u cwmpas i ddatgysylltu o'r galwadau maen nhw wedi delio â nhw a chefnogaeth lawn y sefydliad i'w helpu. Mae'n waith corfforol felly rwy'n dychmygu bod angen iddyn nhw hefyd aros yn gryf ac yn heini a chael agwedd gadarnhaol bob amser wrth ddelio â'r gymuned. Rwy'n ymwybodol bod prinder gwirfoddolwyr i weithredu yn y gorsafoedd ar alwad, ond ar ôl holi i ymuno fy hun, cefais fy atal gan nifer helaeth yr oriau y mae'r gwasanaeth yn eu mynnu. Rwy'n credu bod yr RNLI yn wirfoddolwyr yn unig ac nid oes ganddynt unrhyw broblemau gyda phrinder, dim ond am nad ydyn nhw'n mynnu eich bod ar gael am nifer fawr o oriau. Mae hyn yn profi y gellir ei wneud ond mae agwedd y gwasanaeth tân at hyn i gyd yn anghywir yn fy marn i. Siaradwch â'r RNLI ac edrychwch ar eu dull gweithredu nhw. |
| Mae'n bwysicach |
| Os nad ydych chi'n gofalu amdanoch chi'ch hunain, mae'n anoddach helpu eraill |
| Popeth - mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn bwysig i'r person neu'r teuluoedd y maent yn delio â nhw ar y pryd. |
| Mae amseroedd ymateb yn amlwg yn fater cynhyrfiol, sy'n cael ei wleidyddoli'n aml. Fodd bynnag, cyllid annigonol yw'r achos sylfaenol dros wasanaeth sydd eisoes wedi'i orymestyn. |
| Mae'n anodd cynnal amser ymateb gyda phrinder staff neu gyllidebu |
| Ddim yn siŵr |
| Ddim yn siŵr beth sydd ar goll |
| Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Nghymru yn risg fawr am ei bod yn lleihau'r gronfa o bobl sy'n gweithio a allai gyfrannu tuag at y gwasanaeth tân. Mae hyn hefyd yn rhoi mwy o faich ar gyfalaf ariannol Cymru i ariannu'r gwasanaeth. |
| Mae staff yn bwysig; mae hyn yn effeithio ar amseroedd ymateb ond mae amseroedd ymateb yn flaenoriaeth |
| Nifer isel o recriwtiaid newydd i adrannau tân yn ystod y blynyddoedd diwethaf |
| Amh. |
| Barn y cyhoedd |
| Mae ymateb yn rheidrwydd |
| Dylai lles bob amser fod ar linell uchaf unrhyw restr, ein pobl. Mae'r heriau sy'n weddill yn cael eu penderfynu i raddau gan drydydd parti |
| Amh. |
| Mae'r gofynion yn fawr, a'r gronfa'n rhy fach |
| Poblogaeth sy'n heneiddio, llai o bobl ifanc i'w recriwtio. |

| |
|---|
| Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth Ar Alwad yn brin o staff a phrin yw'r cymhelliant i fod ag awydd ymgymryd â'r rôl |
| Ddim yn credu bod unrhyw broblemau gyda recriwtio amser cyflawn am eich bod yn cael miloedd o ymgeiswyr o hyd. Mae staff rhan-amser yn hanfodol am fod hynny ar ben swydd arall. |
| Mae ardaloedd gwledig bob amser yn cael trafferth gydag amseroedd ymateb |
| Tref ymddeol, pobl hŷn ddim yn gwybod y gallant gael gwasanaeth cartref i archwilio eitemau |
| Mae Diwylliant Sefydliadol yn ymwneud yn bennaf â blaenoriaethu gwael gan y Llywodraeth o ran y gyllideb sydd ar gael i'r Gwasanaeth Tân a thalent am ei gwastraffu mewn mentrau eraill fel prynu Fferm, neu brydlesu warws na ellir ei ddefnyddio ac ati. |
| Lles staff, newid patrymau/amseroedd shifftiau i roi diffoddwyr tân mewn mwy o berygl a'u gwneud yn fwy blinedig |
| Cyllid yw'r broblem yn ei hanfod |
| Cyllid ar gyfer popeth - dylai trethi gynyddu i'r cyfoethocaf, ledled y wlad |
| Unwaith eto methu rhoi mwy nag un yn y safle uchaf |
| Nid wyf yn credu fel sefydliad eich bod chi'n gwerthfawrogi eich criwiau rhan-amser yn ddigon nac yn gwerthfawrogi effaith eu gwasanaethau ar ardaloedd gwledig |
| O'r hyn rydw i wedi'i ddarllen a'i glywed gan griwiau lleol, mae'r rheolaeth yn wael, ac nid ydynt yn gwrando ar griwiau rhan-amser nac amser cyflawn, gyda meddylfryd tebyg i fwlio. Credu y dylech gael eich gweithredu gan gomisiynwyr, ymuno gogledd a de Cymru. Ni allai'r tîm rheoli redeg bath yn ôl pob cyfrif. |
| Dylai cael criwiau sy'n gallu ymateb yn gyflym i achosion sy'n peryglu bywyd ac wedi'u hyfforddi gyda'r offer diweddaraf fod ar frig unrhyw ofynion cyllideb, daw popeth arall ar ôl hynny. |
| Buddsoddi yn y rhai sy'n cadw ardaloedd gwledig yn ddiogel nid gorsafoedd amser llawn |
| Yn nhrefn blaenoriaeth |
| Lles staff yw'r flaenoriaeth eithaf i unrhyw fusnes. Gofalwch am y gweithlu bob amser. Rwy'n deall bod recriwtio diffoddwyr tân gwirfoddol yn heriol oherwydd faint o oriau y mae angen iddynt eu hymrwymo. Dyma pam nad oeddwn yn gallu ymuno oherwydd y nifer o oriau a fynnwyd gennyf. |
| Prif flaenoriaeth y gwasanaeth tân yw ei ymateb cyflym i unrhyw argyfwng lle mae'r cyhoedd yn teimlo'n hyderus yn ei orsafoedd lleol. Maent yn darparu gwasanaeth cymunedol amhrisiadwy |
| Does dim byd ar goll |
| Dylai eich ffocws fod ar amseroedd ymateb yn gyntaf |
| Unwaith eto, mae angen i amseroedd ymateb fod yn gyflym a dylid ceisio eu gwella bob amser |

| |
|---|
| Mae’r cyfan mor bwysig â'i gilydd ond methu ateb hynny |
| Fy safbwyntiau i |
| Mae torri cyllidebau, cau gorsafoedd o bosibl yn gadael pobl yn agored i niwed ac mewn perygl. Ni all hyn ddigwydd yn yr hinsawdd sydd ohoni. |
| Popeth uchod |
| Mae amser ymateb yn bwysig iawn |
| Nid yw'r gwasanaeth tân wedi torri, recriwtio a chadw staff sy’n allweddol |
| A wnewch chi roi’r gorau i falu awyr am newid yn yr hinsawdd. Pe bai'r cyngor yn gweithio gyda ffermwyr i gynnal ffosydd a charthu afonydd a rhoi'r gorau i adeiladu ar orlifdiroedd byddai'n helpu. |
| Mae heriau ariannol yn dod ar y brig - mae hynny’n wir ym mhob sefydliad sector cyhoeddus.  Efallai y bydd recriwtio a chadw staff yn broblem - rwy'n gwybod bod recriwtio diffoddwyr tân rhan-amser newydd yn ein hardal wedi bod. |
| Bydd cyllid bob amser yn allweddol mewn unrhyw sefydliad. Rwyf wedi ceisio blaenoriaethu'r gweddill |
| Unwaith eto, cwestiwn heb ei gynllunio’n dda iawn! |
| Diffyg gorsaf rydio yng Nghrucywel lle mae llifogydd rheolaidd |
| Angen mwy o arian, a allai helpu gyda recriwtio a chadw. |
| Y marn i |
| Mae achub bywydau’n flaenoriaeth. Yn ein hardal ni, mae angen diffoddwyr tân rhan-amser er mwyn ymateb yn gyflym. Byddai diffoddwyr tân amser llawn yn aneconomaidd am eu bod wedi’u tangyflogi yn ein hardal wledig. Mae amseroedd ymateb yn aruthrol yn fy mhrofiad innau gyda'r system bresennol |
| Mae rhywfaint o hynny fel cymharu afalau ac orangwtans - pob risg. Nid yw diwylliant yn risg, mae canfyddiad y cyhoedd o ddiwylliant yn risg, wedi’i sbarduno gan rymoedd gwleidyddol a'r cyfryngau o rai agweddau gwaeth (y mae angen mynd i'r afael â nhw). |
| Rwy'n credu mai cyllid yw'r prif reswm pam mae'r holiadur hwn yn digwydd. Mae angen mwy o arian gan y cynghorau perthnasol ac ati |
| Amh. |
| Pwysigrwydd hyd y gwelaf fi |
| Holiadur ddim yn hawdd i'w drafod, felly dyma'r hyn y gallwn ei wneud |
| Targedu'r rhai sy'n torri'r gyfraith ac sy'n cam-drin y staff. |
| Pellter a mynediad yw'r prif bryder o fyw mewn ardal wledig |
| Mae'n debyg mai recriwtio a chadw yw un o'r heriau anoddaf, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mae angen gofalu am staff i helpu gyda lles ac os nad yw'r adeiladau'n cyrraedd y safon, byddan nhw’n gyfyngedig o ran eu hadnoddau a'u hyfforddiant y gallant ei wneud yn yr orsaf |
| Dim parch gan y cyhoedd at beth rydych chi'n ei wneud, parcio yn y ffordd ac ati. |
| Ymateb i ddigwyddiadau |

| |
|---|
| Ddim yn siŵr |
| Rwy'n credu y gallai'r heriau torri costau arwain at gau |
| Mae cyflymder ymateb yn hanfodol |
| Nid yw rhai o'r materion mwy trefol yn berthnasol i Raeadr Gwy, ond ni yw'r MSOA gyda'r boblogaeth >65 uchaf yn y canolbarth |
| A minnau'n ddiffoddwr tân yn Swydd Amwythig, bu'n amlwg erioed fod gan Gymru bob amser hen offer, hen orsafoedd, llai o hyfforddiant, mae'n debyg |
| Rwyf wedi clywed bod gorsafoedd tân yn ei chael hi'n anodd recriwtio |
| Gweler yr ateb i 9 |
| Dylid gwella amseroedd ymateb bob amser. Mae cyfyngiadau ariannol a strwythurau rheoli yn hynafol ar gyfer gwasanaeth tân rhan-amser gwledig |
| Heb unrhyw wybodaeth |
| Profiad yn y swydd |
| Y gwasanaeth tân a'r personél yw'r pwysicaf ac mae'r gwasanaeth i'r gymuned yn ardderchog fel y mae |
| Dim ond y rhai sydd wedi gweithio fel diffoddwr tân ddylai fod yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt |
| Dylai anogaeth gan gymheiriaid fod yn ddigonol. |
| Yr amseroedd ymateb sydd bwysicaf. Mae angen i lywodraeth y DU ariannu'n ddigonol |
| Mae'n debyg nad yw'r "cyrff" uchod yn gwybod mor feirol yw'r gwasanaeth mewn ardaloedd gwledig a'r hyn mae'r tîm yn ei aberthu i fod yn y gwasanaeth |
| Profiad personol, angen mwy o fuddsoddiad mewn technoleg |
| Pwysigrwydd cadw gorsafoedd diffoddwyr tân rhan-amser ar agor mewn ardaloedd gwledig |
| Mae amseroedd ymateb yn allweddol. Mae angen gorsafoedd lleol gyda staff aml-fedrus i ymateb yn gyflym mewn cymunedau gwledig. |
| Unwaith eto, mae POB UN yn her ac mae angen mynd i'r afael â PHOB UN a'i gefnogi. |
| Fel uchod yn 9 |
| Stopiwch wastraffu arian ar brosiectau gwagedd (palmentydd beicio, sothach 20 mya, aelodau ychwanegol yn y Senedd) yng Nghymru a gofalwch am y gwasanaeth tân. Hefyd, beth ar y ddaear yw Diwylliant sefydliadol? Stopiwch ddefnyddio termau tylwyth teg, nid yw Google hyd yn oed yn deall hynny. |
| Yn fy ardal i, mae'r diffoddwyr tân ar alwad yn gwneud gwaith gwych ond maen nhw'n cael eu rhwystro gan faterion amgylcheddol. Nid yw'r boblogaeth sy'n heneiddio ac adeiladau sy'n heneiddio yn helpu chwaith ac nid yw'r cynigion parhaus i adeiladu cartrefi newydd yn helpu. |

| |
|---|
| Dw i ddim yn gwybod... mae hynny i eraill ei benderfynu, ond dw i'n gwybod bod y cynigion yn bygwth bywyd, ond ni fydd fy marn i na barn pawb rwy'n ei adnabod yn gwneud unrhyw wahaniaeth |
| Mae arian ar gyfer gwasanaethau a staff yn hollbwysig |
| Cyllid sydd wrth wraidd popeth |
| Dim ond fy marn i ydyw |
| Rydym eisoes yn teimlo effeithiau prinder staff a chyllid. sef nad yw hyfforddiant ar gael yn aml a'r ffaith ei fod yn llai a llai ymarferol ei natur. |
| Argaeledd injan dân |
| Rwy'n gwybod sut beth yw bod yn rhan o boblogaeth sy'n heneiddio |
| Mae angen sefydliad iach sy'n gallu fforddio gofalu am ei staff ac o hyn ymlaen ei gymunedau. |
| Cyfyngiadau cyllidebol yn broblem fawr, ond mae angen cael trefn ar eich tŷ eich hun er mwyn cadw hyder y cyhoedd |
| Anodd gan fod pob ateb yn berthnasol |
| Dylai hyn gael ei wneud gan y GIG |
| Mae'n ymddangos bod cyllid yn broblem fawr |
| Mae'n rhaid i'r amseroedd ymateb i unrhyw ddigwyddiad sy'n gofyn am bresenoldeb y gwasanaeth tân fod yn brif flaenoriaeth. Dylai personél amser llawn, sydd wedi'u hyfforddi'n dda fod yn brif flaenoriaeth, gyda chefnogaeth y Diffoddwyr tân rhan-amser. |
| Fel yn 8 |
| Mae trafodaethau cyfredol am newid shifftiau ac oriau gwaith yn peri risg i gadw diffoddwyr tân gan y gall llawer gael eu gorfodi i adael oherwydd ymrwymiadau teuluol |
| Mae troi drosodd gyda rhodenni yn ormod |
| Yn amlwg, mae amser yn bwysig iawn pan mae bywydau mewn perygl |
| fy newisiadau! |
| Dylai lles fod yn flaenoriaeth |
| Yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae arian wedi cael ei wario ar lawer o bethau y mae pobl yn eu creu ond mae'n rhaid rhoi'r brif flaenoriaeth i wasanaeth cyflym ac effeithlon |
| Ar alwad yw'r math rhataf o gyflogaeth yn y gwasanaeth tân ac achub! Os byddwch yn eu tramgwyddo a'u colli, ni fydd gwasanaeth tân hyfyw mwyach |
| Ansicr |
| Os bydd y gyllideb yn cael ei thorri, gallai gorsafoedd gael eu cau gan wneud amseroedd ymateb yn arafach a pheri mwy o berygl i fywyd. |
| Perffeithio a chryfhau ein gwasanaethau presennol yw'r flaenoriaeth gyntaf |
| Mae diwylliant y sefydliad yn dibynnu ar Dîm Arweinyddiaeth Weithredol a Thîm Arweinyddol y Gwasanaeth, nid oes neb yn gallu lleisio barn na chodi pryderon. |

| |
|---|
| Mae unrhyw beth sy'n cael ei gynnig yn aml yn cael ymateb ymosodol. Mae'r rhethreg a'r agwedd gan reolwyr yn egoistaidd |
| O dan yr ymgynghoriad shifftiau presennol, manteisir ar iechyd meddwl a lles eich staff, a fydd yn arwain at ddiffyg cadw diffoddwyr tân amser cyflawn a gostyngiad mewn profiad a gwybodaeth hanfodol |
| Dylai lles staff a'u hiechyd meddwl fod yn flaenoriaeth mewn swydd sydd dan lawer o straen, diwylliant cadarnhaol yn ail agos, a dylai pob gweithiwr fwynhau ei rôl ac eisiau dod i'r gwaith |
| Mae angen ystyried recriwtio a chadw personél amser cyflawn ac ar alwad |
| Newid yn yr hinsawdd |
| Mae hon yn ardal wledig ac mae'n cymryd amser i gyrraedd digwyddiadau felly mae amseroedd ymateb yn peri pryder.  Mae recriwtio a chadw yn bwysig gan fod profiad yn hanfodol (mae hyn hefyd yn effeithio ar iechyd meddwl). |
| Amser ymateb |
| Mae cyllid yn effeithio ar bob un o'r meysydd eraill |
| Dim ond fy marn i, ynglŷn â blaenoriaethau |
| Dylai'r bobl sy'n gwneud y gwaith hwn gael yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnynt. Popeth o gyllid, offer, a chymorth iechyd meddwl. |
| Fel y dywedais i |
| Gan ein bod mewn cymuned wledig, mae amseroedd ymateb yn hollbwysig gan fod y rhan fwyaf o drefi gyda gorsafoedd o leiaf 20 munud i ffwrdd o'i gilydd. |
| Nid wyf yn gwybod eich heriau ond rwy'n disgwyl mai'r rheswm dros yr holiadur hwn yw'r anawsterau ariannu |
| Mae cynnal personél ymroddedig, llawn cymhelliant yn hanfodol i lwyddiant y gwasanaeth, mae newid cyson trwy newid swyddi'n gyflym yn arwain at ddiffyg parhad a dryswch ac yn erydu cymhelliant. |
| Mae arian yn bwysicach na bywydau/ swyddi |
| Yn gyntaf oll, yr amseroedd ymateb a chadw staff digonol yw'r pwysicaf. Mae iechyd meddwl a theimlo cefnogaeth yn bwysig i gadw'r tîm proffesiynol yn hapus ac yn ardderchog yn eu perfformiad gwaith. Ar ôl hynny mae sut mae ardaloedd adeiladu yn cael eu harchwilio, ac yna cefnogi'r boblogaeth oedrannus. |
| Cwestiwn di-bwrpas |
| Mae hyn yn broblem, ond wrth i ystadau newydd gael eu hadeiladu ar hyn o bryd mae mwy o bobl gymharol iau yn symud i mewn. |
| Mae'n debyg bod amseroedd ymateb a recriwtio yn mynd law yn llaw ar hyn o bryd, nid oes gan lawer o orsafoedd ar alwad mewn ardaloedd mwy o faint argaeledd mawr oherwydd ymrwymiadau gwaith a'r diffyg teimlad cymunedol o fewn y gwasanaeth tân ar hyn o bryd. Mae gorsafoedd llai yn dal i gael awgrym ohono ac yn aml yn ymrwymo i fwy nag eraill am wasanaeth. Bu cadw gyda'r wobr bownti yn gymhelliant mawr ac mae'r adolygiad ar alwad wedi gwneud rhai pethau gwych i aelodau staff presennol. Mae recriwtio a chadw amser cyflawn hefyd yn allweddol ac maent yn cwmpasu'r ardaloedd mwy o faint sydd â risg uwch, ond ni |

| |
|---|
| allwn anghofio y gallent fod yn fwy rhagweithiol ar ymgysylltu â'r gymuned ac efallai'n fwy agored i rôl amrywiol. Mae'r hyfforddiant sy'n ofynnol fel paredio terfysgwyr, dealltwriaeth amgylcheddol, pythefnos Gyrrwr Ymateb i Argyfwng (ERD), ERD cerbyd nwyddau mawr os oes angen, i enwi ond ychydig, mae cynnal y rheini ac eraill yn gwneud y rôl ar alwad yn anodd iawn gyda'r pwysau ychwanegol wrth weithio swyddi amser llawn yn ystod y dydd. Mae cyllid yn enfawr ac mae hynny'n cael ei waethygu gan y gofynion hyfforddi ychwanegol hyn, adeiladau a chyfarpar hŷn mewn ardaloedd gwledig ynghyd â thechnoleg sy'n datblygu'n gynt nag erioed. |
| Bydd diwylliant sefydliadol a chyllid priodol yn trefnu'r gweddill. Gobeithio |
| Fel y dywedwyd yn flaenorol, mae amseroedd ymateb yn dod yn gyntaf. Yn enwedig o fewn cymuned leol gan ei fod yn atgyfnerthu ymddiriedaeth a hyder o fewn y frigâd |
| Bydd newid yn yr hinsawdd yn cael effaith gynyddol ar danau a llifogydd |
| Yr un peth |
| Ar ôl cael cysylltiad â Gorsaf Tref-y-clawdd trwy'r grŵp llifogydd, rwy'n deall bod recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar alwad yn broblem fawr mewn tref wledig fach. |
| Unwaith eto, i gyd yn ddigon pwysig i fod yn rhif 1 |
| Rwy'n credu mai'r rhesymau hynny yw'r drefn orau i wasanaethu budd y cyhoedd. |
| I mi, mae angen i chi gadw'ch staff ar alwad yn hapus yn yr hyn maen nhw'n ei wneud a gofalu amdanynt. |
| Rwy'n teimlo bod hyn yn cyd-fynd â'r heriau a wynebir, sonnir llawer am gyllid ond mae llawer gormod o wariant ar faterion nad ydynt yn gysylltiedig |
| Ymateb yw'r pwysicaf |
| Mae amodau da'n angenrheidiol i gadw staff |
| Mae gallu ymateb yn gyflym yn bwysig i gael trefn ar bopeth |
| Nac ydw |
| Cyllid yw'r brif her i bob gwasanaeth ar hyn o bryd. Mae gorsafoedd ar alwad yn hanfodol i'r ffordd y mae'r gwasanaeth yn gofalu am y cymunedau ledled canolbarth Cymru, felly dylai gofalu am y staff presennol ac annog mwy fod yn un o'r prif flaenoriaethau a pheidio â cheisio israddio'r gorsafoedd hyn na'u cau fel bod gwasanaethau a bywydau'n cael eu peryglu. |
| Bydd yr her ariannol yn fawr oherwydd cyfyngiadau cyllid ond rwy'n gwybod bod iechyd meddwl diffoddwyr tân yn bryder mawr. Mae recriwtio a chadw diffoddwyr tân amser llawn ac ar alwad hefyd yn her |
| Mae amseroedd ymateb yn hanfodol os ydym am ddarparu gwasanaeth effeithiol ac mae recriwtio'n hanfodol i gadw gorsafoedd yn weithredol. |
| Ddim yn siŵr beth yw diwylliant sefydliadol |
| Staff rheng flaen yw'r bobl sy'n delio â llawer o'r digwyddiadau wrth law, maen nhw'n gweld llawer, yn gorfod delio â sefyllfaoedd trallodus, mae angen gofalu am y gweithiwr a pheidio â'i drin fel rhif. Dylai'r gweithle fod yn rhywle maen nhw eisiau ei fynychu a mwynhau dod i'r gwaith. Unwaith eto, mae amseroedd ymateb |

| |
|---|
| yn uchel gan fod gofyn i ni gyrraedd digwyddiad cyn gynted â phosibl. Dylai gorsaf dân fod yn ymarferol ac yn gost-effeithlon i'w rhedeg a chynnwys y cyfleusterau sydd eu hangen i ddiffoddwyr tân gynnal hyfforddiant a chael lle byw digonol/cyfforddus. |
| Bywydau cyn toriadau cyllideb |
| Dim angen esboniad |
| Mae'n anodd dod o hyd i ddiffoddwyr tân rhan-amser, o ystyried nad yw man gwaith pobl yn aml yn yr ardal leol. Mae'r diwylliant yn canolbwyntio ar wrywdod ac mae’n ddigon i godi ofn arnoch, heb ddigon o gymorth rheoli. |
| A'r gwasanaeth yn bennaf yn wasanaeth Ar alwad, mae recriwtio a chadw yn elfen ganolog wrth sicrhau bod y cyhoedd yn cael y gwasanaeth y mae'n ei haeddu, dim llai. |
| Mae'r amseroedd ymateb cyfredol yn dda iawn |
| Mae cynghorau’n brin o arian felly byddant yn adolygu blaenoriaethau |
| Mae llawer o orsafoedd yn dal i fod yn brin o staff, sy'n golygu nad oes unrhyw beth wrth gefn a hefyd mae'n effeithio ar les staff. Ond dylid rhoi blaenoriaeth i wella diwylliant sefydliadol, sydd fel y dengys yr adroddiad diwethaf yn llai na da, gan y bydd hefyd yn helpu gyda recriwtio a chadw staff |
| Mae llawer o'r boblogaeth wledig yn byw mwy na 3 milltir o'r orsaf dân leol felly ni allant ymuno. Oherwydd ffyrdd cul, troellog gall gymryd mwy o amser i gyrraedd pobl ac mae llawer o waith ffordd. Ar ôl bod yn dyst i danau tŷ ofnadwy lle na ellid achub teuluoedd, mae'n rhaid bod hyn yn effeithio’n feddyliol ar swyddogion tân, a damweiniau ffordd. Dylid rhoi digon o gwnsela a hynny’n barhaus - hawdd ei gyrraedd. |
| Unwaith eto, amser ymateb yw un o'r rhannau pwysicaf, rwy'n credu bod angen ailwampio eich trefn recriwtio o ddifrif ac rwy'n amau'n ddifrifol a yw eich diffoddwyr tân yn ddigon ffit i wneud y gwaith |
| Y marn i |
| Rwy'n deall na fyddai gorsafoedd tân o dan fentrau newydd bellach yn ymateb i bob sefyllfa fel y maent ar hyn o bryd. Mewn cymunedau bach, cymharol wledig gallai hyn fod yn drychinebus ac yn berygl i fywyd. |
| Rwy'n credu bod angen ailwampio diwylliant y gweithle yn y gwasanaeth. |
| Cyrraedd y digwyddiad yw’r peth pwysicaf gyda'r offer, y cyfarpar a'r bobl gywir. Mae'n ymddangos bod problem ddiwylliannol ac arweinyddiaeth wael; dylid trwsio hynny a bydd y staff yn dilyn. Yn seiliedig ar yr hyn rydw i wedi'i ddarllen, NI FYDDWN yn wirfoddolwr nac yn cefnogi fy mhlant neu wyrion i ymuno â'r gwasanaeth nes bod yr arweinyddiaeth, materion rheoli pobl yn cael eu datrys yn glir. Mae'n peri gofid darllen yr adroddiad cyfredol ac, i’r un graddau, mae’n niweidio fy hyder yng ngallu'r "tîm" i weithio gyda'i gilydd. Mae gan bawb her ariannol a |
| Mae angen gweithlu cynhwysol i weithio gyda'ch gilydd i wneud i'r cyfan ddigwydd. Dim ymrwymiad gan y staff a theimlo'n siomedig, heb fod yn agored a thryloyw, stopiwch y staff a byddant yn gadael am waith arall. |

| |
|---|
| Os yw'r adeilad yn hen, mae'n fwy agored i ddifrod ac ni all gael yr offer cywir |
| Mae angen cyllid arnynt ar unwaith |
| Mae iechyd meddwl da yn bwysig |
| Rhif 10 - Nid oes gennym unrhyw ddiffoddwyr tân amser cyflawn yn ein hardal. 1.2.3. - yn bwysicach nawr nag erioed bod gennym wasanaeth tân wedi'i gyfarparu i ddelio ag argyfyngau.  Edrychwch ar California - mae toriadau i'r gwasanaeth tân yn costio bywydau. |
| Mae cyflogau gwael i ddiffoddwyr tân ar alwad ac agwedd ddiwylliannol wael iawn fel y dangoswyd yn yr adolygiad diwylliannol gwael iawn diweddar yn ffactor sy'n cyfrannu'n sylweddol |
| Mae cyllid yn her allweddol |
| ANGEN TRWSIO'R DIWYLLIANT |
| Un farn yw'r cyfan. |
| Yng Ngheredigion mae yna lawer o ffyrdd sy'n anodd eu llywio pan fydd damwain neu i gyrraedd tân. Mae angen diffoddwyr tân da sydd wedi'u hyfforddi'n dda ond nid yw'n waith hawdd a gall fod llawer o bethau yn cael eu gweld a'u profi a all achosi lles meddwl gwael heb gefnogaeth ddigonol |
| Heb gyllid, caiff prosesau hyrwyddo a recriwtio eu rhwystro o ddifrif. |
| Dim byd ar goll |
| Pwysig sicrhau bod ein holl orsafoedd wedi'u sefydlu'n llawn ac ar gael |
| Heriau ariannol ac amseroedd ymateb yw'r pwysicaf gan fod y rhain yn cael effaith enfawr ar y gwasanaethau |
| Mae'r diwylliant yn amlwg yn wael iawn, nid yw'r Tîm Gweithredol fel petai'n poeni am yr adroddiad CREST ac rwy'n dyfynnu uwch reolwr "Mae syrcas y cyfryngau drosodd nawr, gallwn fynd ati i weithio eto" |
| Mae amseroedd ymateb yn anodd iawn i'w cynnal. Gall hyn fod yn bennaf oherwydd traffig. Naill ai wedi'i barcio neu'n symud ar y ffyrdd. |
| Rwy'n hapus |
| Rwy'n credu bod angen cael trefn ar y diwylliant yn gyntaf, dylai unrhyw weithle gael staff sy'n cael eu trin yn deg a pharchus. O ran diffoddwyr tân ar alwad, dylech fod yn fwy tryloyw am yr argyfwng rydych chi ynddo gyda hyn a sut mae angen i'r cymunedau gefnogi eu gorsaf leol ac ymgysylltu â hi. |
| Mae angen gwneud mwy i recriwtio staff ac i ddiogelu eu hiechyd meddwl a'u lles er mwyn annog pobl i aros yn y gwasanaeth |
| Unwaith eto, mae amser ymateb yn bwysig, ond hefyd dychmygwn fod lles staff yn beth pwysig iawn, yn enwedig o weithio yn y math hwnnw o swydd |
| Fel yr wyf yn deall y cwestiwn, ni ddylai hyn, er ei fod yn bwysig, fod yn drech nag amser ymateb ac ati. |
| Mae amseroedd ymateb yn bwysig a phobl oedrannus sy'n byw'n annibynnol |
| Mae recriwtio yn her |

| |
|---|
| Diwylliant sefydliadol ddim yn wahanol mewn sefydliadau mawr eraill |
| Cefais fy arswydo gan yr adroddiad yr wythnos diwethaf gan Crest. Mae'n amlwg bod gan Uwch Reolwyr lawer i'w brofi. |
| Gwybod pa mor anodd y gall fod i recriwtio'n lleol, ond nid yw'n golygu eich bod chi'n rhoi'r gorau iddi |
| Mae cadw staff yn broblem allweddol a chynnal a chadw adeiladau hŷn |
| Unwaith eto, mae’r oes yn newid ac mae angen newidiadau mewn diwylliant sefydliadol |
| Amh. |
| Nid materion y gwasanaeth tân yn unig mohonynt. Mae angen mwy o gyrff ar lawr gwlad a llai o staff cymorth. |
| Ar hyn o bryd nid oes arian ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn byw mewn cyfnod o gyni a thoriadau lle mae disgwyl i bobl wneud mwy am lai gyda'r boblogaeth yn cael ei rhoi mewn perygl. |
| Mae gorsafoedd tân eisoes yn brin, gan nad yw llawer ohonynt wedi'u staffio drwy'r amser gan gynyddu amseroedd ymateb |
| Rhaid bod recriwtio a chadw staff yn anodd gyda phoblogaeth sy'n heneiddio |
| Dim byd ar goll   Dywedwn i mai recriwtio a chadw diffoddwyr tân yw un o'r prif broblemau, yn ôl pob tebyg |
| Mae angen i'r sefydliad ar lefel uwch newid ei ffocws a'i agwedd, dyma'r brif her. Ar ôl i'r rhain gael eu newid, gall asesiad priodol o'r hyn sy'n ofynnol ddigwydd |
| Rwy'n ymwybodol bod recriwtio yn broblem, a chyllid hefyd, ond amseroedd ymateb yw blaenoriaeth trigolion y dref. |
| Mae 1 i 6 yn cael effaith uniongyrchol ar y gwasanaeth cyffredinol. Heb wasanaeth mae'r holl ymarfer hwn yn ddibwys |
| Mewn cymuned wledig, mae amseroedd ymateb yn hanfodol. Efallai y bydd yn rhaid i ni aros nifer o oriau am ambiwlans. Mae'r ffaith bod ein criw tân yn gallu cyrraedd ymhen munudau yn galonogol |
| Rwy'n dyfalu |
| 1 - Y pwysicaf. 2 i 4- Angen monitro cyson. 5 i 10- Defnyddio synnwyr cyffredin sylfaenol. |
| Llai o fiwrocratiaeth wrth recriwtio diffoddwyr tân newydd |
| Os nad oes gennych ddigon o ddiffoddwyr tân amser llawn, bydd amseroedd ymateb yn cynyddu. Mae angen rhoi blaenoriaeth i gadw diffoddwyr tân amser llawn a rhai ar alwad. Os disgwylir i ddiffoddwyr tân fod yn ymatebwyr cyntaf hefyd rhaid gofalu am eu hiechyd meddwl |
| Mae angen mwy o arian a chefnogaeth yn bendant i recriwtio a chadw diffoddwyr tân. Maent yn darparu gwasanaethau brys hanfodol a fydd yn cael eu colli yn fawr gan ein cymuned. Dibynnir ar y tîm yn y gymuned ac mae’n rhan hanfodol o'n cymuned |

| |
|---|
| Dydw i ddim yn gwybod digon am yr wleidyddiaeth sy'n ymwneud â'r gwasanaeth hwn felly rwy'n dyfalu. |
| byw mewn tref fach gyda pellteroedd mawr, mae'n anodd recriwtio ac i wasanaeth gyrraedd digwyddiad mewn pryd; rhaid i doriadau ariannol beidio â chau'r gorsafoedd bach hyn neu fel arall bydd mwy o drychinebau'n digwydd |
| Mae'n sefyllfa rydym oll yn ei chanol y dyddiau hyn, ac ni ellir ei hanwybyddu |
| Mae amseroedd ymateb yn bwysig iawn, ac felly hefyd recriwtio a hyfforddi diffoddwyr tân.  Mae eu hiechyd meddwl yn bwysig iawn oherwydd y gwaith maen nhw'n ei wneud |
| Mewn cymuned wledig bydd amseroedd ymateb bob amser yn her |
| Dydw i ddim yn gwybod digon am yr heriau sy'n wynebu'r gwasanaeth i allu gwneud sylwadau'n ddefnyddiol. |
| Ymateb brys yw swyddogaeth graidd y gwasanaeth |
| Buaswn wedi ticio pob bocs pe bawn i'n cael y cyfle |
| Dydw i ddim yn arbenigwr i ateb hyn |
| Unwaith eto, mae'r cwestiwn hwn ar gyfer y bobl sy'n rhedeg y gwasanaeth. |
| Rwy'n teimlo bod ymgyrch i gael gwared ar wasanaethau tân lleol a fydd yn cael effaith negyddol ar ein cymuned |
| Gofyn bod yn rhan o argyfyngau meddygol. |
| Yr heriau ariannol yw'r mwyaf heriol ar hyn o bryd |
| Dylwn feddwl bod iechyd meddwl yn un mawr, mae angen cefnogi swyddogion mewn swydd sy'n gorfod peri llawer o straen. Mae tanau gwyllt yn dod yn fwy cyffredin. A chyda newid yn yr hinsawdd, mae angen gwell addysg ar drigolion ac ymwelwyr. |
| Fel o'r blaen |
| Fel yr uchod |
| Mae angen ymateb cyflym gan griwiau lleol, dyma brif waith gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth Cymru. |
| Oherwydd bod rhaid i unigolyn fod ar gael am gynifer o oriau, mae llai o bobl yn dod yn ddiffoddwyr tân ar alwad gan nad ydynt yn gallu gwneud yr 120 awr yr wythnos oherwydd eu bod yn gweithio y tu allan i'r dref ac nid ydynt yn gallu ymateb yn yr amser a neilltuwyd. |
| Mwy o ryngweithio â'r bobl leol. Os yw pawb yn cael gwybod beth sy'n digwydd y tu ôl i'r llen yn y frigâd dân. I |
| Mae pob un o'r uchod yn bwysig. |
| Mae adeiladu ar ardaloedd perygl llifogydd ac anawsterau ariannol yn bwysig |
| Rhaid mai cyflymder ymateb i ddigwyddiadau critigol yw'r brif flaenoriaeth.  Rwy'n deall bod cysylltiad cryf rhwng recriwtio a chyllid a bod hyn yn her wirioneddol |
| A |

| |
|---|
| Rwy'n teimlo bod cymunedau mewn ardaloedd gwledig yn tueddu i gael eu hanghofio ar adegau, ar y cyfan. |
| Dyna'r drefn yr wyf yn credu sydd ei hangen i alluogi'r gwasanaeth i ffynnu a llwyddo, heb y tri cyntaf byddwch yn methu â sicrhau'r gweddill!. |
| Trefn pwysigrwydd |
| Mae'r rhain yn eithaf mympwyol oherwydd nid wyf yn gwybod digon. Unwaith eto rwy'n amau bod llawer o'r rhain yn cydgysylltu felly efallai y byddaf yn rhoi hwnnw o dan ddiwylliant yn agos at y brig ond nid wyf yn golygu diwylliant sefydliadol yn benodol ond, yn fwy, y berthynas â'r gymuned. Chwiliwch am Jon Alexander a phrosiect dinasyddiaeth newydd am symud y tu hwnt i'r cyhoedd fel defnyddiwr i'r cyhoedd fel dinesydd cyfranogol a'r gwasanaeth tân - mae'n enghraifft ddiddorol a phwysig iawn ar gyfer hyn yn ei hanes a'r presennol |
| Mae amser ymateb yr un fath ag ambiwlans y dyddiau hyn, mae'n cymryd rhy hir |
| Barn bersonol |
| Gofalwch am y bobl sy'n ariannu gwasanaethau brys, mae'r bobl a'u heiddo yn haeddu bod yn flaenoriaeth |
| heb bersonau tân rhan-amser ni allwch ddarparu UNRHYW wasanaeth. |
| Unwaith eto, mae pob un yn bwysig i'r gwasanaeth tân |
| Blaenoriaethau a chyllid yn cael eu gwanhau'n gyson gan lywodraeth ganolog yn sgil camfarn ac arweinyddiaeth wael |
| Gweler 7. |
| Maen nhw i gyd yn broblemau allweddol, heb ddigon o wybodaeth i'w rhoi yn eu trefn |
| Nid wyf yn gymwys i wneud sylwadau ar yr heriau sy'n wynebu GTACGC ond yr hyn sy'n bwysig i mi yw bod cyllid ar waith i sicrhau parhad gwasanaeth tân yng Nghrucywel, wedi'i staffio gan griwiau sy'n adnabod yr ardal gyfagos gan roi tawelwch meddwl i holl aelodau ein cymuned |
| Rwy'n credu y bydd recriwtio a chadw staff ar alwad yn hynod bwysig os oes cyfnodau gorffwys gorfodol newydd yn gysylltiedig. Bydd contract deuol yn gostwng yn aruthrol ynghyd ag argaeledd offer. |
| Mae pob un uchod yr un mor bwysig i'r gwasanaeth |
| Mae pob un yn bwysig. |
| Mae bron yn amhosibl ateb y cwestiwn hwn oherwydd nid mater o drefn restrol mohono. Nid yw rhoi ymdrech i un eitem yn atal ymdrech ar rai eraill yn awtomatig. |
| Mae lleihau toriadau cyllideb, cynyddu recriwtio a chadw yn heriau enfawr ynghyd â lles ac iechyd meddwl staff. |
| Mae gwasanaeth wedi'i ariannu, ei adnoddu a'i staffio'n briodol yn hanfodol i sicrhau diogelwch y cyhoedd |
| Er ei bod yn bwysig cadw System Dyletswydd Amser Cyflawn, fyddwch chi byth yn cael trafferth recriwtio, bydd yna rai sydd bob amser am gael gyrfa lawn a'r rhai sy'n dymuno gadael ar ôl cyfnod o amser. Os cawn ni'r cydbwysedd yn iawn |

| |
|---|
| rhwng gwaith, hyfforddiant a byw, bydd mater cadw staff yn datrys ei hun. Recriwtio a chadw staff Ar Alwad yw'r flaenoriaeth uchaf gan mai nhw yw'r anoddaf i'w cadw a nhw yw asgwrn cefn y Gwasanaeth. |
| Toriadau mympwyol posibl yn hytrach na chynyddu effeithlonrwydd ac efallai peryglu sicrhau diogelwch |
| Bydd israddio gorsafoedd a lleihau nifer y staff yn dinistrio'r gwasanaeth |
| Rydw i wedi gweld y newyddion ynglŷn â galwadau a diwylliant, nid wyf yn credu bod hyn yn ddelwedd dda i wasanaeth brys. Rhaid mai hon yw'r flaenoriaeth i edrych arni. |
| Fy marn ar gyfer graddfa |
| Bod yn effeithiol mewn ymateb, cael trefn ar eich diwylliant, a gofalu am eich staff. |

Yn seiliedig ar y sylwadau a roddwyd ar yr heriau sy'n wynebu GTACGC, nodwyd chwe thema gyffredin.

1. **Canolbwyntio ar Les ac Iechyd Meddwl:** Roedd consensws cryf bod lles staff, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl, yn hanfodol i gynnal morâl, hyder a pherfformiad cyffredinol o fewn y Gwasanaeth. Tynnwyd sylw hefyd at yr angen am gwnsela ac adnoddau digonol i atal Anhwylder Straen Ôl-drawmatig (PTSD).
2. **Cyfyngiadau Ariannol a'u Heffaith:** Toriadau cyllideb oedd y prif bryder, gan effeithio ar bob agwedd ar y Gwasanaeth, o recriwtio i gynnal a chadw offer. Pwysleisiwyd bod angen mwy o gyllid i sicrhau digon o staff ac adnoddau, heb gyfaddawdu effeithiolrwydd y Gwasanaeth.
3. **Heriau Recriwtio a Chadw:** Amlygwyd bod rolau Diffoddwr Tân Ar Alwad ac Amser Cyflawn yn wynebu anawsterau o ran recriwtio a chadw, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Mynegodd ymatebwyr fod angen dull mwy modern ac apelgar o recriwtio a chadw.
4. **Amseroedd Ymateb:** Roedd pwysigrwydd cynnal amseroedd ymateb cyflym, yn enwedig mewn cymunedau gwledig lle gallai oedi fod yn fygythiad i fywyd, yn thema dro ar ôl tro. Roedd llawer o sylwadau'n cysylltu effeithiolrwydd amser ymateb yn uniongyrchol â lefelau staffio a chyllid.
5. **Materion Diwylliannol:** Tynnwyd sylw at faterion sy'n ymwneud â diwylliant sefydliadol, arferion rheoli, a thriniaeth staff, er enghraifft, creu amgylchedd mwy cefnogol sy'n gwerthfawrogi cyfraniadau yr holl aelodau staff.
6. **Ymgysylltu a Chefnogaeth Gymunedol:** Amlygwyd ymgysylltu'n well â'r gymuned i hybu ymwybyddiaeth am yr heriau sy'n wynebu'r Gwasanaeth er mwyn meithrin cysylltiad cryfach â thrigolion lleol. Ystyriwyd bod gwell canfyddiad a chefnogaeth gyhoeddus yn hanfodol i gynaliadwyedd a llwyddiant gweithredol y Gwasanaeth.

Roedd y themâu a amlygwyd yn adlewyrchu cyfuniad o heriau gweithredol, diwylliannol a chymunedol y mae angen i GTACGC fynd i'r afael â nhw.

# Cwestiwn 7: Ydych chi'n teimlo bod unrhyw risgiau eraill sy'n datblygu y dylem fod yn eu hystyried?

| **Ydych chi'n teimlo bod unrhyw risgiau eraill sy'n datblygu y dylem fod yn eu hystyried? Esboniwch ymhellach. *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
|---|
| Mae ein hinsawdd yn newid, ac rwy'n credu y bydd angen i ni ganolbwyntio rhywfaint o'n gwaith tuag at faterion amgylcheddol! |
| Nid yw'n gymaint o risg ond sut ydych chi'n bwriadu cynnwys deallusrwydd artiffisial yn y gwasanaeth. A fydd hyn yn helpu gyda'ch effeithlonrwydd ac yn weithredol? |
| Rwyf hefyd yn credu y bydd diwygiadau pensiwn ac amodau sy'n newid yn dechrau effeithio ar gadw staff Amser Cyflawn yn y dyfodol. |
| Canolbwyntiwch ar eich prif rôl graidd i fodoli os oes gennych bwysau ariannol |
| Cyfyngiadau cyllideb ariannol |
| Aflonyddwch cymdeithasol gyda'r cynnydd mewn eithafiaeth a chamwybodaeth ar y rhyngrwyd |
| Risg o anwybyddu'r difreintiedig o fewn cymdeithas |
| Llifogydd |
| Y ffordd dwp y caiff y gyllideb ei dyrannu. Blaenoriaeth yn mynd i wasanaethau rheng flaen, nid cynghorwyr a 'rheolwyr' ystafell gefn |
| Nid yw'r syniad o wneud i orsafoedd ganolbwyntio ar sgiliau gwahanol wedi'i ystyried yn dda. Mewn ardaloedd gwledig fel ein hardal ni, gallwn gael ein torri ymaith yn hawdd gan lifogydd, coed wedi cwympo a phellenigrwydd. Mae'n hanfodol bod yr orsaf agosaf yn gallu darparu unrhyw gymorth sy'n angenrheidiol, nid arbenigo mewn un maes, wrth aros i griwiau o ardal arall wneud rhywbeth arall. |
| Cerbydau trydan |
| Mwy o alwadau meddygol |
| Rwy'n poeni am geir trydan yn mynd ar dân, heb fod modd diffodd y tân |
| Mae cyllid y llywodraeth, toriadau awdurdodau lleol yn dueddiadau difrifol sy'n dod i'r amlwg |
| newid amgylcheddol a hinsawdd yn effeithio ar fynediad i gymunedau anghysbell |
| Ymosodiadau seiberddiogelwch |
| Mae ymateb bariatrig ar gynnydd gyda hyfforddiant ac offer cyfyngedig. Mae hyn nid yn unig ar gyfer cymorth i'r gwasanaeth Ambiwlans ond ar gyfer cynyddu'r risgiau o fod yn rhan o ddigwyddiadau e.e. gwrthdrawiadau ar y ffordd |

| |
|---|
| Mae mwy o gyfrifoldeb yn cael ei roi ar ddiffoddwyr tân heb ddigon o hyfforddiant h.y. disgwylir iddynt fod yn ymatebwyr cyntaf ond mae angen hyfforddiant lefel technegydd ambiwlans i gefnogi eu gweithredoedd. |
| Gorboblogi |
| Rheolaeth wael! |
| Morâl staff oherwydd gwrthdaro o fewn y gwasanaeth. |
| Mae'n debygol y bydd mwy o alwadau yn y dyfodol agos gyda mwy o boblogaeth yn cyfateb i fwy o risg yn y trefi / dinasoedd mwy o faint. |
| Cynnydd cerbydau trydan a rheoli tân mewn batris lithiwm enfawr. Storio batris o bosibl mewn cartrefi dros y blynyddoedd. Disgwylir i'r defnydd o ddŵr o seilwaith deallusrwydd artiffisial fod yn gyfartal â Japan i gyd erbyn 2027, felly llai o gronfeydd dŵr mewn ardaloedd ger gweinyddion |
| Nac ydw |
| Mae'n siŵr, ond alla i ddim meddwl am rai |
| Rydym wedi cael y gwasanaeth tân fel ymatebwyr cyntaf pan mae aros hir am ambiwlans |
| Sori - does dim yn dod i'r meddwl ar hyn o bryd. |
| Ansicr |
| Nac ydw |
| Tai myfyrwyr dirywiedig |
| Hinsawdd? A chyllid |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Gallu trafnidiaeth drom, ymateb pwrpasol Bariatrig. |
| Defnyddio mwy o asedau electronig |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Batris lithiwm, ceir, beiciau. |
| Nid yw'r hyfforddiant cychwynnol presennol yn adlewyrchu rôl diffoddwr tân modern |
| Efallai nad yw modelau ynni newydd ar gyfer gwres ac ynni eto wedi’u deall o ran diffodd tân? |
| Mae cynnal a chadw ffyrdd yn caniatáu i ffyrdd ddod yn anoddach eu llywio i Offer Tân fel y gwelsom y llynedd. |
| Mae cyfnodau hir o sychder yn gwneud tanau allanol yn fwy tebygol. |
| Ie, y risgiau blinder i griwiau ar batrwm shifft newydd |
| Mae Tref-y-clawdd yn ardal wledig iawn ac rydym yn dibynnu ar ein gorsaf dân oherwydd hynny.  Heb orsaf yn Nhref-y-clawdd rwy'n ofni y byddai llawer mwy o'r gwrthdrawiadau ar y ffordd a'r tanau, boed yn ddomestig neu ddiwydiannol, yn |

| |
|---|
| cael sgôr anafiadau uwch gan na fyddai gorsafoedd eraill yn gallu cyrraedd mewn cyfnod tebyg oherwydd y pellter y mae angen ei deithio |
| Eich diffyg dealltwriaeth o ardaloedd gwledig |
| Gordewdra. Mae'r boblogaeth yn mynd yn drymach.  Mae'n ymddangos nad oes gennych yr offer cywir i ymdopi. |
| Arweinyddiaeth wael a gwneud newidiadau er mwyn cael eich gweld yn gwneud newidiadau |
| Newid yn yr hinsawdd, mwy o danau gwyllt |
| Mwy o argyfyngau'n debygol gyda mwy o boblogaeth a mwy o risgiau. |
| Ie, eich cynllun chi.  Nid yw'r amseroedd ymateb i ddigwyddiadau newydd pe bai'r cynllun yn cael ei weithredu yn realistig ac felly rhoir y cyhoedd mewn perygl o niwed, anaf neu farwolaeth. |
| Nac ydw |
| Arbed costau a thorri gwasanaethau gorsaf yn cael eu sbarduno gan staff sy'n cael eu talu'n ormodol o'r ddinas |
| Yr henoed yn cwympo gartref |
| Mae amseroedd ymateb ambiwlans mewn ardaloedd gwledig yn chwerthinllyd. Dylai'r gwasanaeth tân herio'r llywodraeth i ddefnyddio'r gwasanaeth yn fwy a lleihau amseroedd aros i ofal gael ei roi i anafusion y mae angen cymorth arnynt ar frys. |
| Mae ein gorsaf dân leol yn fwy na gorsaf dân yn unig.  Maen nhw'n grŵp o ddiffoddwyr tân rhan-amser sy'n cael eu harwain gan y gymuned. Maen nhw wedi achub bywydau, wedi bod yn allweddol yn hybu ymwybyddiaeth am ein cadw'n ddiogel ac yn hapus yn ein cymuned.  Maent yn codi arian ar gyfer grwpiau llai ffodus ac yn cefnogi cyfranogiad cymunedol pob oedran.  Maen nhw ar alwad 24/7 ac mae pawb yn teimlo, lle gall gwasanaethau eraill eu methu, ni fydd y gwasanaeth tân lleol yn eu methu. Maent yn eithaf aml yn ymatebwyr cyntaf ac wedi bod yn gyswllt rhwng gwasanaethau sy'n cadw'r gymuned yn hyderus ac yn ddiogel gan wybod y bydd ein diffoddwyr tân yno i ni pan nad yw eraill. Maent yn wasanaeth cyffredinol ac, er eu bod weithiau'n oedi eu bywyd teuluol eu hunain, maent wedi ymrwymo i iechyd a lles ein cymuned. |
| Blaenoriaeth i achub bywydau a chyllid i wneud hynny. |
| Mae syniad newydd prif ganolfan a lloerennau yn risg enfawr i ddiogelwch cymunedau |
| Dim byd newydd dim ond llywodraeth Cymru yn ddi-glem fel arfer. |
| Mae cael gwared ar offer fel y trosglwyddo yn bwysicach o lawer na risg sy'n dod i'r amlwg er bod y cynllun arfaethedig i gael rhai gorsafoedd yn arbenigo mewn un maes ac eraill yn delio â gwrthdrawiadau ar y ffordd yn unig yn ymddangos fel risg enfawr sy'n dod i'r amlwg |
| Dim risg yn dod i'r amlwg - ond mae eich rhestr ystod oedran ar y dudalen nesaf yn colli cyfnod cyfan o ddeng mlynedd - mae fy oedran i'n perthyn i'r cyfnod hwnnw!  Nid oedd unrhyw le arall y gallwn wneud y pwynt hwn. |

| |
|---|
| Efallai edrych yn agosach ar newid yn yr hinsawdd, yn enwedig tanau gwyllt a llifogydd. |
| nid "risg" yw’r gair cywir yn y maes hwn! |
| Nac ydw |
| Canoli gan wleidyddion Powys |
| Bod yn ymatebwyr cyntaf oherwydd lleoliad |
| Newid yn yr hinsawdd fyddai'r brif un, a gwyntoedd cryfach yn un y mae angen ei hystyried. Gwneud yn glir |
| Ddim yn siŵr |
| Ddim yn siŵr. Methu rhoi’r bai ar Lafur nac Arlywydd Trump am bopeth |
| Toriadau cyllideb y llywodraeth, allwch chi ddim gwella gwasanaeth tra bod toriadau’n cael eu gwneud i bob gwasanaeth ar hyn o bryd. Cyfnodau dim recriwtio ac ati. |
| Gostyngiad mewn gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig sy'n ddaearyddol helaeth ond sydd efallai’n denau eu poblogaeth 'ymddangosiadol'. Mae ein ffyrdd, mannau harddwch ac atyniadau twristaidd yn cael eu defnyddio'n helaeth yn rheolaidd ac felly mae wedi cynyddu'r galw am y gwasanaethau a ddarperir gan awdurdod tân CGC. |
| Gwneud gorsafoedd ar wahân ar gyfer pob ardal unigol. Fel un orsaf sy'n ymdrin â thanau tŷ yn unig. Nid yw'n mynd i weithio mewn ardaloedd gwledig o gwbl. |
| Ddim yn siŵr |
| Y risg o golli lleoliadau gwledig sy'n hanfodol a byddai mwy o farwolaethau pe baent yn cau. |
| Ymwybyddiaeth o'r ffyrdd i leihau damweiniau |
| Traffig cynyddol a safonau gyrru gwael |
| Mwy a mwy o doriadau i gyllid |
| Mae tanau gwyllt America wedi dangos bod torri costau a mesurau amgylcheddol yn lledaenu tanau |
| Ydw. Mae angen i ni wneud yn siŵr bod offer 4 x 4 ar gael i ardaloedd tenau iawn eu poblogaeth fel ein hardal ni, oherwydd y tir garw a nifer y trigolion dros 65 oed mewn cartrefi ynysig anodd eu cyrraedd |
| Mewn rhai ardaloedd mae heriau amgylcheddol yn rhwystro adeiladu cartrefi newydd, felly’n gorfodi cenedlaethau iau i ffwrdd o rai ardaloedd. Felly’n cael effaith ganlyniadol ar recriwtio yn y dyfodol |
| Ni fydd pobl yn cymryd cyfrifoldeb, Ni ddylent gymryd pethau yn ganiataol |
| Argyfwng costau byw, cartrefi, cerbydau, offer trydanol sydd wedi'u cynnal yn wael |
| Nid yw pobl o dde Cymru’n deall pur faint yr ardal y mae gorsafoedd tân ym Mhowys yn ei chwmpasu a'r amseroedd ymateb ar gyfer ffyrdd gwledig |
| Ceir trydan - o hyn ymlaen, profwyd eu bod yn creu risg tân |

| |
|---|
| Cadw'r gorsafoedd llai o faint ar agor gan eu bod hefyd yn cefnogi'r gorsafoedd mwy o faint pan fo angen |
| Yn esblygu'n barhaus - angen diweddaru'n gyson |
| Mewnforio offer trydanol nad yw'n cydymffurfio. Dylid erlyn gwerthwyr |
| Nac ydw |
| Technoleg |
| Nac ydw |
| Mae newid yn yr hinsawdd yn digwydd. Mwy o lifogydd a mwy o danau. Ydych chi'n barod am hyn? |
| Gwendidau a achosir gan adeiladau sy'n heneiddio, diffyg arian i wneud gwelliannau iddynt a phroblemau iechyd meddwl cyffredinol yn y boblogaeth sy'n gwneud pobl yn agored i niwed |
| Adeiladu ystadau newydd ond dim mwy o wasanaeth tân, meddygon ac ati!! |
| Mae dioddef o drais wrth fynd allan i dân bob amser yn fygythiad a bydd yn effeithio ar iechyd a lles diffoddwyr tân. |
| Mae heriau eu hunain yn perthyn i ddelio ag is-orsafoedd trydan a chyfleusterau storio batris, ac mae angen mynd i'r afael â nhw'n lleol a ledled y DU i atal llygru cyrsiau dŵr a'r amgylchedd yn gyffredinol. |
| Problemau iechyd meddwl gyda staff |
| Canslo diwylliant ‘effro’ (*woke*) a gwneud pobl yn ymwybodol o gyfrifoldebau |
| Nid ar hyn o bryd |
| Nac ydw |
| Cynhesu byd-eang a'i effeithiau |
| Diffyg gwasanaeth ambiwlans ym Mhowys a phellter i'r ysbyty y tu allan i'r sir |
| Newid yn yr hinsawdd a digwyddiadau tywydd eithafol, erydiad pellach gwasanaethau cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig sydd ar adegau’n teimlo y cefnwyd arnynt. Mae’r gwasanaeth tân ac achub yn rhan hanfodol o'r gymuned mewn mwy o ffyrdd nag y gellir eu mynegi gan holiaduron sy’n dadansoddi data, beth am siarad â'ch cymunedau ar lefel reoli sy'n gallu gweithredu ac nid tawelu’n unig mewn modd cymodol |
| Nac ydw |
| Trwy dorri lefel y gwasanaethau mewn gorsafoedd llai o faint |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Hyfforddiant yn y ffordd gywir o ddelio â risgiau sy'n dod i'r amlwg o gerbydau trydan. Gallant fod yn beryglus ac yn anrhagweladwy gan greu cryn risg i aelodau o'r cyhoedd a phersonél y Gwasanaeth Tân. |
| Mwy o gerbydau wedi'u parcio'n ddiystyriol sy'n rhwystro cerbydau achub |
| Cerbydau trydan o ran tanau a hyfforddiant |
| Bydd newid shifftiau ar gyfer 224 yn gwneud criwiau’n anhapus |

| |
|---|
| Amgylchedd |
| Llifogydd yn fy ardal leol |
| Ansicr |
| Newid yn yr hinsawdd |
| Cerbydau trydanol a'r boblogaeth gynyddol |
| Diogelwch i ddiffoddwyr tân sy'n ateb galwadau sy'n gorfod delio â phroblemau iechyd meddwl pobl |
| Yn ein hardal ni, monitro cwlferi, mae llifogydd ar gynnydd, rydym wedi canfod bod nifer o ddigwyddiadau'n gysylltiedig â chwlferi wedi'u blocio |
| Patrymau shifft |
| Nac ydw |
| Cerbydau trydan - mae'n ymddangos eu bod yn dueddol o fynd ar dân! |
| Methu ymateb mewn pryd |
| Ydy, costau byw, cyflogau ac anghenion tai ar gyfer diffoddwyr tân ar alwad |
| Gofyn mynd allan i alwadau ambiwlans yn amlach |
| Gyda chynnydd mewn stormydd a thywydd eithafol daw cynnydd mewn ffyrdd wedi'u rhwystro gan goed sy'n cwympo. Os yw'r ffyrdd wedi'u rhwystro a'r peiriant tân yn methu mynd drwodd. Efallai bod angen hyfforddiant ac offer arnynt i symud rhwystrau |
| Ansicr |
| Y twf mewn cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn ddomestig ac ar raddfa fawr. |
| Mae'r gefnogaeth gynyddol i'r gwasanaeth ambiwlans yn llyncu adnodd y mae mawr ei angen. Hefyd, mae'r galw ar ddiffoddwyr tân rhan-amser a'r ymrwymiad yn cyfyngu ar gyfraddau cadw |
| Cyngor / llywodraeth |
| Nac ydw |
| Mae adeiladu cartrefi newydd diwerth yn achosi mwy o bwysau ar adnoddau prin |
| Gormod o gost mewn rheolaeth lefel ganol. Y diffoddwyr tân rheng flaen ddylai fod yn gwneud penderfyniadau. Dylai'r cyhoedd gael yr hawl i gael mewnbwn a phleidlais ar faterion critigol sy'n effeithio ar eu diogelwch. Mae toriadau cyllideb i orsafoedd lleol yn afrealistig ac yn gadael cymunedau gwledig mewn perygl. |
| Y llywodraeth a chyngor Sir Powys sydd wrth eu bodd yn torri'r holl wasanaethau gwledig a chanolbwyntio ar y dinasoedd! |
| Colli gwasanaethau mewn ardaloedd lleol a mwy o ddefnydd o'n ffyrdd a'n cyfleusterau gan dwristiaid. |
| Rwy'n credu y bydd risg personél ar alwad yn cael eu llethu gan faint yr hyfforddiant, y gwaith papur a'r gweithdrefnau gweithredu safonol newidiol y mae'n ofynnol i ni eu cadw wrth gynnal swydd amser llawn yn dod yn ffactor yn y dyfodol agos. |
| Craffu awdurdod tân yn addas i'r diben |

| |
|---|
| Parhau i ganiatáu i'n gorsafoedd lleol ymgysylltu ac ymateb i'n hanghenion lleol |
| Presenoldeb deunyddiau gwenwynig mewn tanau |
| Camreoli gan y llywodraeth |
| Newid disgwyliadau cymdeithasol ar yr hyn y gallwn ei wneud fel gwasanaeth brys. A allwn ni gyflawni popeth y mae'r llywodraeth a'r gymuned yn ei ddisgwyl gennym ni. |
| bygythiadau seiber |
| Perygl o golli neu dorri gorsaf Llanwrtyd. Rwy'n gwybod bod hon yn orsaf hanfodol nid yn unig ar gyfer yr argyfwng maen nhw'n ei mynychu, ond fel gorsaf wrth gefn i eraill |
| Diffoddwyr tân/ peiriannau heb sgiliau amrywiol ac yn methu cymhwyso sgiliau oherwydd cynllun 2040 yn ogystal â thueddiadau sy'n newid sy'n effeithio ar ein gallu i ateb galwadau yn y gymuned. |
| Mae ymateb meddygol yn hanfodol yn y cymunedau llai o faint |
| cau gorsafoedd gwledig o bosibl. Os bydd hyn yn digwydd, byddai'r amseroedd ymateb i ddigwyddiadau lleol yn cynyddu. Mewn ardaloedd ffermio lleol byddai diffyg adnoddau hanfodol a allai achub bywydau efallai |
| Pyllau |
| Newid yn yr amgylchedd a galwadau ymateb meddygol |
| Gweithgaredd troseddol, fel tanau bwriadol |
| Ddim yn gwybod |
| Nac ydw |
| Mwy o wybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol a'r teledu am risgiau gyrru'n wael a beth yw'r canlyniadau |
| Dim ond y risgiau enfawr a fyddai'n dod o gau neu israddio gorsafoedd |
| Perygl o golli ein gorsaf dân yng Nghrucywel. |
| Rwy'n siŵr bod yna, ond ni allaf feddwl am unrhyw un ar hyn o bryd |
| Nac ydw |
| Yn fy ardal leol yng nghoedwig Afan, byddai'r angen i gynnal a chynyddu ffyrdd sy'n torri tân ar ein llethrau mynyddig a gweithio gyda CNC yn fuddiol gan fod newid yn yr hinsawdd yn effeithio mwy flwyddyn ar ôl blwyddyn |
| Ddim yn siŵr |
| Newid patrymau shifft pan nad oes angen hynny o gwbl, does neb eisiau'r newid, bydd yn cynhyrfu ac yn achosi goblygiadau trychinebus gyda theuluoedd a bydd morâl yn y gwaith yn syrthio o ddifrif. Straen ychwanegol nad oes ei angen ar ben swydd gweithredu lefel uchel sydd dan bwysau. |
| Agwedd wael y cyhoedd a diffyg gofal am yr amgylchedd |
| Toriadau i wasanaethau. Dull dall, plwyfol o osod polisïau nad yw'n cydnabod bod y criwiau tân yn gwneud gwaith hanfodol ar draws ffiniau. |
| Dim barn |

| |
|---|
| Staff yw'r pwysicaf |
| Dim llai na'ch adroddiad adolygiad diwylliannol gwael a nifer uchel o orsafoedd yn ôl galw sy'n cael trafferth cadw diffoddwyr tân |
| Cynhesu byd-eang. Rwy'n byw wrth ymyl nant sydd BYTH wedi gorlifo erioed tan storom "BERT" |
| Nac ydw |
| Efallai y bydd gan rai swyddogion tân hŷn salwch o anadlu mygdarthau pan nad oedd ganddynt yr offer sydd ganddynt nawr. Dylid gofalu am y swyddogion hynny'n briodol. |
| Batris ar gyfer sgwteri a dronau |
| Llifogydd yn gwaethygu. |
| Dwysedd tai pren newydd, mae'n ymddangos eu bod yn dod yn agosach at ei gilydd ac, yn fy marn ostyngedig i, yn cynyddu risg lledu tân |
| Diwylliant yn y gwasanaeth |
| Tanau mewn ardaloedd dwys eu poblogaeth |
| Dim digon o bobl eisiau gweithio yno |
| Pobl yn cynnau tân ar y mynydd yn yr haf sydd i ddod |
| mae llifogydd yn fwy a mwy cyffredin a daw’n fwy o ran o rôl y Gwasanaeth Tân. |
| Mae llifogydd yn dod yn fwy cyffredin, mae Crucywel yn troi'n ynys pan fydd hyn yn digwydd ac nid yw peiriannau tân yn gallu mynd drwodd o ardaloedd eraill, mae trigolion a busnesau Crucywel yn dibynnu ar yr orsaf dân i'w cadw'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn. Mae adolygiad diwylliannol diweddar yn peri cryn bryder a gall gael effaith sylweddol ar gadw staff. Ac felly’r newidiadau arfaethedig hyn |
| Mwy o dai’n cael eu hadeiladu yn yr ardal ac ychydig o fuddsoddiad mewn seilwaith |
| Hinsawdd a thanau gwyllt fel California |
| IE, SUT Y GELLIR YMDDIRIED YN Y BROBLEM (Y TÎM ARWAIN GWEITHREDOL) I DDATRYS Y MATERION SY'N GYSYLLTIEDIG Â DIWYLLIANT PAN FO'N AMLWG BOD Y RHAN FWYAF YN DEILLIO O’R TÎM EI HUN |
| Dim y gallaf feddwl amdano ar hyn o bryd |
| Diffyg cefnogaeth a sylweddoli beth maen nhw'n ei wneud |
| Diffyg ymrwymiad gan recriwtiaid newydd, iau |
| ddim mewn gwirionedd |
| Tanau batris lithiwm. |
| Nac ydw |
| Rwy'n credu cyflwr adeiladau adfeiliedig nad ydynt yn cyrraedd safonau diogelwch. Boed hwnnw’n eiddo preswyl neu fasnachol, mae’n peri gofid oherwydd y risgiau a all ddod ohono |

| |
|---|
| Bydd risgiau newydd yn dod i'r amlwg bob amser. Mae'r cyfan yn rhan o fywyd yn symud yn ei flaen. Mae technoleg yn newid drwy'r amser, boed er gorau neu waethaf. |
| Rhyfel. Dylem fod yn barod ar ei gyfer |
| Mae angen blaenoriaethu diwylliant clwb bechgyn a'i ystyried yn risg os ydych am recriwtio'r bobl iawn ar gyfer y swydd iawn. |
| Amh. |
| Bydd diffodd y system ffôn gwifren gopr a therfynu llinellau ffôn Redcare, a dibynnu ar systemau ffôn band eang digidol y mae angen pŵer lleol arnynt, felly nid yn unig eiddo domestig, ond cartrefi gofal, ysgolion, eglwysi cadeiriol, amgueddfeydd ac ati, yn golygu trafferth yn gwneud galwadau â llaw i'r gwasanaethau brys pe bai toriad pŵer, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r signal ffôn symudol yn wan neu ddim yn bodoli. |
| Dydw i ddim yn hollol siŵr yma, ond mae'r gorlenwi mewn mannau cyhoeddus yn ystyriaeth i mi. |
| Mwy o atal |
| Poblogaeth hŷn gyda hen drydan |
| Galw cynyddol am drydan a phŵer glân |
| Nid risg ond barn y dylai fod un gwasanaeth tân yng Nghymru ac y dylid gwaredu'r awdurdod tân. |
| Ystyried newid yn yr hinsawdd a datblygu cerbydau tanwydd amgen |
| Nac ydw |
| Ehangu hyfforddiant diffoddwyr tân yn yr agweddau meddygol |
| Stormydd mwy difrifol yn ystod y blynyddoedd diwethaf |
| Mwy o lifogydd a thanau glaswellt |
| Amh. |
| mwy o hyfforddiant ar eitemau trydan fel cerbydau, sgwteri ac ati. |
| Dim sy'n dod i'r meddwl |
| Mae'r gwasanaeth tân yn cael ei ddefnyddio i lenwi a gorchuddio materion sy'n gyfrifoldeb i’r GIG, awdurdodau lleol ac unigolion. H.y. gofal, arolygiadau, effaith busnes newydd a datblygiadau. |
| Iechyd meddwl ymhlith yr ifanc. Cyfryngau cymdeithasol a'u heffeithiau ar les pobl ifanc. Amseroedd aros hirach ar gyfer ambiwlans, poblogaeth sy'n heneiddio, |
| Ydw. Y gostyngiad mewn gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig oherwydd LIC yn mynnu blaenoriaethu de Cymru. |
| Ehangu pentrefi a threfi bach yn rhoi pwysau ychwanegol ar y gwasanaeth |
| mae poblogaethau ym mhob cymuned yn tyfu ac adnoddau’n aros yr un peth. |
| Poblogaeth sy'n heneiddio a'r ymddiriedaeth maen nhw'n ei rhoi yn y Gwasanaeth Tân ac wynebau cyfarwydd. Mae'r bobl hyn yn aml yn byw mewn ardaloedd ynysig. |

| |
|---|
| Terfysgaeth |
| Ymyrraeth gan asiantaethau allanol nad ydynt yn gwybod dim am heriau gwirioneddol gweithio mewn cymuned wledig |
| Tanau (y tu allan) yn nhywydd poeth sych yr haf sy'n gynyddol gyffredin. |
| Amseroedd ymateb |
| Ddim yn gwybod |
| Torri glaswellt er mwyn atal tanau gwyllt |
| Nid yw casgliadau sbwriel yn rheolaidd mwyach ac mae hyn yn gadael sbwriel allan i blant ei losgi |
| Newid mewn patrymau cyflogaeth - anhawster cyflenwi diffoddwyr tân ar alwad; gallai materion amrywiaeth effeithio ar recriwtio |
| Newid yn yr hinsawdd a'r anghenion sy'n newid. E.e. diogelu adeiladau rhag tân. |
| Nac ydw |
| Llifogydd |
| Os byddwch chi'n cau Crucywel, bydd effaith andwyol yn bendant ar amser ymateb |
| Byddai israddio gorsafoedd tân gwirfoddol yn drychinebus, gyda risgiau annerbyniol |
| Ni all asesiad risg ond fynd mor bell. Yn anffodus, un diwrnod efallai y bydd angen injan dân arnoch a phan fydd, bydd arnoch ei heisiau'n gyflym. |
| Mwy o lifogydd a mwy o faterion amgylcheddol |
| Yr amgylchedd, tanau mynydd. Pobl wedi syrffedu yn achosi tanau. |
| Mae diffyg cyllid yn arwain at broblemau eraill |
| Perygl coedwigaeth dân ger eiddo gerllaw i'w ystyried |
| Methu meddwl am ddim |
| Risgiau enfawr yn gysylltiedig â'r bwriad i gau gorsafoedd tân lleol |
| Rolau aml-asiantaethol |
| Mae angen mawr am hyfforddiant technoleg newydd, byddai hyn yn ein gwneud yn fwy cyfforddus a hyderus gyda'r hyn sy'n ein hwynebu mewn digwyddiadau. |
| Yn ôl pob tebyg, oherwydd mae yna lawer o risgiau newydd sy'n dod i'r amlwg wrth i'r hinsawdd dorri a rhoi straen ar ein hecoleg sy'n lluosi bygythiadau |
| Mae tai newydd yn cael eu hadeiladu'n gyflym iawn - a ydyn nhw i gyd yn cael eu harchwilio? |
| Toriadau yn y gyllideb |
| Ariannol |
| Rhedyn, gellid atal yr achosion cynyddol o danau mynydd bob blwyddyn gyda rhwystrau tân a rheolaeth briodol |
| Cladin ffermio |
| Y cynnydd mewn ffyliaid! |

| |
|---|
| Dim |
| Nac ydw |
| Gostyngiad mewn gwasanaethau oherwydd cyfyngiadau cyllideb ar ôl cyni 2008 |
| Bydd newid yn yr hinsawdd gyda chynnydd mewn tanau gwyllt a llifogydd yn her allweddol. O ystyried bod y digwyddiadau hyn yn ddwys o ran gweithlu, byddai cael gweithlu gwirfoddol/wrth gefn ychwanegol hyfforddedig i fynychu'r digwyddiadau hyn yn gadael diffoddwyr tân arferol yn eu milltir sgwâr i ddelio â digwyddiadau eraill |
| Rwy'n byw mewn cartref parc ac mae ganddo risiau a drws anarferol ei faint |
| Daw cynnydd mewn traffig, amlder llifogydd difrifol, arwynebau ffyrdd sydd heb eu cynnal i'r meddwl, a byddai pob un ohonynt yn rhwystro amseroedd ymateb i wasanaethau criwiau GTACGC o'r tu allan i ardal Crucywel. Mae'n bwysig bod gorsaf dân yma er mwyn osgoi gwastraffu amser yn cyrraedd argyfyngau. |
| Rwy'n credu bod iechyd a lles staff, yn ogystal â morâl yn is nag erioed o'r blaen. Cawn wybod yn gyson nad ydym yn ddigon da neu ein bod yn ymddwyn yn wael, mae hyn yn cael effaith ddifrifol ar forâl a lles pobl. Mae hyn yn unol â phrawf ffitrwydd bellach yn cael ei ollwng adeg recriwtio, y farn nad yw campfeydd yn deilwng mewn gorsafoedd. Mae hyn i gyd yn effeithio ar bobl. Mae safonau'n gostwng ac mae morâl trwy'r llawr. |
| Mae newid yn yr hinsawdd yn broblem fawr |
| Risgiau o ymosodiadau terfysgol, trais cyhoeddus (diwylliant cyllell) |
| Cyd-ymateb |
| Nac ydw |
| Yr ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru. Cyfrifoldeb y GTA yw darparu'r gwasanaeth gorau i'w gymunedau. Nododd y Cynllun Gofodol flynyddoedd yn ôl fod angen dulliau gwahanol ledled Cymru, trafodwyd hyn yng Nghynllun Cenedlaethol 2040, mae'n rhaid i ni gadw hunanreolaeth i fodloni'r anghenion hynny. Mae ein hanghenion yn wahanol i'r ddau wasanaeth arall. I'r un graddau. mae gennym anghenion gwahanol ar draws ein Gwasanaeth ein hunain. Mae angen yr ymreolaeth arnom i gyflawni hynny. |
| Tanceri nwy Aberdaugleddau |
| Meddyliau annerbyniol am israddio gorsafoedd, peiriannau neu offer trwy'r cynllun hwn fel yr eglurwyd gan Iwan yn ei gyfarfod. Mae angen buddsoddi nid israddio. |
| Cadw gorsafoedd tân amser llawn mewn lleoliadau strategol |
| Batris lithiwm. Halogion |
| Gwanhau hyfforddiant personél i'r graddau ei fod bellach yn anniogel ac yn cynyddu'r risg i'n gweithwyr. Mae angen i ni ganolbwyntio ar ein swyddogaethau craidd a'u gwneud yn dda. Mae angen i ni roi'r gorau i wneud anghymwynas â'n hunain, canolbwyntio o'r newydd ar yr hyn rydym i fod i'w wneud a gwneud y pethau hynny cystal ag y gallwn, er mwyn ein cymunedau. |
| Nac ydw |

Yn seiliedig ar y sylwadau a roddwyd, nodwyd chwe thema gyffredin mewn perthynas â risgiau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

1. **Newid yn yr Hinsawdd a Phryderon Amgylcheddol:** Roedd ffocws sylweddol ar effeithiau newid yn yr hinsawdd, megis mwy o lifogydd, tanau gwyllt, a digwyddiadau tywydd eithafol, a allai effeithio ar ddiogelwch cymunedol ac amseroedd ymateb. Roedd galw am fwy o bwyslais ar faterion amgylcheddol o fewn y gwasanaethau brys.
2. **Cyfyngiadau Adnoddau a Chyllideb:** Roedd llawer o'r sylwadau'n cyfeirio at bwysau ariannol, toriadau cyllid y llywodraeth, a phryderon dyrannu cyllideb a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau, yn enwedig, mewn ardaloedd gwledig. Roedd yr angen i flaenoriaethu gwasanaethau rheng flaen dros rolau rheoli yn amlygu galw am reoli adnoddau'n fwy effeithiol.
3. **Demograffeg sy'n Newid a Heriau Poblogaeth:** Amlygwyd poblogaeth gynyddol sy'n heneiddio, sy'n arwain at mwy o alw am y gwasanaethau brys. Roedd pryderon hefyd ynglŷn â sut i ymateb yn effeithiol i argyfyngau meddygol, wrth i'r boblogaeth dyfu.
4. **Angen Hyfforddi ac Addasu i Risgiau Newydd:** Roedd galw clir am raglenni hyfforddi wedi'u diweddaru i ymdrin â gwahanol fathau o ddigwyddiadau, yn enwedig yn ymwneud â cherbydau trydan a thechnolegau modern eraill. Cydnabuwyd bod angen i ddiffoddwyr tân feddu ar ystod amrywiol o sgiliau i fynd i'r afael â risgiau sy'n dod i'r amlwg yn effeithiol.
5. **Pryderon am Ddarparu Gwasanaethau Gwledig:** Un thema fynych oedd y canfyddiad bod ardaloedd gwledig heb eu gwasanaethu'n ddigonol, yn enwedig o ran amseroedd ymateb a phosibilrwydd cau neu israddio gorsafoedd lleol. Mae heriau unigryw daearyddiaeth wledig yn mynnu atebion wedi'u teilwra i sicrhau diogelwch cymunedol.
6. **Materion Iechyd Meddwl a Morâl:** Roedd morâl staff ac iechyd meddwl yn ymddangos fel pryder, gyda sylwadau am effaith negyddol diwylliant sefydliadol, straen llwyth gwaith, a chefnogaeth annigonol. Ystyriwyd bod cynnal amgylchedd cefnogol i ddiffoddwyr tân yn hanfodol ar gyfer effeithiolrwydd gweithredol ac ymddiriedaeth gymunedol.

Mae'r themâu hyn a nodwyd yn adlewyrchu'r cymhlethdodau sy'n wynebu GTACGC, wedi'u dylanwadu gan ffactorau amgylcheddol, ariannol, demograffig a gweithredol.

# Cwestiwn 8: Ydych chi'n teimlo bod unrhyw feysydd eraill y dylid eu hystyried er mwyn cynorthwyo â sefyllfaoedd lle mae cymunedau’n agored i niwed?

| **Ydych chi'n teimlo bod unrhyw feysydd eraill y dylid eu hystyried er mwyn cynorthwyo â sefyllfaoedd lle mae cymunedau’n agored i niwed? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
|---|
| Rwy'n teimlo bod Partneriaethau yn hynod bwysig, a oes posibilrwydd i gynyddu ein tîm Partneriaethau? Byddai hyn yn caniatáu inni gyrraedd mwy o grwpiau cymunedol a chyflwyno ein negeseuon addysg/diogelwch cymunedol yn gyflymach. |
| Mesurau ataliol a rheoli risg. Os oes digon o gyllideb. |
| Dim |
| Nac ydw |
| Gall cynnydd mewn deialog agored gan ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a sesiynau galw heibio helpu |
| Dim byd arwyddocaol |
| Cefnogaeth a mwy o ymwybyddiaeth ar sut i gadw'n ddiogel gyda thanau |
| Amseroedd teithio rhwng y trefi yn ystod eira/rhew y gaeaf, llifogydd a thwristiaeth yr haf |
| Amh. |
| Diwrnodau agored i'r cyhoedd. |
| Ddim yn gwybod |
| Gallai fod yn ddoeth i bob gorsaf gadw cofrestr risg o'r rhannau mwyaf agored i niwed o gymdeithas ym mhob rhanbarth a chadw cysylltiad rheolaidd i reoli risgiau o'r fath. |
| Cleifion Bariatrig |
| Mae gostyngiad mewn gwasanaethau ysbyty lleol a diffyg ambiwlansys a'r dirywiad cyffredinol mewn iechyd meddwl a chorfforol oherwydd y ffordd y mae'n rhaid i ni fyw yn effeithio ar bawb. |
| Cyflogi arbenigwr recriwtio i gynorthwyo wrth gadw a recriwtio staff |
| Y cyfan mae arnom ei eisiau yw bod yr injan dân yn cyrraedd cyn gynted â phosibl gyda thimau galluog i ddelio â'r dasg wrth law, beth bynnag yw honno. |
| Gweler yr ateb uchod |
| Unrhyw argyfwng yn ein hardal wledig |
| Efallai mwy o hyfforddiant ar sut i ymgysylltu'n gliriach â'r cyhoedd pan fydd materion fel anableddau, pobl sy’n drwm eu clyw, pobl sy'n cael trafferth deall cyngor naill ai trwy anawsterau dysgu neu lle gall Saesneg fod yn ail iaith. |

| |
|---|
| Hybu ymwybyddiaeth |
| Nac ydw |
| Ddim yn siŵr |
| Dim syniad |
| Mwy o gefnogaeth i ardaloedd gwledig |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Oes, mae angen tîm rhyngweithio diogel ac iach. |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Amser i ymateb ar ffyrdd gwledig iawn gyda cherbydau mawr. Po bellaf y mae'n rhaid i beiriant deithio, y mwyaf peryglus ydyw i'r criw hwnnw a defnyddwyr eraill y ffordd waeth pa mor ddiogel y mae'n cael ei wneud |
| Nac ydw |
| Iechyd meddwl o fewn y gymuned. |
| Mae baglu a chwympo bob amser yn broblem mewn cymuned wledig sy'n dibynnu ar y gwasanaeth tân am help. Dywedir wrthym yn aml nad oes ambiwlansys ar gael ac os oes, rhaid aros amser maith amdanynt. Mae deg awr ar y llawr yn mynd i fyrhau bywyd. |
| Sicrhau bod hyblygrwydd defnyddio |
| Gall cartrefi gwledig anghysbell fod yn destun tanau coedwig neu goetir mewn cyfnodau hir o dywydd sych a sychder, felly mae pob gorsaf dân agosaf yn ased gwerthfawr. |
| Ynysu cymunedau a diffyg rhagwelediad mewn perthynas â digwyddiadau a allai ddatblygu. |
| Fel cymuned wledig gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae amseroedd ymateb yn bwysig iawn er mwyn osgoi colli bywydau mewn tanau, gwrthdrawiadau ar y ffordd a materion sy'n gysylltiedig â'r tywydd (e.e. llifogydd). Gall ein tref ddod yn anhygyrch o unrhyw le heblaw ein gorsaf ein hunain felly rwy'n credu os cymerir hynny i ffwrdd bydd y bai am unrhyw golled bywyd neu anafiadau sy'n newid bywyd y gellid bod wedi’u hosgoi yn cael ei roi’n llwyr ar y bobl sy'n ddigon dwl i feddwl nad oes angen gorsaf dân arnom |
| Nac ydw |
| Cadwch orsafoedd tân yn yr ardal - peidiwch â meddwl am ardaloedd trefol yn unig - gan fod tân mewn tŷ yn Rhaeadr Gwy yr un mor bwysig â thân yn Abertawe |
| Amseroedd ymateb |
| Mae angen i'r gwasanaeth tân fynychu pan fydd angen. |
| Mae cadw gorsafoedd tân lleol ar agor ac wedi'u cyfarparu yn hanfodol i bob cymuned. |
| Nac ydw |

| |
|---|
| Peidiwch â thynnu unrhyw wasanaethau o'n gorsafoedd lleol |
| Yn byw mewn pocedi ynysig lle dim ond y gorsafoedd gwledig llai o faint sy'n gallu cael mynediad yn gyflym, maent yn rhan hanfodol o'r gymuned ond mae angen talu mwy i gadw diffoddwyr tân ar alwad |
| Yr henoed yn cwympo. |
| Fel yr uchod |
| Cadw llygad yn rheolaidd ar y rhai sy'n fwy agored i niwed nag eraill. Un flwyddyn fe wnaeth y gwasanaeth tân yn ein hardal ni ddigwyddiad i bawb gael prawf PAT ar eu blancedi trydan a'u cynnal cyn misoedd y gaeaf. Cafodd ymateb gwych. Byddai rhywbeth fel hyn yn dda. Cwpl o sesiynau cwrdd a chyfarch.  Dod i adnabod eich criw tân |
| Ddim yn siŵr |
| Buddsoddi yn y gorsafoedd |
| Mae angen i Bowys werthfawrogi gwasanaethau lleol a derbyn bod angen cyllid ar y rhain. Meddyliwch efallai am leihau'r fuwch arian parod sef llywodraeth Cymru. |
| Roedd yr ymatebwyr cyntaf yn wych ac nid yw'n ymddangos eu bod yn cael eu defnyddio rhyw lawer y dyddiau hyn, maent yn hanfodol gyda'r lefelau cwmpas ambiwlans ofnadwy a bydd eu hangen hyd yn oed yn fwy pan gollir neu symudir y ganolfan ambiwlans awyr |
| Mwy o addysg i'r cyhoedd ar ddiogelwch |
| Gallai cael holiadur ysgrifenedig gwell fod yn ddechreuad. |
| Nac ydw |
| Diffyg Swyddogion Heddlu lleol |
| Efallai gwneud yn glir beth yw ein cynlluniau argyfwng dinesig lleol. |
| Cymuned sy'n heneiddio lle rwy'n byw |
| Ddim yn siŵr |
| Mae’n hanfodol cynnal rhwydwaith cymorth cymunedol cryf, mae dynion tân yn Rhaeadr Gwy yn hynod o gefnogol |
| Y boblogaeth sy'n heneiddio mwyfwy a mynediad gwael at wasanaethau iechyd. Cymorth gan yr heddlu i ymchwilio i'r rhai sy'n achosi'r problemau mewn perthynas â thipio anghyfreithlon a'r problemau y mae'n eu hachosi gyda llifogydd. A fandaliaeth gyffredinol sy'n arwain at alwadau allan. |
| Cadwch y cerbydau a'r cit fel y mae. Mae Land Rovers yn hanfodol mewn ardaloedd gwledig. Peidiwch |
| Ddim yn siŵr |
| Cadw'r lleoliadau gwledig, bydd cau a/neu gyfyngu ar unrhyw rai yn arwain at fwy o farwolaethau. |
| A44/a470 |
| Amh. |
| Ddim yn siŵr |

| |
|---|
| Dydw i ddim yn credu bod digon o wahaniaeth meddwl rhwng ardaloedd trefol a gwledig |
| Nac ydw |
| Ydw. Peidiwch â gwneud toriadau i'r GTA. |
| Cysylltu â'r trydydd sector. Addysgu'r cyhoedd yn eu hangen i fod yn fwy |
| Mewnlifiad tymhorol mewn ymwelwyr a thraffig yn yr haf a llifogydd trwy gydol y flwyddyn. Poblogaeth sy'n heneiddio yn dal i fod gartref. |
| Llifogydd mewn eiddo ynysig |
| Cefnogi ardaloedd gwledig |
| Peidiwch â thorri gwasanaethau a chadwch bethau fel y maent gyda gwelliannau bach lle bo angen |
| Yn esblygu'n barhaus - angen diweddaru'n gyson |
| Pan fydd tai newydd yn cael eu cynllunio mewn ardal fel Llandrindod, dylid darparu tystiolaeth o'r cyllid ychwanegol sydd ei angen ar gyfer gwasanaethau lleol fel y gwasanaeth tân |
| Byddai peidio â chael gwared ar y gwasanaethau tân lleol yn lleihau gwendidau'r gymuned |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Gwasanaeth sydd wedi'i ariannu'n dda ac wedi'i staffio'n dda yw'r peth pwysicaf |
| Nac ydw |
| Ewch yn ôl i'r hyn rydych chi'n ei wneud orau, diffodd tanau, gadewch y jargon gyda'r frigâd *woke*! |
| Nid ar hyn o bryd. |
| Gweler yr ateb uchod |
| Nid ar hyn o bryd |
| Gwasanaeth meddygol |
| NAC YDW |
| Gweler uchod |
| Materion cynllunio i sicrhau mynediad peiriannau i adeiladau e.e. ffyrdd lled llawn |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Gweithio gydag asiantaethau eraill, fel gwasanaethau cymdeithasol. Ymweliadau rheolaidd â chartrefi gofal i sicrhau bod eu mesurau Diogelwch Tân yn gywir. |
| Nac ydw |
| Ymateb meddygol |
| Celcio |

| |
|---|
| Mwy o gyllid i wasanaethau ambiwlans. Economi ffug yw dibynnu ar wasanaethau tân. Pan gwympodd cwsmer yn y siop, daeth y tendar lleol gan nad oedd yr ymatebwr cyntaf yn cario ocsigen a daeth dau ambiwlans, un o dde Cymru! |
| Arolwg ar alwadau allan a faint o wasanaethau eraill sy'n cael eu galw allan hefyd. Yn aml mae’r heddlu, y gwasanaeth tân ac ambiwlans yn cael eu galw allan i un digwyddiad |
| Mwy o staffio |
| Iechyd meddwl |
| Y tabŵ iechyd meddwl sy'n gostwng, mewnfudo cynyddol ac integreiddio amheus |
| Rwy'n teimlo'n fwy diogel o wybod bod fy ngorsaf leol yno beth bynnag a ddaw. |
| Trwy sicrhau bod eich gweithlu’n cael gofal a’i fod yn hapus i weithio, bydd hyn yn helpu gallu gwasanaethau i ofalu am y gymuned |
| Mae gan ein hadran DTS un tîm, byddai ein cymuned yn elwa pe bai tîm arall ar gael ar gyfer ymweliadau diogel ac iach |
| Nac ydw |
| Cynyddu hyfforddiant ymhlith gorsafoedd er mwyn cyfarparu pob gorsaf unigol yn well i wynebu ystod eang o achosion |
| Iechyd cyffredinol y boblogaeth |
| Amseroedd ymateb mewn ardaloedd gwledig |
| Ymateb meddygol mewn ardaloedd gwledig |
| Mae angen awdurdod tân ar ardaloedd gwledig, ddylai ddim fod yn loteri cod post |
| Hyfforddiant diogelwch ffyrdd mewn colegau gan ddiffoddwyr tân oherwydd mae’r damweiniau cyflym yn ein hardal gan bobl ifanc sydd newydd basio eu prawf ac wedi cael damwain oherwydd eu diffyg profiad a'u diffyg ofn. |
| Ystyried sut mae rhai o'r gorsafoedd llai o faint yn ymateb i alwadau allan o'u hardaloedd lleol a deall a chydnabod hyn wrth ystyried data ymateb |
| Gallai gwirfoddolwyr lleol gael eu hyfforddi i helpu gyda diogelwch ataliol mewn ffordd "hyfforddi'r hyfforddwr".  Gellid ystyried codi arian yn lleol. Gwnaeth Llanwrtyd a'r cylch godi arian anhygoel mewn hinsawdd ariannol anodd ychydig flynyddoedd yn ôl i ar gyfer cerbyd cyd-ymateb newydd. |
| Mwy o ddefnydd o gamerâu cyflymder cyfartalog i leihau goryrru gormodol ar ffyrdd gwledig a'r gwrthdrawiadau sy'n deillio o hynny |
| Dim Trofwrdd Cyrraedd yn Uchel yng Nghanolbarth Cymru |
| Nac ydw |
| Talu mwy iddyn nhw |
| Mae gorsafoedd tân y Canolbarth yn gwasanaethu ardaloedd enfawr, a ffyrdd gwledig troellog araf yw’r unig ffordd o’u cwmpas. Mae lleihau gorsafoedd ar alluoedd ymateb cyfyngol yn afrealistig. |
| Integreiddio'r gorsafoedd tân yn llawn i gyfleoedd ymateb eraill. |

| |
|---|
| Rwy'n credu bod y gwasanaeth gwych y mae ein gwasanaeth lleol presennol yn ei gynnig yn parhau i gynnal cyfradd is o fregusrwydd cymunedol |
| Mae gwasanaeth lleol yn hanfodol, yn enwedig mewn ardaloedd ynysig yng Nghymru |
| Rheoli disgwyliadau, ni allwn wneud popeth a ddisgwylir gennym ni. |
| Gwasanaeth parafeddygol |
| Darparu mwy o hyfforddiant i staff ar alwad neu ddarparu gwaith cymunedol ychwanegol i staff amser cyflawn i gydbwyso’r gymuned yn ogystal ag ymgysylltu mwy ag unigolion bregus. |
| Nac ydw |
| Cadw gorsafoedd ar alwad a'u gallu i helpu cymunedau ym mhob ffordd y gallant |
| Galwadau am gwympiadau |
| Anogaeth i bobl agored i niwed/oedrannus neu eu cefnogwyr i ofyn am ymweliadau cartref, i asesu risgiau |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Wn i ddim, ond a ydy diffoddwyr tân yn dal i fynd i ysgolion i addysgu'r risgiau |
| Dim y gallaf feddwl amdano. |
| Hyfforddi mwy o aelodau o'r gymuned mewn cymorth cyntaf fel yn achos galwad gardiaidd, yn aml gall gymryd rhy hir i ni ymateb mewn pryd. |
| Mwy o gyfarfodydd ymgysylltu fel hyn ac ymweliadau gweithle, coleg, ysgol |
| Nac ydw |
| Yn bersonol rwy'n hapus i gynorthwyo'r gwasanaeth ambiwlans pan fo angen, trosglwyddo gwybodaeth i'r adrannau cywir os ydych chi'n meddwl bod rhywbeth o'i le, ond bydd ymateb i alwadau meddygol pan nad ydym wedi'n hyfforddi yn brofiad gwahanol nad ydym wedi'u hyfforddi ar ei gyfer, ac mae cael ein huwchsgilio yn y maes hwn yn gofyn am lawer o arian nad oes gan y llywodraeth |
| Dylid canolbwyntio ar danau, atal tân, damweiniau ffyrdd a llifogydd ac ati. Dylai'r gwasanaeth iechyd fod yn darparu iechyd |
| Dim barn |
| Gwrandewch ar eich gweithlu! Peidiwch â bwlio'ch staff gyda newid shifft nad oes ei eisiau na hyd yn oed ei angen |
| Llwybrau gorlifo ychwanegol ar gyfer y gamlas. |
| Cynaliadwyedd yr orsaf a gweithrediadau tân |
| Nac ydw |
| Addysgu cymorth cyntaf defnyddiol sylfaenol i blant a phobl ifanc mewn ysgolion. |
| Gweithio gyda grwpiau agored i niwed lleol i'w gwneud yn ymwybodol ohonoch chi a sut y gallwch chi helpu |
| Atgyfeiriadau diogelu effeithiol i awdurdod lleol ar gyfer pobl agored i niwed yn ein cymuned |

| |
|---|
| Pwynt cyswllt lleol wedi'i hysbysebu'n dda, hawdd ei gyrraedd i gynorthwyo gyda chysylltiad cymunedol. |
| Dw i'n meddwl bod angen i ni gael trefn ar y ffyrdd yn y canolbarth Cymru, mae llawer gormod o farwolaethau. |
| Yng Nghaint mae'r heddlu’n cynnal sesiynau "paned gyda’r plismyn" lle gall y cyhoedd gwrdd â swyddogion heddlu, trafod unrhyw beth, cael paned a thrafod unrhyw beth. Mae'n magu ffydd yn y gwasanaeth ac yn dileu rhwystrau. |
| Cydweithio ag asiantaethau eraill |
| Ysgolion |
| Help i atal |
| Mae cael gwasanaeth ar alwad yn unig ym Mhowys yn risg. |
| Wrth i bobl ddod yn fwy ordew - mae angen y Gwasanaeth Tân i symud pobl ac ati.  Mae gan Ganolbarth Cymru boblogaeth oedrannus gyda mwy o wendidau na phoblogaethau mewn ardaloedd trefol o ran tanau, llifogydd ac ati. |
| Mae pethau wedi newid ac mae larymau mwg wedi helpu. Mae pobl yn aros gartref am gyfnod hirach |
| ddim mewn gwirionedd |
| Nac ydw |
| Bydd yna bob amser wendidau yn y gymuned. Gall hyn fod oherwydd yr henoed neu gan y bobl ifanc. Mae llawer oherwydd diffyg cyfleoedd i bobl ifanc neu ddiffyg addysg. |
| Defnyddio’r ymatebwyr cyntaf ar gyfer mwy nag achosion cardiaidd a chwympo |
| Amh. |
| gweler 12 uchod |
| Help gyda systemau larwm |
| Efallai ieuenctid ac oedolion ifanc. Efallai y dylai fod ffordd o ymgysylltu â'r gymuned ac addysgu pobl am ddiogelwch tân a phethau. Rwy'n gwybod y byddwn i fy hun wrth fy modd â rhywbeth fel yna gan fod gen i ddiddordeb yn y gwasanaeth tân, ac mae'n ffordd o fynd allan a bod yn ddiogel am ychydig. Fel diwrnodau agored yr orsaf dân |
| A minnau’n defnyddio cadair olwyn a sgwter symudedd weithiau, rwy'n teimlo'n hynod agored i niwed bob amser, ac felly rwy’n ceisio aros gartref. |
| Nac ydw |
| Rwy'n gwybod bod y gwasanaeth yn hynod ragweithiol yn helpu pobl agored i niwed i liniaru rhag tân |
| Mewn ardal wledig mae'n hanfodol bod adnoddau gwerthfawr fel y gwasanaeth tân ac ymatebwyr yn cael eu defnyddio hyd eithaf eu gallu i dawelu meddyliau aelodau'r gymuned a chefnogi eu gwendidau. |
| Mae'r gwasanaeth yn gwneud digon ar hyn o bryd |
| Cysylltiadau agosach â chynghorau cymuned |

| |
|---|
| Nac ydw |
| Gwybodaeth i'r cyhoedd ar risgiau e-sgwteri ac e-feiciau |
| Nac ydw |
| Dim byd uwchlaw’r hyn y mae'r gwasanaeth yn ei ddarparu |
| Amh. |
| Nac ydw |
| Ymwybyddiaeth am ddiogelwch gyrwyr, er mwyn lleihau amser ar geir wedi’u malu |
| Addysgu'r cyhoedd ynglŷn â'r hyn y gall y gwasanaeth ei wneud a’r hyn nad all ei wneud a sut i helpu ein hunain |
| cymhellion ar gyfer recriwtio mewn ardaloedd gwledig iawn |
| Mewn cymuned wledig, mae angen gorsafoedd a lluoedd lleol arnom |
| Mae'r Gwasanaeth Tân yn rhan angenrheidiol iawn o'r gymuned hon. Byddai'n ofnadwy colli'r gwasanaeth lleol a’r diogelwch a'r gofal maen nhw'n eu darparu |
| Cydweithrediad rhwng yr holl wasanaethau brys |
| Nac ydw |
| Nid yw llawer o bobl yn gwybod bod gorchudd dail sych ar y ddaear mewn ardaloedd coediog yn flwch tân. Efallai y gallai'r gwasanaeth tân wneud rhagor i bwysleisio'r pwynt y gall sigarét, coelcerthi a barbeciwiau wedi’u taflu losgi’n wyllt yn gyflym yn yr amgylchedd hwn mewn tywydd sych. |
| Nac ydw |
| Ddim yn gwybod |
| Dim ond trwy grŵp Facebook lleol y dysgais am yr ymgynghoriad hwn (nid Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru). Yna fe’i cefais yn anodd iawn dod o hyd iddo ar eich gwefan. |
| Mwy o oddefgarwch gan y cyhoedd |
| Mae clybiau ieuenctid wedi gostwng a gallant achosi problemau |
| Mae angen mwy o glybiau i'r ieuenctid i'w cadw allan o drafferthion |
| Angen ymgysylltu'n llawnach â chynghorau tref / cymuned? |
| Dulliau cyfathrebu, pan darfir ar signalau symudol. |
| Adeiladau wedi'u gadael heb eu meddiannu fel hen ysgolion ac adeiladau cyhoeddus ac ati - mae awdurdodau lleol yn aml yn euog o hyn. |
| Nac ydw |
| peidiwch â chau Crucywel - bydd yn achosi mwy o wendidau |
| Byddai'r model "prif ganolfan a lloerennau" ar gyfer darparu gwasanaeth yn arwain at lai o gwmpas gwasanaeth. Nid yw hynny’n dderbyniol |
| Cefnogaeth i'n diffoddwyr tân rhan-amser. Maent yn allweddol i wasanaeth tân ac achub gwledig. O'r hyn rydych chi'n ei glywed gan ddiffoddwyr tân lleol sy'n gwasanaethu ac sydd wedi ymddeol, mae'r rheolaeth yng ngwasanaeth tan ac |

| |
|---|
| achub y Canolbarth a'r Gorllewin yn amheus ac efallai mai dyma'r rheswm bod gorsaf Crucywel bob amser yn cael trafferth yn cael diffoddwyr tân. W |
| Mwy o fentrau atal tân |
| Addysg |
| Newid cyllid i bresept yn yr un modd ag y mae'r heddlu yn cael ei ariannu i gynnal gwasanaeth cwbl effeithiol. Mae ffyrdd gwledig yn helaeth ac yn beryglus; mae'n bwysig ystyried yr amseroedd teithio go iawn sydd eu hangen i ymateb i danau anghysbell neu ddamweiniau ffordd ac ati. |
| Peidiwch â chau gorsafoedd tân lleol |
| Gwledigrwydd |
| Fel gwasanaeth rwy'n teimlo ein bod ar hyn o bryd yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddarparu'r gefnogaeth orau i'n cymunedau. |
| Rydw i'n mynd i wrthdroi fy mlaenoriaethau ar gyfer y cwestiwn cyntaf a phwysleisio datblygu meddwl ar y cyd â gwasanaethau ymatebwyr cyntaf eraill a model gwahanol ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned ar hyd llinellau megis prosiectau dinasyddiaeth newydd |
| Dylid ystyried bod ysgolion yn agored i niwed |
| Gweithio mewn partneriaeth |
| Recriwtio a chadw |
| Cymorth i bobl hŷn |
| Mwy o sesiynau galw heibio am wybodaeth gyda'r henoed a'r genhedlaeth iau. |
| Byddai diwrnod agored lleol yn helpu, byddai'n gyfle i bobl gael gafael ar yr wybodaeth ac i bobl beidio â theimlo eu bod yn cymryd amser |
| Nac ydw |
| Dylid sefydlu swyddfa newydd i gymryd rhai o'r tasgau llai critigol oddi ar y gwasanaeth tân, fel atal, fel y gallant flaenoriaethu ymateb tân a diogelwch craidd. |
| Gweler nod cenhadaeth #1 |
| Dylid estyn rôl yr ymatebwr cyntaf y tu hwnt i syrthio ac ataliadau'r galon!! Mae'n debyg bod hon yn broblem gyllid ar gyfer gwasanaeth ambiwlans. Byddai'r rôl ehangach hon yn gwella gwerth bod yn ddiffoddwr tân. |
| Bydd gwendidau cymunedol yn gwaethygu'n sylweddol pe bai'r newidiadau shifft sydd ar ddod yn cael eu gweithredu gan y bydd yn effeithio o ddifrif ar argaeledd peiriannau |
| Mae llawer o adeiladau risg uchel sy'n werth eu diogelu yn yr ardal o fewn ardal yr orsaf dân |

Yn seiliedig ar y sylwadau a roddwyd, nodwyd chwe thema gyffredin mewn perthynas â sut i gefnogi gwendidau yn y gymuned.

1. **Pwysigrwydd Ymgysylltu â'r Gymuned a Phartneriaethau:** Roedd galwadau cryf am ymgysylltu'n well â'r gymuned trwy fwy o bartneriaethau, mentrau allgymorth, addysg gyhoeddus ar ddiogelwch tân, a dulliau cyfathrebu mwy hygyrch, megis defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol a diwrnodau agored gorsafoedd tân. Roedd y duedd hon yn amlygu bod angen magu perthynas â chymunedau lleol i gyflwyno negeseuon diogelwch yn effeithiol a gwella canfyddiadau gwasanaeth.
2. **Canolbwyntio ar Boblogaethau sy'n Agored i Niwed:** Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod angen cydnabod a chefnogi aelodau bregus o gymdeithas, yn enwedig yr henoed, y rhai ag anableddau, a grwpiau eraill sydd mewn perygl. Roedd yr awgrymiadau'n cynnwys cadw cofrestri risg ar gyfer poblogaethau agored i niwed, cynnal archwiliadau diogelwch rheolaidd, a chyflwyno mentrau addysgol wedi'u targedu.
3. **Amseroedd Ymateb a Heriau Gwledig:** Pwysleisiodd llawer o'r ymatebwyr bwysigrwydd cynnal gorsafoedd tân ac adnoddau lleol i sicrhau ymatebion mewn pryd, gan dynnu sylw at yr heriau unigryw wrth ddelio ag argyfyngau mewn ardaloedd gwledig. Roedd pryderon am amseroedd teithio a hygyrchedd yn ystod tywydd garw yn atgyfnerthu bod angen dyrannu adnoddau'n briodol mewn ardaloedd daearyddol ynysig.
4. **Iechyd Meddwl a Lles y Gymuned:** Roedd pryderon cynyddol am faterion iechyd meddwl a lles yn y gymuned ac o fewn y Gwasanaeth ei hun. Amlygwyd bod cynyddu ymwybyddiaeth, rhwydweithiau cymorth, a meithrin presenoldeb gwasanaeth cymunedol cryf yn gamau angenrheidiol i wella diogelwch a lles cyffredinol.
5. **Materion Recriwtio a Staffio:** Roedd y sylwadau'n dangos bod angen strategaethau i recriwtio a chadw Diffoddwyr Tân, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Gwnaed awgrymiadau hefyd i gyflogi arbenigwyr recriwtio a darparu hyfforddiant i wella ymgysylltiad a chefnogaeth y gymuned, gan bwysleisio cyfraniad hanfodol Diffoddwyr Tân Ar Alwad.
6. **Angen Addysg Effeithiol am Dân a Diogelwch:** Cafwyd consensws am bwysigrwydd addysgu'r cyhoedd am brotocolau diogelwch tân, rheoli risg, ac argyfwng. Roedd llawer o sylwadau'n argymell bod angen mentrau sy'n addysgu cymorth cyntaf sylfaenol, hybu ymwybyddiaeth am atal tân, a chynnwys aelodau'r gymuned mewn arferion diogelwch, gan bwysleisio y gall addysg ragweithiol leihau argyfyngau.

Mae'r themâu a amlygwyd yn adlewyrchu'r heriau a'r cyfleoedd amrywiol sy'n wynebu GTACGC mewn cymunedau gwledig, gan bwysleisio bod angen dulliau cydweithredol i feithrin diogelwch a gwytnwch cymunedol.

## Cwestiwn 9: Fyddech chi’n hoffi gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol neu rannu rhagor o wybodaeth gyda ni a fydd yn ein helpu i wella Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru?

| **Fyddech chi’n hoffi gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol neu rannu rhagor o wybodaeth gyda ni a fydd yn ein helpu i wella Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
|---|
| Nid ar hyn o bryd. |
| Deallusrwydd artiffisial? |
| Os yw'r gwasanaeth yn poeni am faterion ariannol, yna dylai ganolbwyntio ar ei weithgareddau craidd, y mae'r trethdalwr cyffredinol yn talu amdanynt. a thorri ei frethyn yn briodol ond nid ar draul diffoddwyr neu orsafoedd tân. |
| Dim |
| Mwy o fynediad at hyfforddiant diogelwch tân i bersonau cyfrifol mewn safleoedd cymunedol |
| Nac ydw |
| Pe bai aelod o'ch teulu chi’n sownd ac angen help arno, a fyddech chi'n hapus gyda'r amseroedd ymateb y bydd y newidiadau arfaethedig yn eu creu? |
| Mae'r cynigion rydw i wedi'u darllen yn wirion, mae Tref-y-clawdd yn gwneud gwaith gwych gyda thanau, damweiniau ffordd a llifogydd - gadewch lonydd iddyn nhw. Rydym yn byw mewn ardal wledig iawn, mae gan ein diffoddwyr tân wybodaeth leol, fyddai pobl o'r tu allan byth yn dod o hyd i ffermydd ac ati. |
| Amh. |
| Cadwch yr orsaf dân yn Nhref-y-clawdd fel y mae. Mae'r gefnogaeth mae’n ei rhoi i gymuned wledig felly mor bwysig ac i ardaloedd cyfagos. Roedd angen help arnaf gan y frigâd dân ryw ddwy flynedd yn ôl a byddai'r sefyllfa wedi bod yn wahanol iawn pe na bawn i wedi cael ymateb cyflym ganddyn nhw. |
| Mae cymhelliant yn eich gwasanaeth yn allweddol, a dylai toriadau staff a hyfforddiant fod yn flaenoriaeth isel i gynnal cymhelliant o'r fath a pharhau i ddarparu gwasanaeth gwych. |
| Amh. |
| Canolbarth Cymru yw perthynas dlawd Gogledd a De Cymru bob amser o ran gwasanaethau sydd gennym yn yr ardal wledig iawn hon. Rydym eisoes wedi dioddef toriadau i lawer o wasanaethau cyhoeddus yma, nid oes gennym Ysbyty Cyffredinol ac o 2026 ni fydd gennym Ambiwlans Awyr wedi’i neilltuo yma chwaith. Nid ydym am golli unrhyw un o'n gorsafoedd tân hefyd gan y bydd hyn yn cynyddu amseroedd ymateb ac yn achosi anafiadau a marwolaeth mewn llawer o achosion |

| |
|---|
| os bydd criwiau tân yn gorfod teithio'n bellach i wasanaethu Llanandras / Tref-y-clawdd a'r holl leoedd llai yma yng nghefn gwlad y Canolbarth. Mae ein bywydau yr un mor bwysig â'r rhai yn yr ardaloedd mwy poblog, ac mae gwir angen i ni gadw ein gorsafoedd tân a'n criwiau yn lleol i ni. |
| Peidiwch â dyrannu un rheswm dros alwadau allan i un orsaf benodol. Bydd yn dad-sgilio'r holl staff rhan-amser ac yn cynyddu amseroedd ymateb mewn ardal wledig ac yn cynyddu costau ac adnoddau ac yn effeithio'n fawr ar gymuned wledig iawn. |
| Mae angen iddo fod yn wasanaeth achub lleol, gan gefnogi achub pellach i ffwrdd os oes angen |
| Y llinell waelod yw cael yr injan dân allan o'r orsaf a chyrraedd y gymuned cyn gynted â phosibl. Gallaf weld bod cyllid yn broblem os yw'r rheolwyr sefydliadau tân yn cymhlethu hynny'n ormodol. Edrychwch ar yr hyn sy'n wirioneddol bwysig a beth sydd ei angen ar y gymuned. |
| Yn anffodus, nid wyf yn siŵr o'r holl gyfrifoldebau sy'n wynebu GTACGC felly nid wyf yn teimlo'n gymwys i ateb y cwestiwn |
| Nac ydw |
| Diolch am eich holl waith caled |
| Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwneud gwaith gwych, gan roi o'u hamser i helpu eraill mewn trallod a dylai hyn barhau |
| Daliwch ati i wneud y gwaith gwych rydych chi'n ei wneud. Nid ydych chi'n cael eich gwerthfawrogi'n ddigonol o bell ffordd, ac rwy'n credu bod y rhan fwyaf o bobl yn ymwybodol o'r anawsterau sy'n wynebu'r holl wasanaeth Tân ac Achub. |
| Diolch am eich cymorth |
| Nac ydw |
| Gwybodaeth taflen gyda fideo QR |
| Mwy o raglenni ymwybyddiaeth |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Diffoddwyr tân peripatetig i gefnogi gorsafoedd tân ar alwad. |
| Nac ydw |
| Colli set sgiliau os ydych chi'n ystyried bod Gorsaf 1 yn gwasanaethu achosion X yn unig a Gorsaf 2 yn mynd allan at Y a Z yn unig |
| Dylai pob gorsaf allu mynd allan i unrhyw ddigwyddiad nid dim ond digwyddiad penodol |
| Nac ydw |
| Mae'n hanfodol bod gorsafoedd lleol yn parhau. Mae angen i ni gadw amseroedd ymateb i'r lleiafswm ac mae angen darparu'r gwasanaethau hanfodol hyn yn gyflym ac yn lleol |

| |
|---|
| Mewn cymunedau bach rydym yn dibynnu'n gryf ar ein gorsaf dân am lawer mwy. Nhw yw cadarnle ein cymuned nid yn unig mewn argyfwng ond mewn digwyddiadau elusennol, carnifalau, unrhyw beth mewn gwirionedd. |
| Mae'r shifftiau 2-2-4 presennol yn ddiogel ac yn gyfeillgar i deuluoedd. Cymerwch olwg ar orsafoedd criw dydd gan eu bod mewn llawer mwy o berygl. |
| Teithiwch o amgylch eich ardaloedd gwledig a chysylltu â'ch staff rhan-amser. Mae llawer ohonynt yn cael eu talu’n llai gennych nag y byddent yn gwneud eu swyddi amser llawn gan eu bod wir yn credu eu bod yn darparu gwasanaeth hanfodol (ac maen nhw) ac yn aberthu pethau i wneud hynny |
| Hyfforddwch yr holl orsafoedd yn ôl galw i'r un lefel lle maen nhw ar hyn o bryd. Byddai'n gwbl hurt aros am awr i injan dân gyrraedd mewn argyfwng. |
| Recriwtio mwy o ddiffoddwyr tân i gadw gorsafoedd ar gael 24/7 |
| Cadw cyllid wedi'i gyfeirio at y pen miniog |
| Y llinell waelod yw bod yr injans tân yn cyrraedd yr argyfwng mor gyflym ac mor ddiogel â phosibl i helpu'r bobl mewn angen. Does dim byd pwysicach na hyn. Dyma sydd ei angen ar y gymuned a pherchnogion busnes. |
| Mae cadw gorsafoedd tân gwledig lleol ar agor yn hanfodol am nifer o resymau allweddol:  Amseroedd Ymateb Cyflymach: Mae ardaloedd gwledig yn aml wedi'u gwasgaru'n ddaearyddol, sy'n golygu y gall gwasanaethau brys o orsafoedd pell gymryd mwy o amser i gyrraedd. Mae gorsaf dân leol yn sicrhau amseroedd ymateb cyflymach, a all fod yn allweddol wrth achub bywydau a lleihau difrod i eiddo. Diogelwch Cymunedol: Gall ardaloedd gwledig wynebu risgiau penodol, fel tanau gwyllt, damweiniau amaethyddol, neu ddigwyddiadau sy'n ymwneud â da byw, sy'n gofyn am wybodaeth ac offer arbenigol. Mae gorsafoedd tân lleol wedi'u cyfarparu a’u hyfforddi'n well i ymdopi â'r heriau unigryw hyn. Gwydnwch a Gwybodaeth Leol: Mae gan ddiffoddwyr tân mewn gorsafoedd gwledig ddealltwriaeth ddyfnach o'r dirwedd, y seilwaith a'r gymuned leol. Mae'r wybodaeth hon yn caniatáu iddynt ymateb yn fwy effeithiol i argyfyngau, boed cael hyd i’w ffordd o gwmpas ffyrdd gwledig, deall risgiau lleol, neu ddarparu addysg gymunedol ar atal tân. Atal Gorlwytho Gorsafoedd Mwy o Faint: Mae gorsafoedd gwledig yn aml yn llinell amddiffyn gyntaf. Hebddyn nhw, gallai gorsafoedd tân trefol mwy o faint gael eu llethu â galwadau, a hynny efallai’n effeithio ar eu gallu i ymateb yn gyflym ac yn effeithlon i argyfyngau mewn ardaloedd trefol a gwledig. Ymgysylltu â'r Gymuned: Mae gorsafoedd tân lleol yn meithrin ymdeimlad o gymuned. Maent yn aml yn ymwneud ag addysg atal tân, codi arian, a digwyddiadau lleol, gan greu cysylltiadau cymunedol cryfach a helpu i hybu ymwybyddiaeth am ddiogelwch tân. Cefnogi Economi a Lles Gwledig: Mewn llawer o gymunedau gwledig, mae gorsafoedd tân yn rhan hanfodol o'r seilwaith lleol. Maent yn darparu swyddi, yn cefnogi busnesau lleol, ac yn sicrhau bod yr ardal yn parhau i fod yn ddiogel ac yn ddeniadol i drigolion a buddsoddwyr posibl. Yn fyr, mae cynnal gorsafoedd tân gwledig lleol yn helpu i sicrhau bod pobl mewn ardaloedd anghysbell yn cael cymorth arbenigol mewn pryd mewn argyfwng, gan hefyd gyfrannu at wydnwch a diogelwch ehangach y gymuned. |
| Nac ydw |

| |
|---|
| Efallai edrych ar gefnogi gwaelod y pyramid yn hytrach na gofalu am yr uwch aelodau ar y brig. |
| Mae angen i ni roi arian, amser ac ymdrech i'r gwasanaeth hwn, nid meddwl am gau a thorri'n ôl ac ati. Ni allwn golli cefnogaeth gorsafoedd tân gwledig na gwanhau'r gwasanaeth lle rydych yn mentro'ch lwc i weld a yw'n eich cyrraedd chi ai peidio. Bydd yn dod fel ein gwasanaeth GIG, wedi torri! |
| Rhagor o gyllid |
| Mae'r frigâd dân yn wasanaeth gwych a hanfodol.  Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud. |
| Anghofiwch syniad y brif ganolfan a lloerennau! |
| Maen nhw'n gwneud gwaith gwych mewn amgylchiadau anhygoel o anodd. Rydyn ni'n wledig ac yn dibynnu'n llwyr arnyn nhw. Yn enwedig gan eich bod chi'n cael gwared ar ein hambiwlans awyr. |
| Peidiwch â chau unrhyw orsafoedd tân yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle gallai amser ymateb fod yn hollbwysig. |
| Byddwn yn bryderus iawn pe bai Gorsaf Dân Crucywel yn cael ei hisraddio mewn unrhyw ffordd.  Mae Crucywel yn aml yn cael ei disgrifio fel ynys yn ystod llifogydd, oherwydd daw'r holl ffyrdd cyfagos yn anhygyrch.  Mae angen uwchraddio Crucywel i fod yn orsaf rydio.  Bydd cydgrynhoi gwasanaethau i drefi mwy o faint yn anochel yn arwain at amseroedd ymateb arafach. |
| Nac ydw |
| nac ydw |
| Canolbwyntio ar recriwtio |
| Rhyddhewch fwy o arian i'ch helpu i barhau â'ch gwaith anhygoel. |
| Daliwch ati gyda'ch holl waith caled |
| Diolch am eich cymorth i gyd |
| Byddwn yn ofni iechyd a diogelwch fy nghymuned heb ein gorsaf dân leol. |
| Cyllidebau mwy o faint |
| Mae'n anodd gwneud sylwadau pan mae llawer o risgiau ynglŷn â gostyngiadau mewn gwasanaethau gan yr awdurdod iechyd, yr heddlu ac ati ar yr un pryd. |
| Rôl hanfodol yn y cymunedau lleol, yn enwedig gyda lleoliadau gwledig o'r fath |
| A dweud y gwir, dydw i ddim yn gwybod llawer iawn am y Gwasanaeth Tân ac Achub, ond rydw i bob amser yn hapus i ddysgu mwy. |
| Cadwch bob gorsaf gan fod ein gorsaf leol wedi cael ei defnyddio dros 100 gwaith eleni |
| Amh. |
| Nac ydw |
| Rhowch well hyfforddiant iddyn nhw! Adlewyrchwch y ffordd y mae Swydd Amwythig yn hyfforddi recriwtiaid |

| |
|---|
| Mae'r fenter o fynd i ysgolion i addysgu plant ar sut i fod yn ddiogel ac yn ddeallus yn dda iawn |
| Mae gan fy ardal leol dîm gwych, ymroddedig hynod fedrus ac mae'n deall yr ardal leol o ran tir a demograffeg |
| Rwy'n credu ei bod yn wych bod ein diffoddwyr tân wedi'u hyfforddi ym mhob maes i gynorthwyo unrhyw argyfyngau agosaf atynt |
| Fel gorsaf rydym newydd gael y flwyddyn brysuraf ers i'r orsaf agor ym 1967. Mae hyn yn dangos na ddylid ac na ellir israddio'r orsaf |
| Peidiwch â rhannu gwasanaethau rhwng gorsafoedd, mae'n bwysig bod pob gorsaf yn gallu gwneud gwasanaethau lluosog nes bod mwy o gymorth yn cyrraedd |
| O'm profiad i, rydyn ni (y cyhoedd) yn mwynhau gwasanaeth rhagorol. |
| Diolchgar iawn am bopeth rydych chi'n ei wneud. |
| Nac ydw |
| Peidiwch â bychanu gwerth eich criwiau rhan-amser ar gyfer ardaloedd gwledig |
| A yw 2040 yn orwel amser addas i'w ystyried. 15 mlynedd?  Mae llawer yn newid yn y cyfnod hwnnw. Technoleg, cyllid ac ati. A ddylid ystyried ffrâm amser fyrrach? 10 mlynedd? |
| Gwasanaeth sydd wedi'i ariannu'n dda ac wedi'i staffio'n dda yw'r peth pwysicaf |
| Na, dim diolch |
| Fel yr uchod Gwasanaeth gwych - peidiwch â chael gwared arnyn nhw os dyna beth rydych chi'n ceisio ei wneud!! |
| Ddim ar hyn o bryd |
| Does dim angen gwelliannau - fodd bynnag, mae cael cyfarfod yn LLANDDEWI-YN-HWYTYN lle nad oes neb yn byw mewn gwirionedd yn chwerthinllyd fel y gallwch ddweud nad oedd neb yn bresennol ac felly nid oedd unrhyw ddiddordeb lleol ... gadewch i ni gael cyfarfod gyda'r nos yn Nhref-y-clawdd ac ym mhob tref yr effeithir arni yn yr ardal sydd â gorsaf dân, yna gweld beth yw'r ymateb.  Os gwnewch chi'r newidiadau arfaethedig, mae'n ddedfryd marwolaeth i unrhyw un y mae angen y gwasanaeth hanfodol hwn arno ... yn sicr yn ein hardaloedd ni.  Os oes rhaid i ni aros i injan dân ddod o Aberhonddu neu Landrindod (a fyddai'n 30 i 90 munud) i dân pan mae injan dân i fyny yn yr orsaf, yna llofruddiaeth yw hynny, yn syml, a dylai'r "penaethiaid" sy'n gwneud y penderfyniad hwn fod yn bersonol gyfrifol am y marwolaethau hynny ... ewch â rhywbeth arall i ffwrdd o'r canolbarth, peidiwch â phoeni os byddwch chi'n lladd rhywun yn y cyfamser, dim ond person arall, cyhyd ag y cewch chi'ch cyflog !!!! |
| Gwella'r system recriwtio |
| Nac ydw |
| Na, dim ar hyn o bryd |
| Nac ydw |
| NAC YDW |

| |
|---|
| Cyfleoedd i siarad ag uwch reolwyr a llunwyr polisi, nid holiaduron di-wyneb yn unig |
| Dim israddio gorsafoedd tân |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Cyfle i drigolion Llandrindod fynychu cyfarfod ymgynghori yn lleol |
| Nac ydw |
| Amh. |
| Nac ydw |
| Llai o Reolwyr yn rheoli gwasanaeth hanfodol |
| Rwy'n credu nad yw'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael gwybod am yr ymgynghoriadau presennol a fydd yn amlwg yn effeithio ar allu’r gwasanaethau i ymateb a darparu gwasanaethau |
| Mae angen mwy o gefnogaeth gan y gwasanaeth wrth recriwtio diffoddwyr tân newydd rhan-amser a sicrhau bod y rhai sydd mewn gwasanaeth yn gallu parhau i wasanaethu. |
| Amh. |
| Nac ydw |
| Dylai pob tref gael gwasanaeth tân sy'n ymateb i bob galwad |
| Cadwch orsaf Crucywel ar agor |
| Nac ydw |
| Mae angen gorsaf dân ar Dref-y-clawdd sy'n ymateb i danau a digwyddiadau ceir |
| Byddai cael gwared ar orsafoedd yn ôl galw, llai o faint a symud i ganolfannau canolog yn pentyrru niwed i gymunedau gwledig.  Byddai'n benderfyniad cwbl ariannol ac ni fyddai hynny'n cael unrhyw gefnogaeth gennyf. |
| Mae'r gwasanaeth yn fy ardal i’n wych ac yn hanfodol, byddai'n anodd ei wella ond fel y soniwyd o'r blaen, gallai technoleg newydd helpu ond byddai angen buddsoddiad |
| Mae cryfder GTACGC yn y ffaith ei fod ar hyn o bryd yn cwmpasu’r ardal wasanaeth yn llwyr. Bydd lleihau'r cwmpas hwn yn lleihau effeithiolrwydd y gwasanaeth o fewn ardaloedd gwledig a threfol. E.e. bydd digwyddiad mawr mewn ardal wledig yn disbyddu gwasanaeth trefol gan arwain at ostyngiad yn effeithiolrwydd y gwasanaethau mewn ardaloedd trefol pan fydd adnoddau wedi'u dyrannu i'r digwyddiad mawr. |
| Rwy'n credu bod cael gwasanaeth o'r fath mewn ardal wledig yn hanfodol! Rydyn ni'n colli gwasanaethau yn yr ardal dros y lle i gyd, nid yw'n deg y dylai pobl mewn cymunedau gwledig gael eu rhoi mewn perygl oherwydd llai o wasanaethau ac aros yn hirach am wasanaethau brys. Mae angen i ni gadw gafael ar ein gwasanaethau lleol gan eu bod yn hanfodol mewn cynifer o ffyrdd. |

| |
|---|
| Mae diffoddwyr tân Canolbarth a Gorllewin Cymru yn sefydliad proffesiynol iawn sydd wedi'i hyfforddi'n dda. Maent yn rhoi gwasanaeth heb ei ail. |
| Nac ydw |
| Croesawu cyfathrebu agored â'r cymunedau yr effeithir arnynt. Ystyriwch fregusrwydd y rhai mewn ardaloedd anghysbell o ran ymateb i dân a damweiniau ffordd. Effeithir ar eu bywydau hwythau, nid bywydau'r rhai y tu allan i'r ardal. |
| Cyllid gwell a pharhaus. |
| Ni fyddwn yn hoffi gweld y gwasanaeth maen nhw'n ei ddarparu yn lleihau. |
| Dod yn fwy gweladwy ynglŷn â gwaith da y gwasanaeth. Methu cofio'r tro diwethaf i mi glywed stori newyddion da ynglŷn â'r gwasanaeth. |
| Rwy'n credu y dylid caniatáu i bob gorsaf leol barhau i gynnig y gwasanaethau amrywiol y maen nhw'n eu cynnig ar hyn o bryd. Mae cadw peiriannau'n lleol yn lleihau'r ôl troed carbon a fyddai'n angenrheidiol ar gyfer teithio diangen i ardaloedd eraill. Er mwyn cynnal gwasanaeth priodol dan arweiniad cymunedol, sef rhywbeth rydych chi'n amlwg yn ei roi ym mlaen eich cynllun fel y crybwyllir ar bob tudalen, rhaid caniatáu i'n diffoddwyr tân lleol wasanaethu eu cymuned leol |
| Maen nhw'n gwneud gwaith da ac rydym yn eu cefnogi'n llwyr |
| Amrywiaethu sgiliau diffoddwyr tân a'u cadw nid hyfforddi diffoddwyr tân dim ond i golli eu sgiliau yn y dyfodol. |
| Eglurder gwybodaeth. Cefnogaeth barhaus i ddarpariaeth wledig. Gonestrwydd o'r haenau uwch am benderfyniadau a wnaed. |
| Nac ydw |
| Mae tueddiadau'n newid ond ni ddylid rhoi diogelwch cymunedau o'r neilltu am arian, a dyna beth mae cynllun 2040 yn ei gynnig i arbed cyllid |
| Nac ydw |
| Cadw'r gwasanaethau hanfodol hyn, ynghyd â'r heddlu a'r gwasanaeth ambiwlans, wedi'u hariannu'n briodol. Ni ddylid colli bywydau oherwydd diffyg cyllid!! |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Rydych chi'n cynnig cael gwared ar wasanaethau gwerthfawr o ardaloedd gwledig yn seiliedig ar ffigurau oddi ar daenlen. Mae hyn yn chwerthinllyd, a dweud y lleiaf. Os daw'ch cynllun newydd i rym, bydd bywydau di-ri y dylai eich diffoddwyr tân fod wedi gallu eu hachub ond ni allai oherwydd nad oeddech chi'n rhoi'r offer cywir iddynt. Ac yn yr ardaloedd gwledig y gwelir yr effaith fwyaf. |
| Nac ydw |
| Nac ydw |
| Rwy'n credu bod angen i reolwyr fod yn haws mynd atynt a dylech gael dweud beth rydych chi'n ei feddwl waeth a yw'n cytuno â rhywun neu beidio heb fentro cael enw gwael drwy gydol eich gyrfa neu efallai cael eich atal o'r gwaith |

| |
|---|
| Ydych chi wedi ystyried cau Llanandras, Tref-y-clawdd, Llanfair-ym-muallt a gwneud Llandrindod yn amser llawn? |
| Dylai pob gorsaf dân allu ymateb i argyfyngau, gan ddefnyddio'r un cyntaf sydd ar gael ac sydd yn y safle gorau waeth beth fo'i leoliad. Byddai'n gwbl afresymol a chwbl wallgof cyfyngu rhai gorsafoedd tân i weithgareddau penodol! |
| Rwy'n credu y bydd lleihau sgiliau ar rai gorsafoedd yn cael effaith fawr ar y cyhoedd a'r gymuned rydyn ni'n ei gwasanaethu. Rwy'n gwbl ymwybodol o'r materion ariannu ond rwyf wedi gweld yn uniongyrchol yr arian sy'n cael ei wastraffu gan y gwasanaeth mewn meysydd uwchben y rheng flaen. |
| Mae ymatebwyr cyntaf yn hanfodol i ni yn yr ardal wledig hon |
| Peidiwch â newid yr hyn nad yw wedi'i dorri e.e. patrwm shifft diffoddwyr tân. Yn hytrach, canolbwyntiwch ar yr hyn sydd wedi torri .... eich diwylliant sefydliadol gan uwch reolwyr a'ch gallu i griwio gorsafoedd ar alwad |
| Mwy o gymhellion i annog staff rhan-amser i aros yn y gwasanaeth. - Arian a budd-daliadau |
| Nac ydw |
| Diolch iddyn nhw am ofalu amdanom mewn sefyllfaoedd sy'n peryglu bywyd. |
| Mae angen ailwampio eich proses recriwtio lle rydych chi'n cael trafferth recriwtio oherwydd bod eich swyddogion cyswllt yn rhwystro nifer aruthrol o recriwtiaid posibl dim ond am nad ydyn nhw'n hoffi eu golwg, gan adael y cyhoedd mewn perygl. Hefyd mae rhai gorsafoedd tân fel petaent â mwy o ddiddordeb mewn golchi ceir i godi arian i elusen nag atal tân, sydd mae'n siŵr yn costio mwy i'r cyhoedd mewn cyflogau nag sy'n cael ei godi byth; hefyd os bydd rhywun yn siarad yn erbyn y gwasanaeth dylai eich staff siarad â nhw yn hytrach na'u hosgoi |
| Mwy o allu cydweithredu rhwng criwiau gweithredol a chorfforaethol |
| Byddai'n galonogol pe bai'r orsaf dân leol ar agor ac wedi'i staffio yn ystod cyfnod penodol, bob wythnos, i helpu gyda chysylltiad â'r gymuned, ac i fagu cysylltiadau lleol cryfach. |
| Rwy'n gwrthwynebu'n gryf y newidiadau arfaethedig i'r gwasanaeth yr ydym yn dibynnu arno ar hyn o bryd. Mae cael gorsaf dân yn y dref, sy'n gallu cynorthwyo mewn achosion o dân, llifogydd a damweiniau traffig ar hyn o bryd yn hanfodol gan fod modd cadw amseroedd ymateb i'r lleiafswm. |
| Rwy'n credu bod angen i'r cyllid ddod o Gaerdydd yn uniongyrchol. |
| Mae angen i chi wneud rhywbeth am eich delwedd gyhoeddus yn dilyn y penawdau "clwb bechgyn". Yn wahanol i wasanaeth yr heddlu yng Nghymru a dderbynnir yn cadw o'r golwg, mae'n ymddangos bod siroedd eraill yn Lloegr yn gwneud ymgysylltu â'r gymuned a'r cyhoedd yn flaenoriaeth. Yng Nghymru, mae'r gwasanaeth tân fel petai'n cuddio, mae gwasanaeth yr heddlu yng Nghymru'n anweledig, felly peidiwch â mynd felly. Wrth siarad â'r wyrion, mae'n debyg nad ydyn nhw wedi cael cyfle i edrych ar injan dân nac eistedd mewn un na chael cyngor ar ddiogelwch tân, cyfle a gollwyd. |
| Sortiwch y diwylliant, peidiwch ag ymddiried yn y gwasanaeth |

| |
|---|
| Rwy'n credu bod eu gwaith yn anhygoel ac maen nhw'n haeddu mwy o gyflog |
| Cadwch ein lefel gyfredol o ddarpariaeth gwasanaeth ym mhob gorsaf dân. Bydd y cymunedau'n codi arian os oes angen. |
| Rwy'n pryderu'n ofnadwy am nad yw'r newidiadau arfaethedig presennol yn cael eu hegluro'n llawn i aelodau o'r cyhoedd, mae'n anonest ac yn dwyllodrus. Dylai'r gwasanaeth fod yn canolbwyntio ar sortio ei ddiwylliant gwael ac ymrwymo'n llwyr i hyn, yn hytrach na gwastraffu amser yn gwneud newidiadau a fydd yn peryglu bywydau. Mae'r ffaith bod ychydig iawn o dryloywder wedi bod yma mewn gwirionedd yn pwysleisio'r holl faterion diwylliannol o fewn y gwasanaeth a pha mor wael y mae'n trin ei ddiffoddwyr tân. |
| RWYF WEDI DRYSU. MAE'R DBST WEDI BOD YN YMWELD Â GORSAFOEDD YN DWEUD WRTHYNT AM EI WELEDIGAETH AM SEFYDLU PARTHAU, GAN DDANGOS Y PARTHAU SYDD WEDI'U HENWI EISOES AC YN RHOI GWYBOD I NI EI FOD WEDI RHOI'R GORAU I BRYNU PEIRIANNAU TÂN AC EDRYCH AR DDEWISIADAU AMGEN. SUT Y GALL HWN FOD YN YMGYNGHORIAD WEDYN OS YW EISOES WEDI PENDERFYNU HYN. YDYN NI'N CAEL EIN CAMARWAIN ETO GANDDO? NID YDYM NI YN YR ORSAF YN GWELD SUT Y BYDD EI BARTHAU'N GWEITHIO AC NID YW'N GALLU EGLURO'R PETH. OS OES TÂN MEWN TŶ GYFERBYN Â GORSAF A, A'R ORSAF HONNO'N ORSAF GWRTHDRAWIADAU AR Y FFORDD, MAEN NHW'N MYND I ORFOD AROS I ORSAF B GYRRAEDD GYDA DŴR, NID DYMA BETH RYDYN NI EI EISIAU GAN WASANAETH TÂN AC ACHUB |
| Byddech chi'n wirion yn cael gwared ar y gwasanaeth hwn. Mae Crucywel yn lleoliad da. |
| Mae'n hollol hanfodol bod y gorsafoedd gwledig yn cael eu hariannu, eu gwerthfawrogi a'u cefnogi. |
| Canolbwyntio ar hyfforddiant |
| Nac ydw |
| Rwy'n hynod ddiolchgar am y gwasanaethau a ddarperir i'n cymuned a hoffwn ddiolch i chi am eich ymroddiad. |
| Mae'n ymddangos bod yr ymgynghoriad hwn eisoes wedi'i benderfynu. Mae'r DBST ar ei daith wedi dweud wrthym yn y bôn fod y parthau wedi'u sefydlu, gydag enwau ar gyfer pob un o'r parthau, ac fe ddangosodd fap PowerPoint ohonynt i ni. Dywedodd hefyd wrthym fod prynu cerbydau newydd wedi stopio a'i fod wedi sefydlu gweithgor i edrych ar wahanol gerbydau. Felly pam ydyn ni hyd yn oed yn rhan o ymgynghori ar y cynllun hwn gan ei bod yn amlwg ei fod eisoes wedi'i benderfynu |
| Bob amser wedi cael gwasanaeth da yn yr ardal |
| Na, dim diolch. |
| Bydd cau gorsafoedd yn lladd pobl |
| Dydw i ddim yn credu eich bod chi'n gwneud digon i arddangos eich hun fel gwasanaeth. Mae gennych lawer o wahanol adrannau sydd â rôl bwysig iawn i'w chwarae, ond y cyfan y siaredir amdano mewn gwirionedd yw diffodd tân. Pryd |

| |
|---|
| ydych chi'n mynd i amlygu a hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol, gweithgareddau ieuenctid ac ymrwymiadau addysgol eraill? Mae yna lawer o staff nad ydynt yn cael eu cydnabod a, phe byddent, a phe gallai'r cyhoedd weld beth rydych chi'n ei wneud mewn ffordd gyfannol, efallai y byddai mwy o oleuni cadarnhaol yn cael ei daflu ar y gwasanaeth. |
| Nac ydw |
| Rydych chi'n gwneud gwaith gwych!! |
| Amh. |
| Parhau i sicrhau bod holl bersonél y gwasanaeth yn cael yr holl gymorth lles y gellir ei wneud ar gael |
| Ddim mewn gwirionedd, rwy'n credu bod y swydd mor cŵl a phwysig. Ac mae'r holl ddiffoddwyr tân rydw i wedi'u gweld wedi bod mor gyfeillgar, clên a gofalgar. Gan gofio codi llaw arnaf pan fyddaf yn gwylio'r peiriannau tân yn mynd allan ac ati. |
| Dim ond un mewn gwirionedd; peidiwch â mynd, mae arnom eich angen chi a'ch arbenigedd. Mae eich angen chi ar ein cymunedau! |
| Nac ydw |
| Byddai gorsaf dân Aberaeron yn fwy effeithlon pe bai ym Mhenmorfa |
| Recriwtio |
| Rwyf wedi bod i sesiwn galw heibio a hefyd wedi gwylio'r weminar a gynhelir gan y DBST, rwyf hefyd wedi ymweld â'm dwy orsaf leol. Mae'n ymddangos bod dryswch, gan fod y Gorsafoedd wedi cael gwybod eu bod yn symud i system barthau lle byddant naill ai'n Orsaf Dân neu'n Orsaf Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, ond ni soniwyd am hyn yn y Weminar na'r sesiynau galw heibio. Ar yr wyneb mae'n ymddangos bod yr ymgynghoriad hwn eisoes wedi'i benderfynu, gan fod y parthau eisoes wedi'u henwi a'u dangos mewn dogfen PowerPoint. Yn un o'r Gorsafoedd lle mae diffoddwr tân hefyd yn amser llawn yn Abertawe, fe wnaethon nhw ddweud wrthyf fod y DBST hefyd wedi bod yn edrych ar dir i adeiladu gorsaf newydd i gau dwy; eto mae'n debyg bod hyn wedi'i benderfynu. Mae angen eglurder yn y weminar nesaf am hyn i gyd. |
| Nac ydw |
| Mae adnoddau lleol yn allweddol wrth ddiffodd ac atal tân. Peidiwch â chau gorsaf dân Crucywel. Mae'r tîm hwnnw'n gwneud i mi deimlo'n ddiogel yn fy nghartref. |
| Nac ydw |
| Mae'r gwasanaeth a gafwyd wedi bod yn ardderchog |
| Maen nhw'n wasanaeth gwerthfawr, ac rwy'n gobeithio y byddant yn aros yng nghanol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Oherwydd bod cymunedau'n tyfu, mae mawr iawn eu hangen. |
| hyfforddiant trylwyr ar gyfer pethau fel cerbydau trydan, petrocemegau, diffodd tân ar y môr |
| Nac ydw |

| |
|---|
| Rwy'n credu bod y gwasanaeth a ddarperir yn ardderchog os gallant ganolbwyntio ar eu rôl o fewn y gymuned a pheidio â gwarchod eraill |
| Cadwch orsaf dân Llanandras. Mae'n rhan ganolog o'n cymuned. Rydym 25 milltir i ffwrdd o'r ysbyty agosaf, yn gorfod aros oriau am ambiwlans ac yn colli ein Hambiwlans Awyr yn y Trallwng. Mae cymunedau gwledig yn colli cymaint o wasanaethau. Mae ein canolfan hamdden dan fygythiad hefyd. Mae cael ein Gorsaf Dân yn gwneud i mi deimlo'n fwy diogel ac mae ein diffoddwyr tân yn ddelfrydau ymddwyn mewn cymuned lle mae angen dylanwadau cadarnhaol arnom. |
| Cafodd fy nghymydog dân ysgubor ychydig flynyddoedd yn ôl. Mae brigâd dân Llanandras tua 5 munud i ffwrdd. Fe wnaethon ni geisio diffodd y tân gorau y gallem, ac roedd tua 30 munud cyn i'r frigâd gyrraedd. Fe wnaethon nhw ei ddiffodd yn gyflym iawn ac fe wnaethon nhw waith gwych. 30 munud arall a byddai'r holl adeiladau wedi cael eu colli. |
| Ydw. Cadwch at eich gwerthoedd craidd o atal / achub eiddo a bywydau, treuliwch lai o amser a gwariwch lai o arian ar sothach gwleidyddol gywir. |
| Mae hwn yn wasanaeth hanfodol y dylid ei gynnal ar y lefel uchaf, mae yna feysydd eraill o wasanaeth cyhoeddus y dylid eu gwneud yn fwy effeithlon gyda gostyngiadau staffio posibl. |
| Mae angen i ni gefnogi ein diffoddwyr tân yng Nghrucywel |
| Mae'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn gwneud gwaith anodd ac mewn gorsafoedd bach, yn ôl galw dylent gael tâl cadw priodol. Maen nhw'n uchel eu parch yn y gymuned. |
| Nac ydw |
| Dim ond ei bod yn hynod o galonogol cael y presenoldeb yn y dref (Llanandras). |
| Cadwch orsafoedd lleol ar agor |
| Peidiwch â chau gwasanaethau lleol gwerthfawr os gwelwch yn dda |
| Rwy'n credu bod yr holiadur hwn ymhell y tu hwnt i ddealltwriaeth y rhan fwyaf o bobl. Y cyfan y mae'r cyhoedd ei eisiau yw Gorsaf Dân yn eu tref. |
| Mae Llanwrtyd tua 30 munud o'r dref nesaf a'r orsaf dân agosaf. Bydd unrhyw achos o gau'r orsaf yn Llanwrtyd yn costio bywydau. |
| Mae'r orsaf dân yn Llanwrtyd yn adnodd amhrisiadwy i'r dref a'r gymuned leol. Bydd bywydau'n cael eu colli os caiff yr orsaf ei chau. |
| Nac ydw |
| mae'n peri gofid nad yw'r Senedd yn ystyried bod hwn yn ddigon pwysig i'w ariannu fel y mae'n ariannu'r heddlu. |
| Fel cynghorydd cymuned mewn ardal anghysbell sydd ar hyn o bryd yn cael ei gwasanaethu gan orsaf dân Crucywel, mae'n peri pryder clywed y gallai offer anadlu ac offer torri gael eu canolbwyntio yn Aberhonddu. Gallai'r 15-20 munud ychwanegol o amser teithio olygu'r gwahaniaeth rhwng bywyd a marwolaeth i'r rhai mewn tân difrifol mewn tŷ neu ddamwain car. |

| |
|---|
| Mae'r gwasanaeth tân yn sefydliad gwerthfawr iawn, os nad amhrisiadwy. Mae hyfforddiant yn amhrisiadwy ac am ein bod yn byw mewn ardal wledig iawn mae angen iddynt gael hyfforddiant ychwanegol i gwmpasu llu o ddigwyddiadau. Nid diffodd tân yn unig ond hyfforddiant meddygol a hyfforddiant mewn iechyd meddwl |
| Yr hyn y mae cymunedau lleol ei eisiau gan y gwasanaeth tân ac achub yw ymateb cyflym pan fo angen. Dyma'r brif flaenoriaeth; rwy'n tybio y gallai'r toriadau gael eu gwneud mewn mannau eraill. |
| Achubwch orsaf Crucywel |
| Mae gennych lu ymroddedig. Peidiwch â'u colli oherwydd diffyg cyllid. |
| Mae'n bwysig iawn, mewn ardal wledig, gyda mynediad anodd i gartrefi a busnesau weithiau, fod diffoddwyr tân lleol, sydd â gwybodaeth leol am e.e. y llwybrau gorau trwy'r lonydd. Byddai'n risg fawr i fywyd pe bai'n rhaid i griwiau deithio o bellach i ffwrdd, heb wybod ble maen nhw'n mynd. |
| Mae arwain trwy esiampl gan y prif swyddog tân, sicrhau bod gan bawb y sgiliau, yr hyfforddiant, yr offer, y strwythur proffesiynol a'r cymorth iechyd meddwl sydd eu hangen arnom i gyd yn flaenoriaeth a dyna'r ffordd ymlaen. |
| Mae'r gwasanaeth tân yn gwneud gwaith gwych a dylid talu mwy iddynt |
| Rwy'n credu y byddai'n werth ystyried defnyddio'r gweithwyr ar alwad ymhellach, ar adegau pan nad yw'r pwmp ar gael, i gynnig i'r rhai ar alwad yr opsiwn i fynychu digwyddiadau ochr yn ochr â phympiau eraill. Cyfleuster cerbyd llai o faint i fynd allan at alwadau cardiaidd neu fynychu ochr yn ochr â chriwiau eraill fel dau neu dri. Hefyd defnyddio'r sgiliau sydd gan y cydweithwyr ar alwad yn eu prif rôl waith er budd y gwasanaeth. |
| Dim diolch |
| Angen rhoi mwy o gyhoeddusrwydd o fewn y sesiynau galw heibio ymgynghori |
| Diolch am bopeth rydych chi'n ei wneud |
| Wedi achub fy mywyd am 4am gan nad oedd ambiwlans ar gael. Diolch!!! |
| Ydw - bod yn fwy agored i'r cyhoedd i agor ffenestr i'ch byd, opsiynau swyddi ac ati. Unwaith eto cael diwrnod agored fel y gallant weld pob ochr |
| Falch ein bod ni yma |
| Nac ydw |
| Rhaid bod ffordd o ddarparu'r amddiffyniad lleol sydd ei angen, a chanoli rhai agweddau ar y gwasanaeth i gyflawni effeithlonrwydd a manteision cydgrynhoi |
| Peidiwch ag ystyried cau gorsaf Llanandras - mae'n wasanaeth hanfodol i'n cymuned. Byddai'r ail beiriant yn yr orsaf yn ddefnyddiol pe bai'n gerbyd gyriant pedair olwyn sy’n addas ar gyfer pob tir a chanddo 5 sedd yn cario pwmp bach a thanc. Yn ddefnyddiol ar gyfer dyletswyddau ymatebwyr cyntaf a’r tanau gwyllt cynyddol. |
| Gyda llai o ambiwlansys ar gael, dylid hyfforddi diffoddwyr tân i ddelio â phob argyfwng meddygol. Rwy'n gwybod ar hyn o bryd fod yr hyn y maent yn cael ei wneud yn gyfyngedig. Mae hyn yn gwbl chwerthinllyd, a hwythau mor aml yr ymatebwyr cyntaf i gyrraedd argyfwng |

| |
|---|
| daliwch ati i wneud yr hyn rydych chi'n ei wneud a diolch |
| Y materion allweddol ar gyfer unrhyw wasanaeth brys yw y dylai fod yn gallu darparu help cyn gynted â phosibl, gall oedi gostio bywydau yn ogystal â difrod diangen i eiddo. Mae cyflymder ymateb yn bwysicach na chael yr offer diweddaraf un. |
| Diolch am eich gwasanaeth |
| Rwy'n sylwi ar lawer o fideos "gwirion" ar-lein am GTACGC. Mae'n ymddangos bod gennych adran sy'n ymroddedig i gynhyrchu'r deunydd babanaidd iawn hwn. Byddai GTACGC yn arbed llawer o arian pe bai'n rhoi'r gorau i'r nonsens yma ac yn darparu deunydd ffeithiol yn unig. Nid wyf yn gweld unrhyw un o'r gwasanaethau brys eraill yn cynhyrchu'r sbwriel hwn yn ddyddiol. Un enghraifft dda oedd y bobl yn gorymdeithio yn y fan a'r lle gyda cherddoriaeth "Dr Beat" yn chwarae. Beth am ryddhau ychydig o gyngor a ffeithiau priodol am eich sefydliad. Ffrwynwch y creadigaethau dwl hyn ar unwaith, maen nhw'n gwneud i GTACGC edrych fel pe baent yn treulio eu diwrnodau'n chwarae dwli. |
| Mae ein timau tân yn rhan annatod o'n cymunedau unigol; heb eu cefnogaeth byddai llawer o fywydau ac eiddo yn cael eu colli.  Mae llawer o'r diffoddwyr tân yn byw ac yn gweithio yn y gymuned ac maent bob amser yno i'n cefnogi pan fyddwn mewn angen.  Bydd cymryd y gwasanaeth hwn i ffwrdd yn niweidiol mewn llawer ffordd, mae cymunedau gwledig eisoes yn colli mynediad at gynifer o wasanaethau felly dyma fydd ei diwedd hi i lawer. |
| Ymwybyddiaeth o'r gwahanol heriau mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae ardaloedd gwledig ynysig yn gofyn am ymateb hyblyg, ystwyth sy'n gallu delio â gwahanol fathau o argyfyngau. Mae amseroedd ymateb yn hanfodol gan y gellir cael digwyddiadau sydd mor bell ag awr i ffwrdd o'r orsaf dân ac efallai y bydd angen cymorth gan orsafoedd eraill sydd â chyfarpar tebyg. Hefyd, mae gwybodaeth leol yn hanfodol wrth ddod o hyd i'r digwyddiad mewn ardaloedd lle nad oes signal ffonau symudol, a'r 'sat nav' yn anghyson |
| Ddylen ni ddim bod ag ofn dweud 'na' weithiau i geisiadau am ein cefnogaeth, mae gennym adnodd cyfyngedig ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu darparu ein Gwasanaeth allweddol yn gyntaf oll.  Does neb arall yn cwmpasu ein rôl ni os nad ydym yno.  Nid cael peiriant ar gael yn unig sy'n bwysig, mae angen i ni allu darparu staff hyfforddedig, cymwys ar y peiriant hwnnw.  Mae angen i ni hefyd sicrhau pan fydd staff yn cael eu dyrchafu eu bod wedi cael yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i gyflawni'r rôl honno.  Gan gynnwys y trawsnewid i ymateb dyletswydd hyblyg. |
| Ar ôl darllen yr erthyglau newyddion a chyfarfod y tîm CRhRC, rwy'n credu bod angen i uwch arweinwyr ganolbwyntio ar sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ariannu'n gywir a'i fod yn cael ei uwchraddio nid ei israddio. |
| Creu mwy o swyddi amser llawn fel diffoddwyr tân |
| Peidiwch â bod â chywilydd o ofyn am arian. Mae'n rhaid i ni ddarparu gwasanaeth effeithiol ac addas i'r cyhoedd. Nid yw'r cyhoedd yn gwybod ym mha gyflwr mae'r gwasanaeth ambiwlans, peidiwch â gadael i'r un peth ddigwydd i'r gwasanaeth tân.  Ni all y gwasanaeth tân ddatrys y problemau sy'n wynebu'r gwasanaeth |

| |
|---|
| ambiwlans. Os byddwch chi’n ceisio, byddwch chi'n difetha'r gwasanaeth tân hefyd. |
| Rwy'n credu bod y gwasanaeth wedi colli golwg ar ei wir swyddogaeth, rydyn ni yma i roi ymateb effeithiol i'n cymunedau yn eu hamser o angen mwyaf. Mae angen i ni ganolbwyntio o’r newydd ar ein cyfrifoldebau craidd a'u gwneud yn dda. Hyfforddwch ein diffoddwyr tân i fod yn ardderchog yn yr hyn maen nhw'n ei wneud nid ‘digon da’ yn unig. |

Yn seiliedig ar y sylwadau ychwanegol a roddwyd, nodwyd chwe thema gyffredin:

1. **Pryderon am Gau Gorsafoedd Tân Lleol:** Roedd teimlad cryf yn erbyn posibilrwydd cau neu israddio gorsafoedd tân lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Pwysleisiodd yr ymatebwyr y rôl hanfodol y mae'r gorsafoedd hyn yn ei chwarae wrth sicrhau amseroedd ymateb cyflym a darparu gwasanaethau hanfodol i'w cymunedau.
2. **Gwerth Gwybodaeth Leol ac Amseroedd Ymateb:** Tynnodd llawer o ymatebwyr sylw at bwysigrwydd diffoddwyr tân lleol sy'n meddu ar wybodaeth o'r ardal leol, sy'n hanfodol ar gyfer ymateb brys effeithiol. Roedd ofnau y gallai canoli gwasanaethau neu gulhau ffocws rhai gorsafoedd arwain at oedi ymatebion a mwy o risgiau i drigolion, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.
3. **Angen Gwell Cyllid ac Adnoddau:** Un thema ailadroddus oedd yr angen am fwy o gyllid, yn enwedig i gynnal lefelau staffio, rhaglenni hyfforddi, a galluoedd gweithredol. Roedd pryder am doriadau ariannol a allai effeithio ar ddarparu gwasanaethau, gyda galwadau i flaenoriaethu gweithgareddau rheng flaen yn hytrach na rolau gweinyddol.
4. **Ymgysylltu ac Addysg yn y Gymuned:** Roedd cyfranogwyr yn cydnabod bod angen mwy o allgymorth cymunedol, gan gynnwys rhaglenni addysgol ar ddiogelwch tân, iechyd, a rolau diffoddwyr tân. Roedd yr awgrymiadau’n cynnwys cynnal diwrnodau agored a chynyddu mentrau cyfathrebu gyda'r cyhoedd i gynyddu ymwybyddiaeth a gwella dealltwriaeth o'r gwasanaethau a ddarperir.
5. **Cefnogaeth i Rolau a Lles Diffoddwyr Tân:** Lleisiwyd pryderon am les diffoddwyr tân, gyda cheisiadau am well cymorth iechyd meddwl, hyfforddiant a strategaethau cadw. Pwysleisiodd yr ymatebwyr fod personél ymroddedig sy'n teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn hanfodol i ddarparu gwasanaeth effeithiol o hyd.
6. **Canolbwyntio ar Weithgareddau Craidd a Symleiddio:** Roedd galw yn y sylwadau i'r Gwasanaeth ganolbwyntio ar ei gyfrifoldebau craidd, megis diffodd tân ac ymateb brys, yn hytrach na lledaenu ymdrechion yn rhy denau ar draws gwahanol

dasgau. Tynnwyd sylw at symleiddio strategaethau gweithredol wrth sicrhau bod y prif ffocws ar wasanaethau brys.

Roedd y themâu cyffredin yn amlygu ymrwymiad y gymuned i gynnal gwasanaethau effeithiol mewn ardaloedd gwledig, ochr yn ochr â'r heriau parhaus ynghylch cyllid, staffio a strwythur gweithredol.


## 'Dweud eich Dweud'

Cafwyd gwybodaeth hefyd gan randdeiliaid, drwy arolwg 'dweud eich dweud', a gafodd 130 o ymatebion i gyd yn ystod y cyfnod ymgysylltu 6 wythnos. Mae'r data wedi'i goladu i'w weld isod.

**Pa mor gyflym ddylai ein hamser ymateb i ddigwyddiadau fod?**


### Tanau Tŷ

| Tân Tŷ | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 110 |
| O fewn 20 munud | 19 |
| O fewn 30 munud | 1 |
| **Cyfanswm** | **130** |




| Gwrthdrawiad ar y Ffordd | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 94 |
| O fewn 20 munud | 29 |
| O fewn 30 munud | 7 |
| **Cyfanswm** | **130** |

**Gwrthdrawiadau ar y Ffordd**





**Tanau Cerbyd**

| Tanau Cerbyd | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 72 |
| O fewn 20 munud | 41 |
| O fewn 30 munud | 14 |
| O fewn 40 munud | 2 |
| **Cyfanswm** | **129** |




**Tân Adeiladau Masnachol**

| Tân Adeiladau Masnachol | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 85 |
| O fewn 20 munud | 38 |
| O fewn 30 munud | 5 |
| O fewn 40 munud | 1 |
| **Cyfanswm** | **129** |





**Tanau Glaswellt**

| Tanau Glaswellt neu Goetir | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 44 |
| O fewn 20 munud | 39 |
| O fewn 30 munud | 36 |
| O fewn 40 munud | 5 |
| Mwy na 40 munud | 5 |
| **Cyfanswm** | **129** |




## Tanau Awyr Agored

| Tanau Awyr Agored fel tanau sbwriel | Nifer |
|---|---|
| O fewn 20 munud | 39 |
| O fewn 30 munud | 38 |
| O fewn 10 munud | 34 |
| O fewn 40 munud | 8 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 6 |
| Mwy na 40 munud | 5 |
| **Cyfanswm** | **130** |




## Achub Anifeiliaid

| Achub Anifeiliaid | Nifer |
|---|---|
| O fewn 30 munud | 29 |
| O fewn 20 munud | 23 |
| Mwy na 40 munud | 23 |
| O fewn 10 munud | 22 |
| O fewn 40 munud | 18 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 12 |
| **Cyfanswm** | **127** |





## Person yn sownd mewn lifft

| Person yn sownd mewn lifft | Nifer |
|---|---|
| O fewn 30 munud | 36 |
| O fewn 40 munud | 21 |
| Mwy na 40 munud | 19 |
| O fewn 10 munud | 19 |
| O fewn 20 munud | 18 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 16 |
| **Cyfanswm** | **129** |



## Achub o Ddŵr

| Achub person o ddŵr | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 101 |
| O fewn 20 munud | 18 |
| O fewn 30 munud | 7 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 3 |
| O fewn 40 munud | 1 |
| **Cyfanswm** | **130** |





## Llifogydd

| Llifogydd | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 40 |
| O fewn 20 munud | 28 |
| O fewn 30 munud | 25 |
| Mwy na 40 munud | 21 |
| O fewn 40 munud | 14 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 2 |
| **Cyfanswm** | **130** |



### Ymateb Meddygol

| Ymateb Meddygol | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 88 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 23 |
| O fewn 20 munud | 11 |
| O fewn 30 munud | 6 |
| Mwy na 40 munud | 1 |
| **Cyfanswm** | **129** |





### Cynorthwyo'r Ambiwlans ac Asiantaethau Eraill

| Cynorthwyo'r Ambiwlans ac asiantaethau eraill | Nifer |
|---|---|
| O fewn 10 munud | 33 |
| O fewn 20 munud | 26 |
| O fewn 30 munud | 24 |
| Mwy na 40 munud | 19 |
| Ni ddylai'r Gwasanaeth Tân fynychu | 17 |
| O fewn 40 munud | 11 |
| **Cyfanswm** | **130** |



**Pa mor hyderus ydych chi yn y Gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu**

| Pa mor hyderus ydych chi yn y Gwasanaeth rydyn ni'n ei ddarparu | Nifer |
|---|---|
| Hyderus | 54 |
| Hyderus Iawn | 48 |
| Gweddol Hyderus | 18 |
| Ddim yn gwybod | 5 |
| Ddim yn Hyderus | 4 |
| **Cyfanswm** | **129** |




## Sylwadau ychwanegol

| **Fyddech chi'n hoffi gwneud unrhyw sylwadau ychwanegol neu rannu rhagor o wybodaeth gyda ni a fydd yn ein helpu i wella eich Gwasanaeth Tân ac Achub CHI? *Sylwch fod yr adborth isod yn cael ei adrodd fel y cafodd ei roi gan yr ymatebwyr*** |
|---|
| Mae'r syniad o gwtogi ar staff a gwasanaethau rheng flaen yn hurt, rwy'n talu'r dreth gyngor i gael y gwasanaeth tân yn fy nhref ac iddyn nhw allu ymateb mewn pryd i unrhyw argyfwng a phob argyfwng. Mae cau gorsafoedd, cwtogi ar swyddi diffoddwyr tân a chael gwared ar beiriannau rheng flaen yn rhoi pawb mewn cymunedau gwledig mewn perygl o golli bywyd ac eiddo; ni ellir ac ni ddylid caniatáu i hyn ddigwydd!!! Os eich gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yw torri gwasanaethau a pheryglu'r cyhoedd, dylai fod cywilydd arnoch!! |
| Mae fel petai pob awdurdod lleol yn ceisio cwtogi ar weithlu ac adnoddau, heb ystyried faint o grysau gwyn sy'n eistedd o gwmpas y bwrdd yn creu swyddi iddyn nhw eu hunain |

| |
|---|
| Rwy'n credu y dylai'r gwasanaeth (fel gwasanaethau brys eraill) fod yno ar adegau o angen. Mae cwtogi ar wasanaethau yn wrth-reddfol |
| Mae'r gwasanaeth tân yn gweithio'n dda.<br>Mae pobl yn talu mwy o dreth gyngor nawr nag erioed o'r blaen; ni ddylai toriadau na lleihau sgiliau gorsafoedd hyd yn oed fod yn ystyriaeth |
| Peidiwch â chau dim un ohonynt! Uno â gorsafoedd Ambiwlans i arbed costau fel yn yr Unol Daleithiau. |
| Talu mwy am lefel gwell byth o wasanaeth. |
| Rydym yn poeni'n arbennig nad yw Crucywel yn orsaf rydio, ac eiddo glan afon gennym mewn perygl o lifogydd. |
| Defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i hyrwyddo timau a gwasanaethau lleol. Gadewch i bobl wybod beth sy'n digwydd a phwy yw tîm yr orsaf |
| Mae angen i ni gadw gorsafoedd tân ar agor; maen nhw'n rhan hanfodol o'n cymuned |
| Rwy'n clywed bod canolbarth a gorllewin Cymru yn ceisio ailstrwythuro'r gwasanaeth tân gyda phrif orsafoedd sy'n israddio gorsafoedd eraill trwy waredu eu hinjan, ac israddio statws y diffoddwyr tân a gyflogir. Os bydd y gorsafoedd lloeren hyn yn mynd allan at dân tŷ, ni fydd yr orsaf honno bellach yn gallu mynd i'r afael â thân o'r tu mewn, dim ond ymladd y tân o'r tu allan. Rwy'n credu bod hwn yn syniad trychinebus lle mae'r gwasanaeth yn chwarae gyda bywydau cyhoeddus. Os yw'r brif orsaf eisoes ar ddigwyddiad difrifol, mae'n hwyhau'r amser nes y gallai prif orsaf arall gyrraedd. Hoffwn wybod sut mae'r gwasanaeth wedi meddwl bod hyn yn syniad da. Pa ystadegau a ddefnyddiwyd i benderfynu hyn, sawl blwyddyn o ddata a ddefnyddiwyd i gyrraedd hyn. Ar hyn o bryd mae pob gorsaf dân yn helpu i gynnal gorsafoedd ac ardaloedd eraill, dylai'r gwasanaeth fod yn un uned ac nid wedi'i wahanu. Rwy'n teimlo'n gryf bod y cynnig hwn a gyflwynwyd yn gwahaniaethu yn erbyn cymunedau gwledig o blaid ardaloedd poblog. |
| Sut allwn ni gefnogi'r gwasanaeth pwysig hwn? |
| Mae'n siŵr nad problem y gwasanaeth tân mo'r pwysau ar y GIG ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? Onid Tân ac Achub ddylai fod prif flaenoriaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub? |
| Ddim ots gen i dalu ychydig yn ychwanegol am y gwasanaeth rhagorol a ddarperir, cyn belled â bod y taliad ychwanegol yn mynd i'r Gwasanaeth Tân nid pwrs cyffredinol y cyngor lleol. |
| Llawer gormod o staff swyddfa a dim digon o ddiffoddwyr tân. (Sy'n cael y fraint o wisgo'r un wisg las pan nad ydynt wedi gwneud yr holl waith caled)<br><br>Mae staff ar alwad yn well gan eu bod yn ymrwymo eu hamser i'w cymuned tra bod criw amser cyflawn ar gyflog a dim ond eisiau gadael cyn gynted ag y byddant yn bresennol. |

Mae gofalu am bobl sy’n cwympo yn y gymuned leol yn syniad gwych ac yn tynnu pwysau oddi ar staff ambiwlans. Yn amlwg mae criw ar alwad lleol eisiau helpu ei gymuned leol, tra yn y ddinas.... nid oes gan griw amser cyflawn unrhyw ddiddordeb mewn galwadau gwasanaeth arbennig.

Mae'r pwynt mynediad yn broses faith. Gall gymryd misoedd o'r eiliad y mae diffoddwr tân posibl yn dangos diddordeb i'w bwynt mynediad. Pa swydd arall fyddai'n gwneud i chi aros mor hir.

Mae'r broses salwch yn peri gormod o straen tra bod camau'n cael eu rhoi ar waith, mae'r gwasanaeth yn ceisio gwthio personél allan tra byddant yn gwella. Nid oes llawer o gefnogaeth gan AD, dim ond tactegau sothach gorfodol.

Mae angen mwy o gydnabyddiaeth i bersonél gwasanaeth maith. Mae hyd yn oed 5 mlynedd yn y gwasanaeth tân yn andros o ymrwymiad ond byth yn cael ei gydnabod. Dylid rhoi mwy ar waith i werthfawrogi'r criw oherwydd yn y pen draw ...... maen nhw'n mentro eu bywydau!

Beth ddylai ddigwydd...

5 mlynedd tystysgrif

10 medal

Ac yn y blaen bob 5 mlynedd.

GOFALWCH AM Y GWEITHWYR SYDD EISOES WEDI'U CYFLOGI. YN HYTRACH NA GWASTRAFFU ARIAN AR RECRIWTIO.

Mae angen rhoi mwy ar waith i gefnogi mamau sengl sydd ar alwad. Ond nid yw'r gwasanaeth yn poeni bod gan ddiffoddwyr tân benywaidd fywyd prysur y tu allan i'r gwaith hefyd ac yn sicr nid yw hynny'n cael ei gydnabod na'i annog!

Mwy o sesiynau creu cwlwm, heb fod yn gysylltiedig â’r gwaith. Gan mai dyma'r criw a allai achub eich bywyd!

Codiad cyflog!! Does dim angen ei ddweud.  Maen nhw'n peryglu eu bywydau. Ni all unrhyw swm o arian gyfiawnhau dewrder wynebu tân, llifogydd, gwaed, trallod y cyhoedd.

Cadwch ddiffoddwyr tân benywaidd, eu cefnogi trwy feichiogrwydd, dod â dyletswyddau ysgafn yn ôl a'u cefnogi trwy salwch gan ei bod yn swydd sy’n canolbwyntio ar ddynion yn bennaf o hyd fel y mae, a menywod yn dal i deimlo'n lleiafrifol.

Crysau gwyn llai bygythiol. Dewch yn ôl â glas i bawb

| |
|---|
| Staff rheoli i gael hyfforddiant ar eu hagwedd a chofio eu bod wedi eistedd mewn swyddfa gynnes gyda phaned tra bod y criwiau wedi wynebu sefyllfaoedd erchyll hyd yn oed am 4 o'r gloch y bore. Ar ôl cael eich galw allan, gall sgwrs fod yn gysurlon wrth gau i lawr ond nid yw bob amser yn cael ei dychwelyd<br><br>I'r gwasanaeth ddweud wrthym yn union i ble mae ein harian treth wedi mynd |
| Cofiwch fod Diffoddwyr Tân yn darparu gwasanaeth hanfodol ac yn sicrhewch fod y rheolwyr yn gymwys i'r swydd, heb gael eu rhwystro gan reolau gwirion. |
| Peidiwch â gwastraffu arian ar amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant.<br>Cyflogi'r person gorau ar gyfer y swydd bob tro, mae bywydau'n dibynnu ar hyn. |
| Mae angen mwy o gefnogaeth gan gyflogwyr lleol ar ddiffoddwyr tân er mwyn iddynt allu ymateb |
| Er fy mod yn credu bod gan y Gwasanaeth Tân rôl bwysig i'w chwarae o ran hybu ymwybyddiaeth ac addysgu'r cyhoedd, efallai y bydd ffyrdd mwy effeithlon o gyflawni'r gwasanaeth hwn. Gallai sylfaen gref o wirfoddolwyr o fewn cymunedau lleol ddarparu ffynhonnell wybodaeth werthfawr a chysylltiad da â chymunedau i ddiffoddwyr tân a'r gwasanaeth cyfan. |
| MAE'R CYNLLUNIAU I GREU PARTHAU YN GWBL DDIFFYGIOL, WEDI'I YRRU GAN YR EGO AC NID YW'N CREU GWEITHREDIAD DIOGEL I DDIFFODDWYR TÂN NAC YN GWELLA'R GWASANAETH I'R CYMUNEDAU. MAE CAEL GORSAFOEDD HEB AML-SGILIAU YN MYND YN ÔL MEWN AMSER, SUT ALL GORSAF DÂN BEIDIO AG YMATEB I DÂN YN EI HARDAL, DYNA'R RHESWM Y MAE GENNYCH DDIFFODDWYR TÂN AR ALWAD I WASANAETHU YN EU HARDAL.<br><br>NID YW'R CYNLLUN PARTHAU YN YSTYRIED AMSEROEDD TEITHIO AC MAE ANGEN I'N GWASANAETHAU BRYS GAEL AML-SGILIAU, BETH FYDDECH CHI'N EI DDISGWYL - AMBIWLANS NAD YW'N TRIN ATALIAD AR Y GALON NEU SWYDDOG HEDDLU SY'N DELIO AG UN SET O DROSEDDAU YN UNIG.<br><br>MAE HWN YN GYNLLUN WEDI'I YRRU GAN YR EGO Y MAE'R RHAN FWYAF O STAFF YN OFNI SIARAD YN EI ERBYN GAN EU BOD YN OFNI Y BYDD EU GYRFAOEDD AR BEN OS BYDDAN NHW'N GWNEUD HYNNY. ACHOS ARALL O UNBENNAETH SY'N GWRTHOD GWRANDO AR NEGYDDOLDEB AMDANI. |
| Mae angen mwy o ddiffoddwyr tân a hyfforddiant deuol i gynorthwyo gyda'r gwasanaeth ambiwlans |
| Mae'n siŵr nad problem y gwasanaeth tân mo'r pwysau ar y GIG ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru? Onid Tân ac Achub ddylai fod prif flaenoriaeth y Gwasanaeth Tân ac Achub? |
| Lleihau'r dianghenraid a blaenoriaethu lle mae risg i fywyd |
| Diolch i bawb sy'n gweithio yn y gwasanaeth tân. |

| |
|---|
| Dim ond i nodi na allaf raddio opsiynau C5 |
| Mwy o addysg gymunedol am rôl y gwasanaeth tân, yn enwedig gyda thrigolion iau / oedran ysgol. |
| Nid yw'r gwasanaethau hyn byth yn ymddangos yn flaenoriaeth tan y diwrnod ofnadwy hwnnw pan fydd eu hangen arnoch. Gall tân fod yn drychinebus. Mae angen ymateb lleol ar unwaith ar gymunedau. Mae angen amddiffyn gwasanaethau i'n cymunedau gwledig. Bydd uno a chanoli gwasanaethau yn anochel yn golygu oedi mewn amseroedd ymateb gan beryglu bywyd ac eiddo. |
| Yn hapus i dalu ychydig mwy o arian i gadw'r gwasanaeth. |
| Mae Crucywel yn tyfu ac mae angen gwasanaeth tân rheolaidd yno |
| Mae'n wasanaeth mawr ei angen ac mae angen iddo aros |
| Mae’n gweithio'n dda, peidiwch ag ymyrryd ag ef |
| Rwy'n bennaeth gwylfa mewn gwasanaeth arall, rwyf wedi gweld yn uniongyrchol fod torri costau a lleihau lefelau staff yn peryglu bywydau ac yn y pen draw yn dibynnu ar dechnoleg i gael diffoddwyr tân newydd. Mae technoleg yn methu, nid yw diffoddwr tân uchel ei gymhelliant, sy’n cael ei werthfawrogi, yn methu. |
| Mae gwasanaeth tân yn hanfodol yng Nghrucywel a thrwy leihau gwasanaethau a ddarperir, mae’r cynlluniau arbed arian yn fy ngwylltio. |
| Rwy'n credu ei bod yn hanfodol i'r gwasanaeth tân lleol gael ei ariannu a'i gynnal |
| Mae £6 y mis yn finimol. Byddai lleihau adnoddau e.e. yn nifer y staff yn annerbyniol, yn fy marn i. Yn ogystal, rydym yn gymuned wledig felly mae cydgrynhoi adnoddau bob amser yn cael effaith negyddol ar wasanaethau. Yn achos gwasanaethau sy’n achub bywydau mae hyn yn hynod broblematig. Hyd yn oed pan fydd y penderfyniadau hyn yn seiliedig ar dystiolaeth ac yn cael eu hysgogi i beidio â chael canlyniad anffafriol a ragwelir, mae'r realiti bob amser yn wahanol. Un enghraifft yw ambiwlans a gofal damweiniau ac achosion brys nawr o'u cymharu â hyd yn oed 5 mlynedd yn ôl. |
| Gwasanaeth hanfodol yng Nghrughywel oherwydd yr amseroedd ymateb i lifogydd.<br><br>Gwasanaeth tân sy'n canolbwyntio cymaint ar y gymuned |
| Gwasanaeth hanfodol yng Nghrughywel oherwydd yr amseroedd ymateb i lifogydd.<br><br>Gwasanaeth tân sy'n canolbwyntio cymaint ar y gymuned |
| Lleihau rheolaeth haen uchaf |
| Mae ein gorsaf dân leol yn rhan annatod o'n cymuned; o’n cwmpas i gyd mae’r math o dir sy'n agored i danau gwyllt, dyffryn sy'n gorlifo, cymuned sy'n ehangu o hyd gyda thai yn creu mwy o risgiau tân, mae ein trefi cyfagos gryn bellter i ffwrdd. Mae angen i ni annog mwy o griw tân gwirfoddol i ymuno ac ehangu gwasanaeth lleol mawr ei angen. |
| Canolbwyntiwch ar fygythiad i fywyd gan dân a gweithgareddau achub fel gwrthdrawiadau ar y ffordd neu lifogydd. Peidiwch â chynnal y gwasanaeth ambiwlans trwy ymateb i gwympiadau neu fod yn ymatebwr cyntaf. Gadewch iddyn |

| |
|---|
| nhw ymladd am eu cyllid digonol eu hunain gan Lywodraeth Cymru fel y gallant ddarparu gwasanaeth priodol heb ddibynnu arnoch chi |
| Torri nifer yr AS, cynghorwyr, a hepgor eu codiad cyflog newydd o 6% |
| Cael mwy o arian i gyflogi mwy o staff, rwy'n gwybod na fydd hyn yn digwydd, ond byddai'n beth braf |
| Mae mwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus ym Mhowys yn cael eu canoli naill ai i drefi mwy Powys neu y tu allan i'r sir. Er y gallai fod rhesymeg bosibl e.e. poblogaethau mwy o faint, mae'r dull hwn er anfantais i lawer o gymunedau gwledig ac anghysbell llai, gan hyrwyddo'r anghydraddoldeb o gael mynediad at wasanaethau mewn pryd yn yr ardaloedd anoddaf eu cyrraedd ym Mhowys |
| Byddwn yn casáu meddwl nad oedd y gwasanaeth tân yn gallu mynd allan at dân am ei fod wedi cael ei alw allan at "fater meddygol!!" |
| Mae'n hanfodol cael gwasanaeth tân addas i'r diben, maen nhw'n anhygoel ac os oes angen i ni dalu mwy, fe ddylem |
| Mae'r Gwasanaeth Tân yn hanfodol ar gyfer diogelwch a lles pob cymuned ac ni ddylid gostwng lefelau staffio na gorsafoedd tân ymhellach o gwbl!<br>Rwy'n credu y byddai pawb am weld ein gwasanaeth tân yn cael ei ariannu i ddiwallu anghenion y cymunedau mae'n eu gwasanaethu! |
| Mae'r gwasanaeth tân yn hanfodol ac ni ddylem ganiatáu iddo gael ei israddio |
| Mwy o gyllid - maen nhw'n hanfodol i'n cymuned |
| Meddwl y dylai'r holl wasanaethau brys gael eu hariannu'n iawn |
| Peidiwch â chau gorsaf dân Crucywel. Uno'r heddlu a'r orsaf dân i arbed costau. |
| Mwy o allgymorth i addysg i hyrwyddo gyrfaoedd yn y gwasanaeth tân |
| Stopiwch ddiffoddwyr tân yn cysgu mewn faniau wrth wasanaethu fy nghymuned!! Mae'n anghywir a dylai'r frigâd dân ofalu am ei staff yn well. Staff sydd fel petaent yn aberthu cymaint i helpu eraill gan gynnwys fi |
| Mae'r gwasanaeth tân yn rhan mor hanfodol o'n cymuned na ddylid gwneud unrhyw doriadau. Bydd yn effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd os bydd unrhyw ran o'r gwasanaeth yn cael ei chyfaddawdu |
| Dylai diffoddwyr tân fynd allan i argyfyngau tân, gadael i'r GIG wneud ei waith ac ailagor NHH |
| Rwy'n credu bod y gwasanaeth Tân ac Achub yn ein hardal yn gwneud gwaith ardderchog ac yn darparu gwasanaeth gwych |

# Gohebiaeth Ysgrifenedig

Cafwyd gohebiaeth ysgrifenedig i'r ymgynghoriad trwy e-bost ac fe'i cynhwysir isod.

**Gohebiaeth e-bost**

Annwyl Wasanaeth Tân Canolbarth a Gorllewin Cymru,

Daeth nifer o Gynghorwyr i'r prynhawn galw heibio prysur iawn yng Ngorsaf Dân Crucywel a gynhaliwyd ddoe. Rydym yn siŵr eich bod yn ymwybodol bod nifer o bryderon wedi'u codi gan drigolion ynglŷn â Chynllun Rheoli Risg Cymunedol 2040.

Pwrpas yr e-bost hwn yw cyflwyno'n ffurfiol farn ein Cyngor, Cynghorwyr a thrigolion yr ydym wedi siarad â nhw. Rydym yn poeni o ddifrif am yr effeithiau ar y gymuned leol a diogelwch y cyhoedd pe na bai'r orsaf dân yn parhau yn gwbl alluog ac wedi'i chriwio'n llawn.

Amlinellir isod rai o'r prif bwyntiau yr ydym yn teimlo y dylech eu hystyried fel rhan o'ch Cynllun. Rydym yn teimlo bod y ffactorau penodol hyn yn gwneud ymateb cyflym a galluog o Grucywel yn hanfodol. Dyma'r pwyntiau:

- Mae Crucywel a Llangatwg yn lleoliadau gwledig gyda chodau post sy'n cwmpasu ardaloedd mawr, felly mae gwybodaeth leol yn hanfodol i gyrraedd digwyddiadau'n gyflym.
- Llifa Afon Wysg rhwng Llangatwg a Chrucywel ac mae tendar Crucywel yn cynorthwyo eiddo ar ddwy ochr yr afon ar adegau o lifogydd.
- Mae ffyrdd o amgylch Llangatwg a Chrughywel yn dueddol o orlifo; mae Crucywel yn aml yn cael ei ddisgrifio fel 'ynys' yn yr amgylchiadau hyn, sy'n gwneud criw 'ar yr ynys' yn hanfodol.

- Mae Gorsaf Dân Crucywel newydd ddod yn orsaf rydio, yn dilyn blynyddoedd lawer o geisiadau gan y gymuned. Rhaid i'r gallu hwn aros.
- Mae ffordd y mynydd rhwng Llangatwg a Glynebwy yn lleoliad digwyddiadau traffig rheolaidd.
- Mae Mynyddoedd Llangatwg a Llangynidr yn dueddol o gael tanau gwyllt y mae angen mynd i'r afael â nhw'n gyflym er mwyn atal difrod i eiddo a chynefinoedd naturiol y SoDdGA.
